# Estyn



## Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**2015-2016**







estyn.llyw.cymru
@EstynAEM



































# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **2-3** | **Cynnwys** |
| **4-13** | **Rhagair** |
| | |
| **14-29** | **Adran 1: Thematig: Dysgu proffesiynol** |
| 15 | Dysgu proffesiynol |
| 16 | Creu'r diwylliant a'r amodau iawn ar gyfer dysgu proffesiynol |
| 18-19 | Meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol mewn ysgolion |
| 20 | Mynd i'r afael â thystiolaeth ymchwil |
| 21 | Cynnal ymchwil |
| 22 | Defnyddio data |
| 23 | Defnyddio technolegau newydd |
| 24 | Dysgu sut i arwain dysgu proffesiynol |
| 25-26 | Dysgu proffesiynol mewn cyd-destunau heblaw am ysgolion a gynhelir |
| 27 | Rhwystrau rhag dysgu proffesiynol llwyddiannus |
| 28-29 | Y camau nesaf |
| | |
| **30-125** | **Adran 2: Crynodebau sector** |
| 30-39 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 40-51 | Ysgolion cynradd |
| 52-63 | Ysgolion uwchradd |
| 64-67 | Ysgolion pob oed a gynhelir |
| 68-75 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 76-79 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 80-86 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 87-89 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 90-95 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 96-101 | Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 102-109 | Colegau addysg bellach |
| 110-115 | Dysgu yn y gwaith |
| 116-117 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 118-119 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
| 120-121 | Cymraeg i Oedolion |
| 122-125 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **126-151** | **Adran 3: Sylwebaeth ar berfformiad** |
| 126-128 | Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen |
| 129 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 |
| 130 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 |
| 131 | Crynodeb o asesiadau athrawon |
| 131 | Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 |
| 132 | Pynciau craidd |
| 133 | PISA yn y DU |
| 134-135 | Prif ganfyddiadau |
| 136 | Lefelau perfformiad uwch mewn PISA |
| 137 | Crynodeb |
| 137 | Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion |
| 138-139 | Gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched |
| 140-141 | Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| 142 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) |
| 143 | Presenoldeb |
| 144-145 | Gwaharddiadau |
| 146 | Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes |
| 147 | Addysg bellach |
| 148 | Dysgu yn y gwaith |
| 149-151 | Effaith gweithgarwch arolygu dilynol |

| | |
|---|---|
| **152-157** | **Atodiad 1: Arolwg** |
| 152-153 | Arolwg |
| 154 | Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a disgrifwyr barn |
| 155-156 | Gweithgarwch dilynol |
| 157 | Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau |
| 157 | Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn |

| | |
|---|---|
| **158-161** | **Atodiad 2: Cyfeiriadau** |


## Canllaw i'r adroddiad

**Adroddiad eleni yw'r 24ain adroddiad blynyddol olynol a gyhoeddwyd yng Nghymru ers i Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 fynnu llunio adroddiad.**

**Mae'r adroddiad yn cynnwys pedair rhan:**

- **Rhagair gan y Prif Arolygydd**
- **Adran 1: adran thematig yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol**
- **Adran 2: adroddiadau sector unigol am ganfyddiadau arolygu yn 2015-2016**
- **Adran 3: sylwebaeth ar ddata perfformiad**

**Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r fframwaith arolygu a nodiadau am y geiriau, ymadroddion a'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad.**

**Gwyliwch y ffilm fer, Gair gan y Prif Arolygydd, sy'n amlinellu cwestiynau y gall arweinwyr addysg eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer myfyrio ar ddysgu proffesiynol a datblygiad staff.**

**Gallwch ganfod mwy am ganfyddiadau arolygu hefyd drwy ymweld â'n gwefan ddata ryngweithiol.**

# Rhagair y Prif Arolygydd

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn defnyddio canfyddiadau arolygiadau, ymweliadau dilynol ac adolygiadau thematig a gynhaliwyd gan Estyn yn ystod 2015-2016. Ar sail y dystiolaeth hon, rwy'n adrodd ar y deilliannau addysgol ac ar ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar gyfer pob sector addysg a hyfforddiant y mae Estyn yn eu harolygu. Yn y rhagair hwn, rwy'n nodi rhai o'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r holl dystiolaeth a oedd ar gael i mi yn ystod y flwyddyn brysur hon ar gyfer addysg yng Nghymru.



Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Amrywioldeb ac ansawdd yr addysgu

Mae'r darlun sylfaenol a geir o arolygiadau eleni yn debyg i'r llynedd.  Ar y cyfan, gwelwyd parhad yn y cynnydd gyda hanfodion fel llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ymddygiad a phresenoldeb, sydd eu angen ar ddysgwyr i fod yn 'barod i ddysgu', ond mae amrywioldeb o fewn a rhwng darparwyr yn parhau'n nodwedd amlwg o'n system addysg.  Ym mhob sector, ceir darparwyr da a rhagorol, gan gynnwys mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig, ond mae'r bwlch rhwng darparwyr sy'n gwneud yn dda a'r rhai nad ydynt yn rhy fawr o hyd.

Y ffactor pwysicaf o ran pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a dysgu yw ansawdd yr addysgu.  Fodd bynnag, addysgu yw un o'r agweddau gwannaf ar y ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o sectorau.  Yn y darparwyr gorau, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r addysgu yn eu sefydliad, ac maent yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r addysgu.  Yn y darparwyr lle ceir diffygion yn yr addysgu, nid oes syniad clir gan arweinwyr o'r hyn sydd angen ei wella, ac yn aml mae adroddiadau hunanarfarnu yn brin o fanylion ynglŷn â'r addysgu.

Mae bod â disgwyliadau uchel o'r hyn y gall dysgwyr ei wneud yn nodwedd allweddol o addysgu effeithiol.  Mae athrawon llwyddiannus yn arwain dysgwyr unigol i wella drwy holi medrus sy'n ysgogi meddwl ac yn hyrwyddo annibyniaeth.  Mae'r athrawon hyn yn amrywio'u dulliau, ac yn ennyn chwilfrydedd a diddordeb dysgwyr.  Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn y gall y dysgwyr yn eu dosbarth gyflawni pan gânt eu hymestyn.  Mae'r athrawon mwyaf llwyddiannus yn chwilfrydig ynglŷn â beth sy'n gweithio orau ar gyfer eu dysgwyr.  Maent yn meddwl yn feirniadol ynglŷn ag addysgeg, yn darllen yn eang am addysgu a dysgu, ac yn trafod eu gwaith gydag athrawon eraill.

Mae dulliau penodol ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwersi yn gyffredin erbyn hyn.  Gall rhestri gwirio o'r fath fod yn ddefnyddiol i athrawon di-brofiad neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd.  Fodd bynnag, mae perygl i'r mwyafrif o athrawon o fabwysiadu'r dulliau 'ticio blychau' hyn yn anfeirniadol gan y gallant ymboeni gormod ynghylch dilyn gweithdrefnau yn hytrach na meddwl yn greadigol am y ffordd orau i annog dysgwyr i gyflawni.

Mae gwella addysgu yn mynnu nifer o newidiadau hirdymor i'n system addysgu.  Derbynnir yn gyffredinol fod angen gwella recriwtio a hyfforddiant cychwynnol athrawon ac, yn ychwanegol at ddiwygiadau cyfredol, mae angen i ni edrych ar fodelau rhyngwladol o arfer orau yn y meysydd hyn.  Yn **adroddiad blynyddol** y llynedd, ystyriais y modd y mae diwygio'r cwricwlwm yn cynnig cyfle i adfywio sut yr ydym yn addysgu, yn ogystal â beth yr ydym yn ei addysgu.  Yn adroddiad eleni, rwy'n trafod gofyniad strwythurol arall ar gyfer gwella addysgu – dysgu proffesiynol a datblygiad staff gwell ar gyfer athrawon presennol.  Mae'r adran yn cynnwys cwestiynau hunanarfarnu a all fod yn ddefnyddiol i staff a llywodraethwyr wrth feddwl am ddysgu proffesiynol yn eu sefydliad eu hunain.

# Darparwyr a arolygwyd yn 2015-2016 y dyfarnwyd barn ragorol iddynt ar gyfer naill ai un neu ddau o'r barnau cyffredinol, sef perfformiad presennol a rhagolygon gwella

| | |
|---|---|
| **Lleoliadau nas cynhelir** | Cylch Chwarae Aberporth<br>Toy Box<br>Meithrinfa Rossett House |
| **Cynradd** | Ysgol Morfa Nefyn<br>Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa<br>Ysgol Gynradd Cwmfelinfach<br>Ysgol Iau Llangewydd<br>Ysgol Gynradd San Helen<br>Ysgol Gynradd Penllergaer<br>Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed<br>Ysgol Gynradd Maindee<br>Ysgol Gynradd Kitchener<br>Ysgol Gynradd Cae Top<br>Ysgol Gymraeg Teilo Sant<br>Ysgol Gynradd Dinas Powys<br>Ysgol Gymraeg Ifor Hael<br>Ysgol Gynradd Birchgrove, Caerdydd<br>Ysgol Gynradd Severn<br>Ysgol Gynradd Albert<br>Ysgol Feithrin Brynteg |
| **Uwchradd** | Ysgol Bryn Elian<br>Ysgol Gyfun Pontarddulais<br>Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed |
| **Annibynnol** | Ysgol Haberdashers i Ferched, Trefynwy |
| **Darparwyr Ôl-16** | Coleg Cambria<br>Coleg Pen-y-bont ar Ogwr<br>Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol<br>Sgiliau Adeiladu – CiTB |

# Addysg gynradd ac uwchradd

Mae deilliannau arolygu eleni yn dangos eto fod gwahaniaethau sylweddol rhwng sectorau. Mae saith o bob deg ysgol gynradd a arolygwyd eleni yn dda neu'n well, sydd ychydig yn well na'r llynedd, ond dim ond pedair o bob deg o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd sy'n dda neu'n well, sef yr un fath â'r llynedd. Mae'r gyfran rhagoriaeth mewn ysgolion cynradd yn parhau i gynyddu, i 22% eleni o 18% y llynedd. Mae'r gyfran o ysgolion uwchradd y nodwyd bod rhywfaint o ragoriaeth ynddynt wedi gostwng i ryw chwarter eleni o 38% y llynedd. Fe wnaethom arolygu dwy ysgol pob oed eleni, ac roedd cryfderau gan y ddwy yn eu darpariaeth gynradd, ond roedd diffygion yn eu gwaith uwchradd. Hefyd, arolygom y pedwar consortia rhanbarthol eleni a chanfod nad oeddent yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r amrywioldeb mewn perfformiad ar draws ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Ceir mwy o arfer ragorol ac arfer anfoddhaol yn y sector uwchradd nag mewn ysgolion cynradd. Nid yw'r amrywio cynyddol hwn wrth i blant fynd yn hŷn yn digwydd mewn deilliannau arolygu yn unig. Er enghraifft, mae'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn a'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn ehangu hefyd wrth i ddisgyblion symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Gall cael un athro ar gyfer pob dosbarth am y flwyddyn olygu ei bod yn haws i ysgolion cynradd sefydlu dull cyson o addysgu a dysgu, ac i fynd i'r afael ag anghenion pob plentyn fel unigolyn. Mae'r ffaith fod ysgolion uwchradd yn fwy, a'r natur adrannol a geir ynddynt, yn gwneud hyn yn anos i'w gyflawni.

Caiff arholiadau allanol hefyd effaith fawr ar brofiadau dysgu disgyblion mewn ysgolion uwchradd. Yn benodol, gall canolbwyntio gormod ar geisio cyflawni ystod gul o ddangosyddion perfformiad arholiadau arwain at ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, mae tuedd gynyddol o gofrestru disgyblion yn gynnar ar gyfer arholiadau. Mae'r strategaeth hon yn helpu disgyblion mwy abl sy'n sefyll arholiadau TGAU mathemateg yn gynnar, sy'n cael graddau uchel iawn, ac yna'n mynd ymlaen i astudio mathemateg bellach. Fodd bynnag, mae anfanteision i gofrestru carfanau cyfan o ddisgyblion yn gynnar ar gyfer TGAU mathemateg neu Saesneg neu Gymraeg, er y gall helpu disgyblion i ennill graddau C yn y pynciau pwysig hyn a hybu dangosydd 'cynwysedig lefel 2'[1] yr ysgol. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu yn llai, ac weithiau caiff disgyblion eu tynnu allan yn rhannol o wersi pynciau eraill. Mae athrawon yn rhuthro i orffen y maes llafur neu nid ydynt yn addysgu rhannau ohono. Mae disgyblion yn sefyll arholiadau gyda dealltwriaeth anghyflawn o'r pwnc ac o ofynion arholiadau, ac nid ydynt yn cyflawni eu potensial yn llawn. Gall ailsefyll arholiadau wella graddau i rai disgyblion, ond nid pob disgybl.

[1] Pump gradd A*-C mewn TGAU neu gyfwerth yn cynnwys mewn Cymraeg neu Saesneg ac mewn mathemateg

# Medrau meddwl

Y dangosydd gorau o ddysgu da ac addysgu da yw ansawdd a dyfnder meddwl disgyblion. Mae'r canlyniadau PISA a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn fesur rhyngwladol o fedrau meddwl dysgwyr, eu rhesymu llafar a rhifyddol, a'u medrau datrys problemau. Mae angen y medrau hyn i wneud yn dda mewn arholiadau, mewn astudiaeth bellach ac mewn cyflogaeth, ac mae eu datblygu yn elfen hanfodol o addysg eang sydd â'r nod o gynhyrchu unigolion cyflawn a all gyfrannu at fywyd cyhoeddus a'i ddadleuon. I gael sylwadau ar y canlyniadau PISA, gweler adran tri yr adroddiad hwn.

Caiff medrau meddwl eu datblygu orau pan fydd dysgwyr wedi ymgysylltu â'u dysgu a phan gânt amser i feddwl yn ddwys am eu hastudiaethau. Bwriad y Cyfnod Sylfaen, a rhaglen diwygio'r cwricwlwm a ddeilliodd o'r adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yw annog arlwy gyfoethocach o brofiadau dysgu a mwy o gyfleoedd i feddwl yn annibynnol. Mae'r TGAUau newydd a Bagloriaeth Cymru wedi'u bwriadu i annog ac archwilio medrau meddwl dysgwyr hefyd. Byddwn yn adolygu arfer orau yn y Cyfnod Sylfaen, parodrwydd ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'r cynnydd a wnaed gyda'r arholiadau newydd mewn adroddiadau thematig y flwyddyn nesaf.

# Bodloni anghenion pob dysgwr

Nid yw deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion arbennig a gynhelir gystal eleni o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac mae deilliannau ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn parhau'n wael. Mae angen i ni barhau i wneud yn siŵr bod ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael eu haddysgu'n dda a'u bod yn cael gofal da. Eleni, cyhoeddom dri adroddiad thematig a edrychodd ar yr addysg a ddarperir i ddysgwyr sy'n arbennig o agored i niwed, gan gynnwys **dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol**, **plant sy'n derbyn gofal**, a **dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol**. At ei gilydd, er gwaethaf gwelliannau diweddar a'r arfer dda a amlygwyd yn yr adroddiadau hyn, mae deilliannau ar gyfer y dysgwyr hyn yn parhau'n rhy amrywiol.

Yn benodol, gwelom feysydd cyffredin i'w gwella mewn arfarnu a rheoli gwybodaeth. Er enghraifft, dim ond lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n arfarnu cynnydd disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn ddigon da, neu sy'n cymryd digon o gyfrifoldeb am godi cyflawniad plant sy'n derbyn gofal. Nid yw llawer o golegau arbenigol annibynnol yn asesu cynnydd dysgwyr ym meysydd hollbwysig annibyniaeth a medrau bywyd, ac nid ydynt yn gallu arfarnu'r agweddau hyn ar eu gwaith. Hefyd, gwelom nad oes gan ysgolion, darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol a cholegau arbenigol annibynnol y wybodaeth yn aml sydd ei hangen arnynt am ddysgwyr i sicrhau eu bod yn cael cychwyn llwyddiannus yn eu lleoliad newydd. Ym mhob lleoliad, ceir bylchau yn y wybodaeth arbenigol sydd ei hangen ar staff i gefnogi anghenion cymhleth dysgwyr, sy'n awgrymu'r angen am fwy o ddatblygiad a hyfforddiant staff.

Thema gyffredin arall mewn adroddiadau arolygu eleni, ac y tynnwyd sylw ati yn adrannau sector yr adroddiad blynyddol hwn, yw tangyflawniad dysgwyr mwy abl, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig. Mewn rhyw draean o ysgolion cynradd, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd am nad yw'r gwaith sy'n cael ei osod iddynt yn ddigon heriol. Mewn ysgolion uwchradd, dylai canlyniadau TGAU a Safon Uwch fod yn well ar raddau uwch. Nid yw consortia rhanbarthol yn dadansoddi cynnydd grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn ddigon manwl. Mae rhai darparwyr sy'n bodloni anghenion disgyblon mwy abl yn dda yn defnyddio TGCh i ddarparu her addas i'r disgyblion hyn ddysgu drwy wneud, a derbyn adborth uniongyrchol. Mae mynd i'r afael â thangyflawniad dysgwyr mwy abl yn helpu i sicrhau bod disgwyliadau'n ddigon uchel ar gyfer y garfan gyfan o ddysgwyr.

# Addysg ôl-orfodol

Eleni, fe wnaethom arolygu dau goleg addysg bellach gan ddefnyddio trefniadau arolygu newydd sy'n cynnwys arolygu sampl o feysydd dysgu. Mae'r colegau hyn wedi addasu eu cwricwla i fodloni anghenion dysgwyr ac i fod yn ymatebol i'r gymuned leol. Gwnânt ddefnydd da o wybodaeth am y farchnad lafur i nodi anghenion medrau cyflogwyr. Mae dau o'r tri darparwr dysgu yn y gwaith a arolygwyd hefyd yn darparu ystod o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda.

Eleni hefyd, cynhaliom arolygon thematig mewn addysg bellach ar **arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol ac ar wasanaethau cymorth dysgwyr**, ar **chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau** i ddysgwyr o gymunedau pobl dduon ac ethnig lleiafrifol a'r rhai ag anableddau, ac ar ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes **iechyd a gofal cymdeithasol oedolion**.

Gwelom fod y rhan fwyaf o golegau addysg bellach yn defnyddio mentoriaid yn dda i gefnogi'u hathrawon. Mae gweithio agos mewn partneriaeth rhwng ysgolion, colegau addysg bellach a Gyrfa Cymru yn sicrhau bod bron yr holl ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth wedi'i gynllunio'n dda wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol i addysg bellach. Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr, asiantaethau cyflogaeth dan gymorth, cyflogwyr a sefydliadau'r trydydd sector yn gwella amrywiaeth mewn prentisiaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr i fodloni anghenion dysgwyr.

Fodd bynnag, dim ond ychydig o golegau sy'n cynllunio amser ar gyfer arsylwadau cymheiriaid, ac nid oes digon o staff addysgu yn cyfranogi mewn cymunedau dysgu proffesiynol o fewn na thu allan i'w colegau. Mae angen datblygiad proffesiynol ychwanegol i wella addysgu ac asesu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion, yn enwedig ar lefel 5. Yn ogystal, mae angen gwella'r drefn casglu data am gyrchfannau dysgwyr a data ynglŷn â nifer y dysgwyr sy'n hyfforddi yn Gymraeg. Er bod darparwyr ôl-16 yn cynnig agweddau ar hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ychydig o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau ysgrifenedig neu gymwysterau yn yr iaith.

# Arweinyddiaeth

Gall pob darparwr wella ac arweinyddiaeth yw'r ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar y gwelliant hwnnw. Da o beth felly yw bod Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol yn cael ei sefydlu yng Nghymru. Yn ddiweddar, cyhoeddom adroddiad ar **Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd**, yn dilyn cyhoeddiad tebyg ar **Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd**. Gwelom fod arweinyddiaeth a rheolaeth gref yn sefydlu'r elfennau canlynol:

- gweledigaeth, diwylliant a synnwyr o gyfeiriad cyffredin
- ffocws ar wella addysgu a dysgu
- buddsoddi mewn datblygiad a dysgu proffesiynol staff
- hunanarfarnu onest a chynllunio gwelliant systematig

Ym mhob cam datblygu, mae angen i arweinwyr sefydlu dealltwriaeth gyffredin o ddiben yr ysgol, ei huchelgeisiau a'i disgwyliadau ar gyfer dysgwyr, a sicrhau bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Rhaid i arweinwyr ddangos ymrwymiad a gallu i ddatblygu medrau proffesiynol eu staff, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu. Maent yn gyfrifol am wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, am arwain dysgu, yn hytrach nag ymgymryd â dyletswyddau rheoli a gweinyddu yn unig. Rhaid i staff mewn rolau arwain sefydlu barn glir ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy wrando ar ddysgwyr, drwy arsylwi dosbarthiadau'n systematig a thrwy graffu ar waith disgyblion. Pan fydd meysydd i'w gwella wedi'u nodi, yna mae angen i arweinwyr:

- weithredu strategaethau i sicrhau gwelliant
- nodi a darparu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol, y cymorth a'r hyfforddiant gofynnol i staff
- monitro ac arfarnu cynnydd
- dwyn eu hunain ac eraill i gyfrif er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sy'n ofynnol yn digwydd

Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr yn sefydlu diwylliant o ddysgu ac mae datblygiad proffesiynol staff ar bob lefel yn flaenoriaeth uchel, gan gynnwys datblygu arweinwyr, o gyfnodau cynnar yn eu gyrfaoedd yn aml.

# System hunanwella

Mae dealltwriaeth gynyddol o'n nodau hirdymor fel system addysg. Pennodd adroddiad **Dyfodol Llwyddiannus** bedwar diben ar gyfer deilliannau dysgwyr. Mae safonau proffesiynol newydd yn cael eu datblygu i roi gwedd gliriach ar ddisgwyliadau athrawon ysgol ac arweinwyr.

Hefyd, mae diwylliant o gydweithredu a chymorth mewn perthynas â dysgu proffesiynol yn datblygu, er bod consortia rhanbarthol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o waith rhwng ysgolion ac nid ydynt wedi arfarnu effeithiolrwydd y modelau amrywiol hyn. Yn gyffredin, mae consortia rhanbarthol yn defnyddio gwybodaeth eu hymgynghorwyr her ynglŷn â ble ceir arfer dda yn y rhanbarth er mwyn brocera cymorth rhwng ysgolion. Yr her i'n hysgolion mwyaf llwyddiannus yw sicrhau bod eu prosesau cynllunio olyniaeth yn ddigon cadarn i ddatblygu'u gallu arweinyddol, fel y gall uwch arweinwyr gyfrannu at gymorth rhwng ysgolion heb beryglu'u darpariaeth a'u datblygiad eu hunain.

# Datblygiadau arolygu

Yn Hydref 2016, cyhoeddais yr holl farnau arolygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-2016 fel **ystadegau swyddogol**. Rhyddheais y data hwn ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn bod yn agored. Mae'r **gwefan ddata rhyngweithiol** a lansiwyd y llynedd yn galluogi darllenwyr i archwilio holl farnau arolygu Estyn er 2010. Adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf fydd yr olaf gan ddefnyddio'r fframwaith arolygu cyffredin presennol, a bydd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed dros y saith mlynedd flaenorol.

Rydym wrthi'n cynnal arolygiadau peilot gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin newydd, mwy syml a gaiff ei ddefnyddio o Fedi 2017 ymlaen. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar feysydd allweddol safonau, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Gallwch gofrestru i dderbyn diweddariadau ar ein holl waith ar **ein gwefan**. Yn ogystal â chael gwybod mwy am ein trefniadau arolygu newydd, gallwch gofrestru i dderbyn rhybuddion o **adroddiadau thematig** sydd i ddod a'n hymgyrch **chwalu'r chwedlau**.


phalogram

# Adran: 1



# Dysgu proffesiynol

Mae'r adran hon yn defnyddio tystiolaeth o arolygiadau ac o arolygon thematig Estyn, gan gynnwys yr arolygon teithiau gwella ysgolion (Estyn, 2013 ac Estyn, 2016c), i nodi beth sy'n gweithio'n dda mewn dysgu proffesiynol. Mae astudiaethau achos yn dangos y modd y mae dysgu proffesiynol effeithiol yn meithrin gallu ar gyfer arweinyddiaeth a gwelliant, ac yn arwain at addysgu a dysgu gwell. Caiff anawsterau y bydd darparwyr yn eu hwynebu gyda dysgu proffesiynol eu harchwilio. Mae'r adran yn canolbwyntio ar ysgolion yn bennaf, er bod llawer o'r prif negeseuon yn berthnasol i ddarparwyr eraill.

Y dylanwad mwyaf ar ddeilliannau dysgwyr yw ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Cyflwynwyd strategaethau amrywiol yng Nghymru gyda'r bwriad o wella ansawdd addysgu a dysgu, a helpu ymarferwyr i ddatblygu eu harfer trwy gydol eu gyrfaoedd. Y nod yw meithrin gallu a dileu amrywiadau o fewn ysgolion a rhyngddynt. Mae diwygiadau presennol mewn addysg wedi'u seilio ar fodel o system hunanwella ac o weithio o ysgol i ysgol. Mae hyn yn golygu bod ysgolion a darparwyr, arweinwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys athrawon a staff cymorth, yn cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain a datblygiad eu cymheiriaid. Caiff y dull hunanwella hwn ei arwain gan yr ysgol, a'i gydbwyso gyda chymorth gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru[1].

Un cryfder allweddol yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig, llawer o ysgolion cynradd, a thua hanner yr ysgolion uwchradd, yw'r ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol maen nhw'n ymgymryd â nhw. Mae ystod y gweithgareddau, ynghyd â lefelau uchel o ymgysylltiad a brwdfrydedd ymhlith ymarferwyr, yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu yn yr ysgolion hyn. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth ac addysgu yn rhagorol, ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol, a chaiff gweithgareddau dysgu proffesiynol eu cynllunio a'u harfarnu'n systematig. Hefyd, rhoddir ffocws clir ar wella arfer yn yr ystafell ddosbarth a deilliannau disgyblion. Er hynny, at ei gilydd, nid oes digon o ysgolion yn helpu staff i wneud y gorau o gyfleoedd dysgu proffesiynol, ac nid ydynt yn arfarnu a yw'r gweithgareddau hyn yn arwain at welliannau ar gyfer disgyblion neu staff.

Os yw ysgolion yn mynd i wella eu dysgu proffesiynol, a gweithio tuag at fod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2016), mae'n bwysig ystyried beth sy'n gweithio'n dda. Mae ein canfyddiadau o arolygiadau ac arolygon thematig yn dangos mai'r meysydd allweddol sy'n cyfrannu at ddysgu proffesiynol llwyddiannus yw:

- creu'r diwylliant a'r amodau iawn ar gyfer dysgu proffesiynol
- meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol o fewn ysgolion a rhyngddynt
- mynd i'r afael â thystiolaeth ymchwil a chynnal ymchwil
- defnyddio data a thechnolegau newydd fel catalyddion ar gyfer gwella ac arloesi
- dysgu sut i arwain dysgu proffesiynol a datblygiad staff

[1]Gweler er enghraifft, Datblygu'r gweithlu (Llywodraeth Cymru, 2016a)


# Creu'r diwylliant a'r amodau iawn ar gyfer dysgu proffesiynol

Mae ysgolion da yn rhoi pwys mawr ar ddysgu, ar gyfer staff yn ogystal â disgyblion. Mewn ysgolion uchel eu perfformiad, mae uwch arweinwyr hyderus yn hyrwyddo gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad staff ac yn sefydlu diwylliant cryf a chydweithredol o ddysgu proffesiynol. Maent yn rhoi gwerth mawr ar y diwylliant hwn, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu potensial yr holl staff a'r gred y dylai pob menter ganolbwyntio ar y dysgwr ac ar wella profiadau, dysgu a deilliannau disgyblion. Mae rheoli perfformiad pwrpasol yn rhan o'r broses hon, lle mae staff yn deall y disgwyliadau uchel sy'n ofynnol ganddynt ac yn rhannu'r ymrwymiad i wella eu harfer eu hunain. Mae arweinwyr ar bob lefel yn darparu cefnogaeth gadarn i helpu staff i wneud pethau mewn ffyrdd newydd a gwell.

Mewn ysgolion lle mae dysgu proffesiynol yn fwyaf effeithiol, caiff datblygiad staff ei gynllunio a'i arwain i sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf yn yr ystafell ddosbarth ac ar ddeilliannau disgyblion. Mae Ffigur 1.1 yn dangos rhai elfennau cyffredin a ffactorau allweddol sy'n digwydd yn yr ysgolion gwell hyn er mwyn creu'r amodau iawn ar gyfer dysgu proffesiynol.

**Ffigur 1.1:**
Creu'r amodau iawn ar gyfer arwain dysgu proffesiynol

| Elfennau | Ffactorau allweddol |
|---|---|
| **Eglurder diben a rôl** | • Mae arweinwyr ar bob lefel yn hyrwyddo diwylliant o ddyheadau uchel ac mae cred gyfunol y dylai disgyblion a staff anelu at wella a chyflawni eu gorau.<br>• Ceir cynllunio systematig a phwrpasol ar gyfer dysgu proffesiynol, wedi'i deilwra at anghenion unigol.<br>• Mae staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac mae diwylliant o gydweithredu a chyfathrebu clir rhwng arweinwyr a staff.<br>• Ceir dealltwriaeth gyffredin a defnyddir iaith gytûn ynglŷn â chysyniadau allweddol, a deialog agored ac uniongyrchol ynglŷn â dysgu proffesiynol a'i effaith. |

| Elfennau | Ffactorau allweddol |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth ymroddedig a chydgyfrifoldeb**<br> | • Mae uwch arweinwyr yn rhoi proffil a blaenoriaeth uchel i ddysgu proffesiynol, ac yn pennu blaenoriaethau strategol ar ei gyfer, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol.<br>• Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod datblygiad staff yn cael ei arwain yn effeithiol, bod adnoddau priodol ar ei gyfer a'i fod yn cael ei hyrwyddo o fewn yr ysgol, a bod 'gwersi a ddysgwyd' yn cael eu rhannu.<br>• Er mai uwch arweinwyr ac arweinwyr canol all fod yn hwyluso dysgu proffesiynol, mae cyfraniad yr holl staff yn cael ei werthfawrogi a'i weld yn elfen ganolog i lwyddiant.  Cydnabyddir y cydgyfrifoldeb ar gyfer gwella ac ymdeimlad o 'gallwn ei wneud gyda'n gilydd'.<br>• Mae monitro ac arfarnu gweithgareddau dysgu proffesiynol yn rhan o drefniadau cadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn yr ysgol gyfan ac mewn adrannau. |
| **Hinsawdd cefnogol**<br> | • Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn cefnogi ymgysylltiad pob un o'r staff â thrafodaeth agored ac onest ynglŷn â dysgu proffesiynol. Maent yn nodi arbenigedd i gefnogi dysgu proffesiynol, o fewn yr ysgol neu du hwnt, ac yn gweithio'n hyblyg i ddarparu digon o amser i ymgymryd â gweithgareddau.<br>• Caiff chwilfrydedd ac arloesedd eu hannog, ac mae trefniadau dysgu proffesiynol yn darparu cyfleoedd i rannu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.<br>• Mae staff yn archwilio agweddau ar eu harfer eu hunain, a, chan feddwl yn ddyfnach, yn ystyried y cysylltiad rhwng eu harfer a'i heffaith ar ddysgu a deilliannau disgyblion.<br>• Ceir diwylliant drws agored gwirioneddol mewn ystafelloedd dosbarth sy'n cyfrannu at feithrin diwylliant o ymddiriedaeth, tryloywder a gonestrwydd. |

# Meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol mewn ysgolion

Ledled Cymru, ceir defnydd cynyddol o ddysgu cymheiriaid ffurfiol ac anffurfiol mewn ysgolion fel rhan o ddatblygiad staff sydd o fudd i bawb. Mewn ysgolion lle ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol a chydweithredu, mae ymarferwyr yn gweithio fel tîm i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni'n dda. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr wedi creu ethos tîm cryf ac wedi sicrhau bod parhau i wella ansawdd yr addysgu yn ganolog i sicrhau darpariaeth well a deilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

Yn yr ysgolion gorau, mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dulliau a disgwyliadau ysgol gyfan cytûn mewn perthynas ag arfer yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn cytuno ar sut beth yw addysgu effeithiol ac yn dechrau arloesi. Er enghraifft, efallai bydd athrawon yn myfyrio ar eu harfer broffesiynol drwy ffilmio gwersi ac arfarnu cynnydd disgyblion. Rhan bwysig o'r broses hon yw cyfathrebu clir rhwng arweinwyr ac ymarferwyr er mwyn sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth a geirfa gytûn ynglŷn ag addysgu a dysgu. Mae'r eglurder cynyddol hwn o ran dealltwriaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant o fyfyrio ac yn sail ar gyfer cylch gwella. Yn yr ysgolion hyn, mae prosesau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n rheolaidd ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu a'r modd y mae dysgu proffesiynol yn cyfrannu at wella ansawdd.

Mae hyfforddi a mentora yn ddull pwysig o feithrin perthnasoedd proffesiynol cefnogol hefyd. Maent yn galluogi staff i ddatblygu ac yn cryfhau'r diwylliant dysgu proffesiynol mewn ysgol. Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn cydweddu anghenion dysgu ymarferwyr unigol yn fedrus â'r hyfforddwr neu'r mentor mwyaf priodol a all eu helpu. Maent yn defnyddio ymarferwyr profiadol o fewn yr ysgol i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr llai profiadol mewn parau neu drioedd, neu'n galluogi sawl ymarferydd cadarn i weithio gyda'i gilydd ar brosiectau arloesol. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud y gorau o gyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd, addysgu tîm, ac i ymgymryd â gweithgareddau craffu ar y cyd. Maent yn defnyddio technolegau fideo ac yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol ynglŷn ag agweddau ar addysgu a dysgu, mewn ffordd sy'n cryfhau'r hinsawdd o fod yn agored, ymddiried yn ei gilydd a pharch at ei gilydd.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae ysgolion yn sicrhau bod y rheini sy'n gysylltiedig ag arwain trefniadau cymorth cymheiriaid yn cael cyfle i ddatblygu'u medrau arweinyddiaeth eu hunain er mwyn ymgymryd â'u rôl arwain. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod yr amser a ddyrennir ar gyfer y datblygiadau hyn yn cael ei 'ddiogelu' a'i fod yn galluogi cynnal gwelliannau.

## Mae gwaith tîm yn arwain at addysgu o ansawdd uchel

Yn **Ysgol Gynradd Hafren** mae uwch arweinwyr wedi datblygu gwaith tîm rhagorol yn yr ysgol, trwy sianelau cyfathrebu cryf, gweledigaeth gyffredin a rhannu arfer dda. Mae staff yn teimlo wedi'u grymuso ac yn llawn cymhelliant i fod yn arloesol, i herio arfer gyfredol ac i fyfyrio ar y modd gorau i wella'r addysgu yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at addysgu o ansawdd uchel ar draws yr ysgol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

## Rhaglen hyfforddi athrawon yn sylfaen i ragoriaeth

Mae'r holl athrawon yn **Ysgol Uwchradd Caerdydd** yn rhan o raglen hyfforddiant sy'n rhoi cymorth, arweiniad a datblygiad proffesiynol iddynt. Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar wella ac yn annog pob athro i ddod yn ddysgwr gydol oes. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella arfer yn yr ystafell ddosbarth a safonau.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

# Meithrin perthnasoedd proffesiynol cydweithredol a chefnogol rhwng ysgolion

Bydd gan ysgol ragorol anghenion datblygu staff gwahanol i un sy'n ei chael yn anodd bodloni'r disgwyliadau uwch ar ysgolion heddiw. Er hynny, mae ein hadroddiadau teithiau gwella (Estyn 2013, Estyn 2016c) yn dangos mai un amod allweddol ar gyfer dysgu proffesiynol llwyddiannus ymarferwyr ym mhob ysgol yw datblygu perthnasoedd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ysgol. Mae meithrin diwylliant o gydweithredu o ysgol i ysgol yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i fod yn agored i ddysgu gan eraill, a bydd yn fwyaf effeithiol pan fydd ymarferwyr yn cael cyfle i weithio gyda'i gilydd i gyflawni nod penodol.

Nid yw'r perthnasoedd cydweithredol hyn gan bron yr holl ysgolion sy'n cael eu rhoi mewn categori statudol (angen gwelliant sylweddol neu angen mesurau arbennig). Mae'r ysgolion hyn a'u staff wedi eu hynysu, ac mae'n anodd iddynt gael asesiad realistig o ddeilliannau'r ysgol ac ansawdd eu haddysgu a'u dysgu. Yn aml, mae eu harweinwyr yn defnyddio cefndir disgyblion fel esgus am berfformiad gwael am nad ydynt wedi gweithio gydag ysgolion mewn sefyllfaoedd tebyg sy'n perfformio'n well o lawer.

Mewn cyferbyniad, mae ysgolion uchel eu perfformiad bob amser yn gweithio'n agos gyda rhwydweithiau, clystyrau a grwpiau teulu o ysgolion eraill, ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae'r rhwydweithio hwn yn eu helpu i ddeall y ffactorau gwahanol sy'n cyfrannu at arfer effeithiol ac i fesur ansawdd eu haddysgu a'u dysgu yn gywir, a gochel rhag asesiadau rhy uchel neu rhy isel. Maent yn elwa'n uniongyrchol ar weithio gydag ysgolion eraill ar weithgareddau megis craffu ar y cyd ar waith disgyblion neu arsylwi gwersi ar y cyd gydag ymgynghorwyr o'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r prosiectau hyn ar y cyd yn helpu staff i fyfyrio ar eu harfer a magu eu hyder.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff yn cyfranogi mewn gweithgorau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae trylwyredd ac effaith gwaith y grwpiau hyn yn amrywio gryn dipyn. Mae nod clir ac ymdeimlad o ddiben gan y grwpiau mwyaf effeithiol. Gweithiant tuag at gyflawni blaenoriaethau ar gyfer gwella y pennwyd eu cwmpas ac a gynlluniwyd yn realistig, gydag adnoddau priodol a digon o amser i ymgymryd â'r gwaith. Mae aelodau'r grwpiau hyn yn hyblyg o ran eu dull gweithio, yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm, yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus, ac yn cynllunio ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir.

Yn gynyddol, mae ysgolion yn datblygu eu gallu mewnol trwy ddatblygu staff fel hwyluswyr gweithio rhwng ysgolion. Er enghraifft, mae rhai ysgolion wedi dod yn ganolfannau ar gyfer 'Ysgolion Arloesi' neu deuluoedd ysgolion eraill. Mae'r profiad hwn wedi darparu cyfleoedd cyfoethog i'r hwyluswyr ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth ehangach.

## Datblygu strategaethau newydd i wella ansawdd yr addysgu

Wrth weithio tuag at addysgu da neu well yn gyson, cyflwynodd **Ysgol Cefn Hengoed** systemau newydd ar gyfer rhannu arfer orau, ac ar gyfer herio a chefnogi staff. Roedd arfer newydd yn cynnwys 'grŵp addysg a dysgu gweithredol', gyda'r staff yn elwa ar gael eu gwaith wedi'i ddilysu yn allanol a'i gymedroli'n fewnol, a mwy o gyfleoedd i gynorthwyo ysgolion eraill i wella.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

## Cynnal safonau uchel a chynorthwyo gwelliant mewn ysgolion eraill

Er mwyn cynnal lefelau uchel o berfformiad, mae uwch arweinwyr yn **Ysgol Glan Gele** yn canolbwyntio ar ddatblygu staff ar bob lefel. Mae dulliau cydweithredol o ddysgu proffesiynol yn cynnwys arsylwadau addysgu ar y cyd gydag ysgolion eraill sy'n cyfrannu at addysgu a dysgu ansawdd uchel yr ysgol a deilliannau rhagorol. Mae hefyd wedi helpu i gynorthwyo gwelliant mewn ysgolion partner.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch yr adroddiad **Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** (tud.90-94).

# Mynd i'r afael â thystiolaeth ymchwil

Mae cynhyrchu cyfleoedd newydd i archwilio a myfyrio ar addysgu a dysgu yn elfen bwysig o greu ysgol neu ddarparwr sy'n hunan-wella. Caiff myfyrio ac arloesi eu hysgogi drwy fynd i'r afael yn weithredol â thystiolaeth a chanfyddiadau ymchwil presennol.

Mewn ysgolion sy'n defnyddio tystiolaeth ymchwil bresennol yn rheolaidd, mae athrawon yn gallu arfarnu damcaniaethau ynglŷn ag addysgu a dysgu, a'u cymhwyso i'w harfer eu hunain. Mae mynd i'r afael â damcaniaeth ac ymchwil yn galluogi athrawon i wneud penderfyniadau mwy gwrthrychol a gwybodus ynglŷn â pha strategaethau addysgu sy'n fwyaf addas i'w disgyblion, ac i wrthod syniadau anaddas neu chwiwgar. Mae'r ymgysylltu hwn yn helpu athrawon i fod yn fwy hyderus, craff a chreadigol, am fod eu harfer wedi'i gwreiddio mewn deall beth sy'n gweithio'n dda.

Uwch reolwyr fydd yn arwain y gwaith hwn yn aml. Maent yn archwilio ac yn craffu ar gyhoeddiadau ymchwil perthnasol ac yn hidlo gwybodaeth fel nad yw staff yn cael eu gorlwytho. Gwnânt yn siŵr bod bron pob un o'r ymarferwyr yn mynd i'r afael yn weithredol ag ymchwil. Maent yn cynllunio ac yn rheoli ymgysylltiad staff â phrosiectau ymchwil. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn edrych yn feirniadol ac yn wybodus ar y dystiolaeth ymchwil sydd ar gael er mwyn penderfynu pa strategaethau yw'r rhai gorau ar gyfer eu hysgol. Yn benodol, mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd da o ymchwil addysgol i ddylanwadu ar eu gwaith yn cynorthwyo disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r dystiolaeth o sefydliadau elusennol fel y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA), Ymddiriedolaeth Sutton, y Gronfa Waddol Addysg, a Sefydliad Joseph Rowntree, ac yn efelychu agweddau ar astudiaethau achos a gyhoeddwyd.

Yn gynyddol, mae ysgolion yn manteisio ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol y mae consortia rhanbarthol yn eu darparu i ddefnyddio arfer yn seiliedig ar dystiolaeth, yn enwedig ar gyfer llythrennedd, rhifedd, a chodi cyflawniad disgyblion difreintiedig. Mae un enghraifft yn ymwneud â hwyluso hyfforddiant, yn seiliedig ar ymchwil seicoleg addysgol, ar fodloni anghenion llythrennedd emosiynol disgyblion. Mae'r hyfforddiant yn helpu staff i gael dealltwriaeth well o destunau fel meithrin hunan-barch disgyblion drwy ryngweithio cymdeithasol cadarnhaol. Mae staff yn cymhwyso'r wybodaeth hon i gyfeirio a phersonoli ymyriadau i fodloni anghenion eu disgyblion, yn enwedig y rheini sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Mae consortia yn hyrwyddo fframweithiau neu fodelau addysgu penodol hefyd, yn seiliedig ar ymchwil addysgol, er mwyn helpu ysgolion i wella ansawdd eu haddysgu ac i sefydlu iaith gyffredin ynglŷn ag addysgu. Mewn ysgolion sy'n defnyddio'r fframweithiau hyn fel cam cyntaf ar eu taith wella, gall yr addysgu fynd yn fformiwläig. Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn addasu'r fframwaith arfaethedig yn ôl anghenion eu hathrawon a'u disgyblion.

Mae nifer o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol ac wedi ffurfio cysylltiadau buddiol gydag ysgolion, awdurdodau a chonsortia. Mae'r cysylltiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ysgolion fanteisio ar ymchwil a hyfforddiant cyfredol ar ddulliau ymchwil, ac i'r brifysgol fynd i ysgolion i gynnal ei hymchwil. Mae'r cyfnewid hwn o ran gwybodaeth a thystiolaeth ymchwil yn gam cadarnhaol tuag at adeiladu'r gallu ar gyfer dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Mae'r ysgol yn meithrin mwy o gysylltiad ag ymchwil ac mae ymarferwyr unigol yn fwy hyderus ynglŷn â defnyddio tystiolaeth.

## Rhowch eich meddwl ar waith!

Mae disgyblion yn **Ysgol Gynradd Rhydypenau**, Caerdydd, yn mwynhau dysgu mewn amgylchedd lle caiff medrau meddwl eu hannog drwy ddefnyddio ystod o strategaethau fel 'mapiau' meddwl a 'hetiau' meddwl sy'n trawsnewid addysgu a dysgu.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

# Cynnal ymchwil

Mae'r ysgolion gorau yn defnyddio dulliau ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth i arfarnu p'un a yw dulliau addysgu a dysgu penodol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion, ac felly maent yn helpu ymarferwyr i ddewis y dulliau gweithio mwyaf effeithiol. Maent yn gweithio gyda grŵp dethol o ddisgyblion i asesu effaith dulliau penodol. Mae athrawon yn casglu data gwaelodlin ac yn arfarnu effeithiolrwydd y fenter yn rheolaidd gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth i fesur cynnydd disgyblion. Maent yn chwilio'r llenyddiaeth fwyaf perthnasol sy'n ymwneud â'u nodau ymchwil. Mewn achosion lle maent yn dilyn cwrs astudiaeth meistr, maent yn cynhyrchu adolygiad llenyddiaeth ffurfiol o'r meddwl cyfredol ar eu testun ymchwil, ac yn ei ddefnyddio i lywio eu hymchwiliad eu hunain.

Mae ysgolion sy'n cefnogi ymchwil yn darparu hyfforddiant i athrawon ar ddadansoddi data, ar sut i wrthsefyll rhagfarn a goddrychedd, ac ar sicrhau bod eu gwaith yn cael ei gyflawni'n foesegol. Maent yn darparu cyfleoedd i athrawon rannu eu canfyddiadau gyda chydweithwyr ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr o faterion, fel cyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion. Maent hefyd yn darparu'r cyfle i drafod anawsterau a beth sydd heb weithio gystal. Mae staff yn cryfhau, yn addasu neu'n rhoi'r gorau i ddull penodol os yw'r ymchwil yn dangos nad yw'n arwain at fuddion pendant.

Mae llawer o athrawon newydd sy'n dod i mewn i'r proffesiwn eisoes yn 'ymchwil lythrennog' ac maent yn meddu ar y medrau sydd eu hangen arnynt i fynd ar drywydd ymchwil; er hynny, ychydig sy'n gwneud hynny. Wrth i athrawon symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd, diddordeb a brwdfrydedd unigolion yn bennaf sy'n llywio ymchwil. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn cefnogi datblygu diwylliant o ymholi, ac yn helpu athrawon i ddatblygu a chymhwyso'u medrau ymchwil. Mae'r arweinwyr hyn yn deall pwysigrwydd cynnal diddordeb athrawon mewn datblygiadau a damcaniaethau newydd o ran addysgeg trwy ddarparu rhaglen barhaus o ddigwyddiadau lle gall athrawon fyfyrio ar ganfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'u trafod. Maent yn defnyddio'r digwyddiadau hyn i annog staff i arwain prosiectau ar draws yr ysgol, a thrwy hyn yn datblygu gallu arweinyddiaeth yr ysgol. Hyd yn oed mewn ysgolion sy'n gwneud hyn, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o amser i staff fyfyrio ac ymchwilio bob tro. Mae prifysgolion yn adrodd mai un achos cyffredin pam nad yw athrawon yn cwblhau cwrs meistr yw am eu bod yn cael eu dyrchafu ac nad oes amser ganddynt i wneud ymchwil mwyach.

## Adeiladu ar ffedereiddio dwy ysgol yn effeithiol i ddatblygu arloesedd

Mae **Ysgol Gynradd Craig Yr Hesg** yn arloesol o ran y modd y mae'n ymestyn arfer dda bresennol yr ysgol. Mae arweinwyr yn darparu gweithdai effeithiol iawn gyda ffocws cryf ar addysgeg. Mae gweithgareddau'n cynnwys prosiectau ymchwil weithredu a gynhelir gyda chymheiriaid mewn ysgolion eraill sy'n archwilio ac yn ymchwilio i agweddau penodol ar addysgeg, fel dysgu cydweithredol. Mae staff yn meddwl yn feirniadol ynglŷn â'u harfer ac yn cyfiawnhau eu haddysgeg o ran yr effaith ar ddeilliannau disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch yr adroddiad **Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** (tud.34-39).

# Defnyddio data

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ymarferwyr yn gallu defnyddio ystod eang o ddata. Fel arfer, mae systemau olrhain yn cipio data ar les, fel cyfraddau presenoldeb, ochr yn ochr â data perfformiad a chynnydd disgyblion. Eto, dim ond ychydig iawn o ysgolion sy'n gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata o ffynonellau lluosog.

Mewn ysgolion uchel eu perfformiad, mae arweinwyr yn sicrhau bod y medrau gan ymarferwyr i wneud defnydd deallus o ddata. Mae rhannu a defnyddio data yn systematig yn rhan annatod o ganolbwyntio ar ansawdd yr addysgu a llywio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae arweinwyr yn buddsoddi mewn datblygiad medrau proffesiynol staff er mwyn sicrhau bod y ddealltwriaeth a'r hyder ganddynt i wneud y defnydd gorau o ddata. Ceir prosesau effeithiol i rannu arfer dda ymhlith staff, fel darparu sesiynau cymorth un i un neu mewn grwpiau bach er mwyn datblygu medrau dadansoddi data manylach a dealltwriaeth ddyfnach o sut i ddefnyddio data i arfarnu perfformiad.

Yn yr ysgolion gorau, mae arweinwyr yn defnyddio dadansoddi data i danategu ac arfarnu blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi gwerth uchel ar ddefnyddio data ac yn anelu at fod yn ddata-llythrennog fel eu bod yn gallu dadansoddi effaith eu polisïau eu hunain, a myfyrio ar eu heffaith. Maent yn sicrhau bod yr holl arweinwyr a'r llywodraethwyr yn cael hyfforddiant rheolaidd a chymorth i'w helpu i ddeall sut i ddadansoddi a dehongli data. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae gweithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr a llywodraethwyr i ddod yn ddata-llythrennog yn arbennig o gryf, mae'r ddau grŵp yn hyderus i herio a chwestiynu data perfformiad yr ysgol. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio'u canfyddiadau o ddata, yn ogystal â mathau eraill o dystiolaeth, i ddiwygio'r cwricwlwm a chynlluniau gwella, ac i bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol.

## Y daith i fod yn ysgol fwy eangfrydig

Yn **Ysgol Gymunedol Tonnau**, mae taith wella'r ysgol yn cynnwys ffocws cryf ar ddata, gyda staff yn datblygu dealltwriaeth well o'r cysylltiad rhwng defnyddio data a darpariaeth a deilliannau. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cynnwys, er enghraifft, cyd-ddadansoddi data i fapio darpariaeth, sy'n helpu esbonio disgwyliadau ar gyfer disgyblion a lefel yr her a chymorth fyddai ei hangen arnynt yn yr ystafell ddosbarth.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch yr adroddiad **Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd** (tud.42-45).



# Defnyddio technolegau newydd

Mae cyflwyno Fframwaith Cymhwysedd Digidol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015b) yn her newydd i ddysgu proffesiynol ymarferwyr. Un o'r blaenoriaethau pennaf yw rhoi i ymarferwyr anarbenigol y medrau a'r ddealltwriaeth ddigidol y mae arnynt eu hangen i gadw'n gyfoes â datblygiadau a'u galluogi i lunio barnau gwybodus ynglŷn ag addysgeg defnyddio technolegau newydd.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae potensial dysgu digidol yn cael ei wireddu'n llawn, mae gan arweinwyr weledigaeth glir am y dulliau addysgu a dysgu newydd a wnaed yn bosib gan dechnolegau newydd. Mae'r ysgolion hyn wedi dysgu gwersi gwerthfawr ynglŷn â dysgu proffesiynol o weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac wedi cwblhau archwiliadau o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ymarferwyr er mwyn nodi anghenion hyfforddi unigol. Yn yr ysgolion hyn, cydnabyddir bod athrawon yn allweddol i gyflwyno'r medrau llythrennedd digidol sydd eu hangen ar ddisgyblion. Cânt eu hannog i addasu eu cynllunio a'u haddysgu ac i gyflwyno syniadau newydd sy'n ategu ac yn ychwanegu at eu harfer bresennol. Mae'r athrawon hyn yn arfarnu'r dulliau newydd maent yn eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at wella dysgu disgyblion.

Maent hefyd yn galluogi disgyblion i ddod yn 'arweinwyr digidol', gan eu helpu i gyfrannu at gynllunio ac arwain y dysgu. Mae'r disgyblion hyn sy'n arweinwyr digidol yn cefnogi dysgu proffesiynol ymarferwyr yn aml, ac yn ysbrydoli eu cyfoedion. Yn yr ysgolion hyn, mae hinsawdd o fod yn agored a chydymddiriedaeth, ynghyd â chefnogaeth i ddysgu cyd-ddibynnol, yn treiddio drwy'r ysgol.

Yn aml, mae ysgolion arbennig yn flaengar o ran defnyddio technolegau newydd i wella darpariaeth oherwydd yr heriau cyfathrebu y mae rhai o'u disgyblion yn eu hwynebu. Yn yr ysgolion arbennig gorau, mae ymarferwyr allweddol yn ymdrwytho mewn rhaglenni dysgu proffesiynol er mwyn ehangu eu gwybodaeth am y modd y gellir defnyddio meddalwedd a chaledwedd penodol i roi mwy o annibyniaeth i ddisgyblion a chyfleoedd ehangach i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm, a'u helpu i oresgyn anawsterau cyfathrebu. Maent hefyd yn rhannu'r arbenigedd hwn gydag ysgolion prif ffrwd yn eu hardal.

## Technoleg ddigidol ym mywyd ysgol gynradd

Mae **Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Cornist** wedi gwella cymhwysedd digidol disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach drwy ymgorffori technoleg ddigidol ym mywyd yr ysgol. Mae archwiliad staff a chyfleoedd i athrawon dreulio amser y tu allan i'r dosbarth er mwyn cael gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Digidol Staff a'r Arweinwyr Digidol Disgyblion yn helpu athrawon i addasu eu cynlluniau tymor canolig i gynnwys y Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol mewn ffyrdd ystyrlon a chreadigol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

# Dysgu sut i arwain dysgu proffesiynol

Mae arweinwyr yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus yn gwybod bod rhaid iddynt feithrin gallu arweinyddiaeth yr ysgol gyfan er mwyn cynnal eu momentwm ar gyfer gwella. Yn ogystal â chanolbwyntio ar addysgu a dysgu, maent yn sicrhau bod datblygiad staff yn canolbwyntio ar ddysgu i arwain hefyd. Gwnânt hyn drwy greu cyfleoedd i ymarferwyr ar draws yr ysgol i ymgymryd â rolau arwain. Maent yn nodi, yn cefnogi ac yn meithrin potensial arweinyddiaeth eu staff, yn enwedig yn gynnar yn eu gyrfaoedd, gan helpu staff i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddod yn arweinwyr yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr hyn yn defnyddio ystod o strategaethau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cynyddol i ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel arwain gweithgor gorchwyl a gorffen ysgol gyfan, rolau cysgodi i ddysgu gan gydweithwyr mwy profiadol, a chreu cyfleoedd arwain cyfnod penodedig yn yr ysgol a thu hwnt. Mae llawer o aelodau staff yn croesawu'r cyfleoedd hyn ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi mwy am fod arweinwyr yn ymddiried ynddynt i arwain prosiectau neu fentrau penodol. Mae arweinwyr sy'n datblygu staff yn y modd hwn yn helpu hefyd i reoli trosglwyddo medrau a gwybodaeth arbenigol rhag ofn y bydd newidiadau staffio. Mae hon yn strategaeth fuddiol ar gyfer cynllunio olyniaeth.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar waith gan ysgolion mwy effeithiol, lle bydd amcanion gan uwch arweinwyr sy'n ymwneud yn benodol â datblygu staff fel darpar arweinwyr. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn herio arweinwyr ac yn eu dwyn i gyfrif am ddatblygu arweinyddiaeth. Mae meithrin gallu i arwain ar bob lefel fel hyn yn elfen bwysig o ddatblygu system o hunanwella. Mae'n darparu'r cyfle i arweinwyr fyfyrio ar eu harfer eu hunain a herio eu hunain ynglŷn â pha mor effeithiol ydynt o ran arwain newid. Mae hefyd yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer eu dysgu proffesiynol eu hunain drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu gan y consortiwm rhanbarthol i helpu ysgolion eraill.

## Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel

Mae staff yn **Ysgol Gynradd Gymraeg Castell Nedd** yn creu ac yn cynnal strwythur ysgol gyfan sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r gwahaniaethu hwn yn darparu cyfleoedd i staff ymgymryd â rolau newydd, gyda chyfrifoldebau penderfynu yn aml, ac yn meithrin arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws yr ysgol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

## Nodi a datblygu darpar arweinwyr

Mae **Ysgol Gyfun Bryngwyn** wedi ffedereiddio gydag ysgol arall ar ddau safle annibynnol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno trefniadau buddiol ar gyfer mentora a hyfforddi arweinwyr ar fedrau fel dadansoddi data a thechnegau arsylwi yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae llawer o staff yn cael eu paratoi'n llawn i symud i'r cam arweinyddiaeth nesaf yn yr ysgol neu mewn ysgolion eraill pan fydd cyfleoedd yn codi.


I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch yr adroddiad **Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion** (tud.13-15).

# Dysgu proffesiynol mewn cyd-destunau heblaw am ysgolion a gynhelir

Mae'r siart isod yn dangos meysydd allweddol sy'n cyfrannu at lwyddiant dysgu proffesiynol. Ym mhob maes, nodir arfer ar gyfer y sectorau hynny lle ceir cryfderau arwyddocaol.

**Figure 1.2:**
Sectorau, heblaw am ysgolion a gynhelir, lle ceir cryfderau arwyddocaol sy'n cyfrannu at lwyddiant dysgu proffesiynol

| Maes allweddol | Cryfderau sector arwyddocaol |
|---|---|
| **Creu'r diwylliant a'r amodau iawn ar gyfer dysgu proffesiynol**<br> | • Mae llawer o **golegau addysg bellach** yn gwneud defnydd gwerthfawr o ColegauCymru ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n cynnwys cymryd rhan mewn cynadleddau ac ymweliadau astudio i rannu arfer dda ar draws y sector, yn ogystal â rheolwyr coleg yn cyfranogi mewn rhwydweithiau addysgu a dysgu, a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.<br>• Mae bron pob un o'r **darparwyr dysgu yn y gwaith** yn rhoi ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol. Maent yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau hyfforddi, ac yn aml yn rhannu'r gweithgareddau hyn gydag aelodau'r consortiwm ac isgontractwyr. |
| **Meithrin perthnasoedd proffesiynol cefnogol**<br> | • Mae gan bron pob un o'r **ysgolion prif ffrwd annibynnol mawr** gysylltiadau effeithiol iawn gyda'u 'teulu' neu gymdeithas o ysgolion annibynnol. Mae'r strwythurau hyn yn darparu cymorth cadarn ar gyfer dysgu proffesiynol, yn enwedig o ran dyfnhau gwybodaeth bynciol.<br>• Mae gan bron pob un o'r **ysgolion arbennig annibynnol** sy'n gysylltiedig â chartrefi plant, drefniadau dysgu proffesiynol cydweithredol effeithiol rhwng staff addysg a staff gofal. Mae hyn yn rhoi mwy o gysondeb o ran dulliau dysgu a rheoli ymddygiad ar draws y ddau leoliad.<br>• Mae llawer o ddarparwyr **dysgu yn y gwaith** wedi gwella'n sylweddol o ran nodi a rhannu arfer orau mewn hyfforddiant ac asesu. |

| Maes allweddol | Cryfderau sector arwyddocaol |
|---|---|
| **Mynd i'r afael â thystiolaeth ymchwil a chynnal ymchwil**  | • Mae'r mwyafrif o athrawon mewn **colegau addysg bellach** yn ymwneud â defnyddio addysgu arbrofol â chymorth neu arfer yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn cymorth a mentora ar gyfer yr athrawon hyn. |
| **Defnyddio data a thechnolegau newydd fel catalyddion ar gyfer gwella ac arloesi**  | • Mae'r defnydd o ddata i lywio cynllunio a rheoli ansawdd yn dra datblygedig ar lefelau uwch reolwyr a rheolwyr canol ym mhob **coleg addysg bellach**. Mae llawer o golegau'n defnyddio dangosfyrddau electronig i allu gweld data byw ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo yn rhwydd. Mewn lleiafrif o golegau, mae mynediad at y dangosfyrddau hyn ar gael ar bob lefel. Mae ychydig o golegau'n dechrau cyflwyno dangosfyrddau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon, sy'n croesgyfeirio addysgu a dysgu a hunanarfarnu gyda deilliannau, adborth dysgwyr ac arsylwadau ystafell ddosbarth.<br>• Mae llawer o **ysgolion prif ffrwd** annibynnol pob oed mawr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau trin data arweinwyr canol ac uwch arweinwyr er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata. Maent yn hyfedr wrth ddadansoddi data i nodi a chynllunio ar gyfer anghenion dysgu disgyblion penodol, gosod targedau heriol, monitro cynnydd a llywio hunanarfarnu. |

# Rhwystrau rhag dysgu proffesiynol llwyddiannus

Ledled Cymru, mae grwpiau o staff nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd dysgu proffesiynol addas. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr sy'n gysylltiedig ag addysg heblaw yn yr ysgol, a darpar benaethiaid ac uwch reolwyr profiadol mewn ysgolion prif ffrwd. Mae prinder arbennig o ddarpariaeth hyfforddiant i arweinwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn fwy cyffredinol, mae dysgu proffesiynol mewn llawer o ysgolion yn golygu buddsoddi cryn amser, egni ac adnoddau, gydag ymarferwyr yn cyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau, ond nid yw ysgolion yn arfarnu'r enillion, o ran gwella'r addysgu neu ddeilliannau, ar y buddsoddiad hwn. Nid yw anghenion dysgu proffesiynol yn cael eu nodi'n glir bob amser fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad. Hefyd, mae diffyg ffocws ar gynllunio dysgu proffesiynol yn systematig. Er enghraifft, nid yw arweinwyr yn defnyddio deilliannau hunanarfarnu i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella addysgu ar lefel ysgol gyfan neu athro unigol.


Mewn llawer o ysgolion, mae dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddewis mentrau newydd wedi arwain at welliannau mewn meysydd pwysig fel cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Er bod llawer o ysgolion yn gwneud mwy o ddefnydd o ymchwil i nodi strategaethau ar gyfer gwella, yn arwynebol y mae'r strategaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith pan na fydd arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall y meddwl y tu ôl iddynt yn llawn. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn cyflwyno mentrau am eu bod wedi bod yn llwyddiannus mewn ysgolion eraill, yn hytrach nag am eu bod yn bodloni anghenion eu hysgol eu hunain. Nid oes digon o gwestiynu ynglŷn â chynaliadwyedd 'atebion cyflym', fel gwneud penodiadau staffio dros dro i ddarparu dosbarthiadau dal i fyny, yn hytrach na chynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer y tymor hwy er mwyn gwella ansawdd yr addysgu.


Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio data'n fwy effeithiol ar gyfer gwella ysgolion nag oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd eu hangen i ddatblygu defnydd mwy effeithiol o ddata mewn hunanarfarnu yn ddigon cadarn mewn mwyafrif o ysgolion. Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd cynyddol o lwyfannau dysgu digidol fel Hwb a Hwb+ Llywodraeth Cymru at ystod eang o ddibenion dysgu proffesiynol buddiol. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion wedi nodi anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr i gynllunio ar gyfer eu medrau TGCh, yn enwedig y rheini sydd eu hangen i gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd.

# Y camau nesaf – 10 set o gwestiynau pwysig

Fel man cychwyn ar gyfer myfyrio, gall ysgolion a darparwyr addysg eraill ddefnyddio'r 10 set o gwestiynau canlynol fel rhan o'u hunanarfarniad:

**Ffigur 1.3:**
Cwestiynau hunanarfarnu

| Ffocws | Cwestiwn |
|---|---|
| **Creu'r diwylliant a'r amodau cywir ar gyfer dysgu proffesiynol**<br> | **1** A ydym ni fel arweinwyr yn cyfleu **gweledigaeth rymus** ynglŷn â'r modd y mae dysgu proffesiynol yn gwella deilliannau disgyblion? A yw ein hysgol yn creu'r diwylliant a'r amodau iawn ar gyfer dysgu proffesiynol? A ydym ni'n rhoi digon o flaenoriaeth i ddysgu proffesiynol ac yn diogelu amser i staff ymgymryd â'r gweithgareddau hyn?<br><br>**2** A oes gennym **ddiwylliant dysgu** cadarn, ar gyfer ymarferwyr a disgyblion, sy'n canolbwyntio ar fod yn agored a meithrin syniadau newydd? A ydym ni'n darparu digon o gymorth ar gyfer rhoi cynnig ar syniadau newydd? |
| **Meithrin perthnasoedd proffesiynol cefnogol**<br> | **3** Pa mor dda ydym ni'n **gweithio mewn timau** ac yn gwneud y defnydd gorau o fedrau, gwybodaeth a phrofiad pob un o'r staff? A oes gennym iaith a dealltwriaeth gyffredin ynglŷn â beth yw gweithio effeithiol mewn tîm? A ydym ni'n cyfathrebu'n onest, gan feithrin ymddiriedaeth a pharch?<br><br>**4** A oes gennym ddiwylliant yn ein hysgol sy'n cefnogi **cydweithredu gydag ysgolion eraill** a sefydliadau? |
| **Ymgysylltu â thystiolaeth ymchwil a gwneud gwaith ymchwil**<br> | **5** A yw staff yn meddwl yn rheolaidd ynghylch negeseuon o **ymchwil** a thystiolaeth newydd? A ydym ni'n darparu cyfleoedd i'n hathrawon drafod canfyddiadau ymchwil?<br><br>**6** A ydym ni fel arweinwyr yn annog staff i **fynd i'r afael ag ymchwil**? A oes gennym systemau ar waith i dreialu neu brofi syniadau newydd cyn i ni eu rhoi ar waith? |

| Ffocws | Cwestiwn |
|---|---|
| **Defnyddio data a thechnolegau newydd fel catalyddion ar gyfer gwelliant ac arloesedd**<br> | **7** A oes gennym sail resymegol glir ar gyfer y **data** rydym yn ei gasglu a sut bydd yn cael ei ddefnyddio i wella darpariaeth a deilliannau? Sut ydym ni'n sicrhau bod gan staff a llywodraethwyr y medrau a'r hyder i gael mewnwelediad addysgol o ddadansoddi ffynonellau data lluosog?<br><br>**8** Pa mor hyderus yw ein hathrawon wrth ddefnyddio medrau **digidol** yn greadigol yn yr ystafell ddosbarth? A oes angen cryfhau hyfforddiant i alluogi staff ddefnyddio'u medrau digidol er mwyn cyfoethogi addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth? |
| **Dysgu i arwain dysgu proffesiynol**<br> | **9** Pa mor dda ydym ni fel uwch arweinwyr yn nodi ac yn meithrin **potensial arweinyddiaeth** pob un o'n staff ac yn darparu cymorth priodol iddynt?<br><br>**10** A oes gennym systemau effeithiol ar gyfer rhoi adborth systematig ac **arfarnu** ein gweithgareddau dysgu proffesiynol? Os oes, pa mor dda y cânt eu cyfleu a'u defnyddio i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol? |

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed[2]

Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu rhyw ddarpariaeth addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed yn achlysurol iawn, mewn lleoliadau yn ogystal ag mewn ysgolion. Nid yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn, ond maent yn gyfrifol am sicrhau bod lleoliadau'n darparu addysg gynnar a ariennir sydd o ansawdd da, gan gynnwys cynnig cyngor a chymorth gan athro cymwys. Mae lleoliadau sy'n darparu addysg gynnar a ariennir yn cynnwys darparwyr gofal dydd a chylchoedd chwarae. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu ansawdd gofal ar gyfer plant yn y lleoliadau hyn hefyd. Er Medi 2015, mae Estyn ac AGGCC wedi cynnal arolygiadau peilot ar y cyd mewn 11 o leoliadau heb fod mewn ysgolion. Mae'r canfyddiadau o'r arolygiadau peilot hyn wedi llywio'r adroddiad isod.

Eleni, roedd tua 620 o ddarparwyr addysg ran-amser ar gyfer plant tair neu bedair oed, sy'n ostyngiad o 645 y llynedd. Eleni, fe wnaeth Estyn arolygu 103 o leoliadau. Mae bron i hanner y rhain yn lleoliadau bach gyda llai na chwech o blant yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol ar gyfer addysg ran-amser. Mewn lleoliadau bach, mae arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod plant unigol.

[2]Gelwir y rhain yn lleoliadau nas cynhelir a ariennir hefyd.


# Crynodeb:
# Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn 12 o leoliadau, sef tri yn fwy na nodwyd y llynedd.  Mae gan leoliadau lle ceir arfer ragorol ddealltwriaeth drylwyr o arfer effeithiol y Cyfnod Sylfaen.  Mae eu cynlluniau'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau plant yn systematig, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth fanwl o gyfnodau datblygu plant.  Defnyddiant y wybodaeth hon i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol dan do ac yn yr awyr agored sy'n cydweddu i anghenion a diddordebau plant.  Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd eithriadol o fannau awyr agored i ddarparu amgylcheddau dysgu cyffrous.  Yn y lleoliadau hyn, mae arweinwyr yn deall prosesau hunanarfarnu ac yn gweithio'n effeithiol i wella darpariaeth a chodi safonau.  Mae hyn yn cynnwys defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu i lywio'r hunanarfarnu ac i herio'r ymarferwyr gorau hyd yn oed i wella mwy fyth.  Maent hefyd yn gwrando'n ofalus ar farnau ymarferwyr, rhieni a phlant i sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer gwella yn berthnasol.

Mae angen monitro gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar ychydig o dan ddwy ran o bump o leoliadau a arolygwyd eleni.  Mae hyn yn ychydig yn uwch na chyfran y llynedd.  At ei gilydd, mae gwelliant cyffredinol yn y cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.  Mae defnyddio asesiadau i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd systematig, a datblygu prosesau hunanarfarnu effeithiol, yn parhau i fod yn feysydd pwysig i'w datblygu yn y sector.  Dim ond un lleoliad sydd angen gwelliant â ffocws eleni.

**Ffigur 2.1:**
Canrannau lleoliadau mewn lefelau gweithgarwch dilynol

12% **Arfer ragorol**
(12 darparwr)



# Deilliannau:
# Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn 92% o leoliadau lle'r adroddom ar safonau. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran a nodwyd y llynedd.


Yn y lleoliadau hyn, mae llawer o blant yn datblygu'u medrau siarad yn dda. Maent yn siarad yn hyderus ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn eu deall. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, fel pan fyddant yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau a gwrando ar storïau. Mae ychydig ohonynt yn gweld eu hunain fel darllenwyr ac yn defnyddio'r lluniau mewn llyfr i adrodd storïau. Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd sicr wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, mae plant iau yn dangos diddordeb mewn ysgrifennu ac yn gwneud marciau'n hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o offer gyda mwy a mwy o reolaeth. Maent yn dangos eu bod yn deall diben ysgrifennu, fel pan fyddant yn 'ysgrifennu' rhestrau o gynhwysion ar gyfer pobl, a rhestr brisiau ar gyfer golchi ceir. Mae plant hŷn a mwy abl yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu eu henwau'n gywir, gan gynnwys ysgrifennu cardiau pen-blwydd ar gyfer tedi.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda. Er enghraifft, maent yn adrodd rhifau i fyny at 10 o leiaf yn Gymraeg a Saesneg, ac yn cyfrif gwrthrychau gyda mwy a mwy o hyder, fel faint o sgwpiau o bridd sydd eu hangen arnynt i lenwi potiau blodau o feintiau gwahanol. Mae llawer o blant yn defnyddio geiriau priodol i siarad am daldra a phwysau, ac i gymharu gwrthrychau gwahanol. Mewn ychydig o leoliadau, mae plant yn dysgu meddwl a datrys problemau yn dda, fel gweithio allan system drefnus ar gyfer golchi a pharcio teganau ceir yn yr ardal chwarae rôl yn yr awyr agored. Mewn ychydig o leoliadau, mae plant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus, ond yn gyffredinol, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u medrau TGCh yn ddigon da.

Mewn rhyw un o bob tri ar ddeg lleoliad, mae safonau'n ddigonol oherwydd bod gormod o blant yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig. Nid ydynt yn datblygu geirfa newydd yn ddigon da. Er enghraifft, nid ydynt yn gwybod y geiriau sydd eu hangen arnynt i wneud cymariaethau pan fyddant yn llenwi ac yn gwagio cynhwysyddion. Ychydig o blant sy'n dewis edrych ar lyfrau, ac nid ydynt yn gwrando ar storïau yn dda nac yn ymateb yn dda iddynt.

Mae safonau Cymraeg yn parhau yn faes i'w ddatblygu mewn mwyafrif o leoliadau cyfrwng Saesneg ac yn gynyddol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle nad yw plant yn datblygu'u Cymraeg yn ddigon da i'w defnyddio yn annibynnol.

**Ffigur 2.2:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?



## Lles


Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae lles plant yn dda neu'n well. Lle ceir safonau rhagorol, mae'r plant bron i gyd yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Maent yn llawn cymhelliant ac mae ganddynt ddiddordeb un yn eu gwaith. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae'r plant bron i gyd yn datblygu dealltwriaeth briodol ynglŷn â'r bwyd y mae angen iddynt ei fwyta a sut i gadw'n iach. Mae llawer o blant yn canolbwyntio, yn dyfalbarhau ac yn rhoi cynnig ar weithgareddau newydd yn hyderus, fel toddi ia yn gyflymach trwy ddefnyddio'r gwres o'u dwylo. Mewn ychydig iawn o leoliadau, mae plant yn dibynnu gormod ar oedolion i'w helpu gyda thasgau syml fel gwisgo'u cotiau a'u ffedogau. Mae ychydig o blant yn gwibio rhwng gweithgareddau gwahanol yn hytrach na chanolbwyntio ar dasg benodol.

### Datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu

Mae **Sticky Fingers** yn gymuned ofalgar lle mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu perthnasoedd o ansawdd da gyda'r plant a rhwng y plant. I helpu plant ddatblygu parch iddyn nhw eu hunain, rhai eraill a'r amgylchedd, maent yn cael eu cynnwys yn llawn mewn prosesau gwneud rheolau. Mae plant yn awyddus i gyfrannu ac mae hyn yn eu helpu i ddilyn arferion a rheolau'r lleoliad yn hyderus a gyda dealltwriaeth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.3:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn 86% o leoliadau a arolygwyd eleni. Mae hyn yn debyg i'r gyfran a nodwyd y llynedd, gydag arolygwyr yn nodi ychydig iawn yn fwy o enghreifftiau o arfer ragorol.

Mae llawer o leoliadau yn rhoi ystyriaeth dda i Fframwaith diwygiedig y Cyfnod Sylfaen wrth gynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Maent yn gweithio'n agos gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i gynllunio mwy o gyfleoedd i blant ymarfer y medrau hyn. Lle ceir darpariaeth ragorol, mae ymarferwyr yn addasu cynlluniau'n gyflym i ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi, fel defnyddio gwenynen fêl sy'n hedfan i mewn i'r ystafell i ysgogi ymchwiliad i wenyn a mêl.

Yn gyffredinol, mae lleoliadau'n llai llwyddiannus o ran bodloni anghenion penodol unigolion neu grwpiau plant gwahanol. Mae gweithgareddau naill ai'n rhy anodd i ychydig o blant neu nid ydynt yn ymestyn y plant mwy abl yn ddigonol. Er y gwneir defnydd cynyddol o offer TGCh, nid yw llawer o leoliadau yn cynllunio'n ddigon pwrpasol i adeiladu ar fedrau TGCh disgyblon. Er enghraifft, mae plant yn tynnu lluniau yn ardal y goedwig, ond nid ydynt yn cyfeirio atynt pan fyddant yn siarad nes ymlaen am beth welsant. Mae ychydig o leoliadau yn trefnu ymweliadau effeithiol iawn sy'n cymell plant ac yn cyfoethogi eu profiadau dysgu, fel taith trên yn gysylltiedig â thema trafnidiaeth.

Eleni, canfuom nad yw ychydig o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn cynllunio'n ddigon gofalus i ddatblygu medrau siarad plant. Mewn ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg, nid oedd ymarferwyr yn ddigon hyderus yn eu medrau Cymraeg eu hunain i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiwn.

Mae'r addysgu yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o leoliadau. Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn gofyn cwestiynau sy'n helpu plant i feddwl ac i ddatrys problemau, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall plant ei gyflawni. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn fedrus, ac yn fodelau rôl da ar gyfer iaith lafar. At ei gilydd, mae lleoliadau yn gwella wrth asesu ac olrhain cynnydd disgyblion, ac mae llawer wedi dechrau defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i'w helpu. Mewn lleiafrif o leoliadau, mae gwendidau o hyd o ran nodi a mynd i'r afael â beth sydd angen i blant ei ddysgu nesaf. Mewn ychydig o leoliadau, mae gormod o bwyslais ar addysgu grŵp gan oedolion, ac nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd i ymchwilio ac arbrofi'n rhydd ar eu pennau'u hunain.

Mae gan y rhan fwyaf o leoliadau drefniadau gwerthfawr i gefnogi iechyd a lles plant. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd ystyrlon i blant ddysgu gwneud pethau drostynt eu hunain, fel gwisgo esgidiau glaw a thacluso'r ystafell. Mae bron pob lleoliad yn hyrwyddo bwyta'n iach yn dda, gan gynnwys annog plant i fwyta ffrwyth amser byrbryd. Er bod y rhan fwyaf o leoliadau yn datblygu'u mannau awyr agored ac yn eu defnyddio'n rheolaidd, nid yw ychydig yn cynllunio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau plant tu allan. Mae ychydig o leoliadau yn cyfyngu ar y defnydd o'r awyr agored i adegau pan fyddant yn teimlo bod y tywydd yn dda, ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymegnïo'n gorfforol.


Mae llawer o leoliadau yn addysgu plant sut i ofalu am yr amgylchedd drwy ailgylchu papur a gwastraff bwyd. Mae ychydig o leoliadau yn gwneud hyn yn arbennig o dda, fel gwneud compost o wastraff bwyd a'i ddefnyddio i dyfu eu llysiau eu hunain. Yn gyffredinol, mae lleoliadau'n hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol yn addas. Dim ond ychydig iawn o leoliadau sy'n darparu profiadau i blant ddatblygu parch at draddodiadau diwylliannol gwahanol. Mewn ychydig iawn o leoliadau, mae pryderon yn ymwneud ag ymarferwyr nad ydynt yn deall polisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn llawn.

## Creu amgylchedd dysgu croesawgar

Mae'r staff yng **Nghylch Meithrin Bodffordd** yn rhannu a hyrwyddo gweledigaeth o greu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n herio plant ac yn eu hymestyn i gyflawni'u potensial llawn. Maent yn gweithio gyda'i gilydd bob dydd i sefydlu amrywiaeth o feysydd dysgu cyffrous sy'n cyfoethogi dysgu'r plant.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.4:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn 88% o'r lleoliadau a arolygwyd eleni.

Mewn llawer o leoliadau, mae gan arweinwyr ymdeimlad clir o ddiben ac maent yn gwneud yn siŵr bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol, yn adeiladu timau cadarn ac yn gwneud y gorau o arbenigedd unigol staff. Mewn ychydig iawn o leoliadau lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae arweinwyr y cynnwys staff, rhieni a phlant yn yr hunanarfarnu, gan ddefnyddio prosesau clir a syml. Gwnânt yn siŵr eu bod yn canolbwyntio eu harfarnu ar y plant ac ar wella deilliannau. Maent yn gweithredu'n benderfynol i fodloni blaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn monitro cynnydd yn drwyadl. Mewn ychydig iawn o leoliadau, mae'r arweinyddiaeth yn llai effeithiol. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw'r systemau rheoli a gwella yn gadarn ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau ar gyfer plant. Yn y lleoliadau hyn, nid yw arweinwyr yn monitro perfformiad staff yn dda, ac ychydig o gyfleoedd sydd i staff ddysgu am ffyrdd newydd o weithio.


Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae partneriaethau â rhieni yn gadarn. Lle mae'r rhain yn arbennig o effeithiol, mae lleoliadau yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni ynglŷn â sut i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant a sut i'w cefnogi wrth ddysgu Cymraeg gartref. Eleni, mae mwy o leoliadau sy'n gweithio'n agosach ag ysgolion lleol. Mae mwy o blant yn elwa o drefniadau pontio buddiol a chyfleoedd i rannu adnoddau, fel ardaloedd coedwig. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn gwerthfawrogi ac yn gweithredu ar y cyngor a'r cymorth a gânt gan eu hathro cyswllt awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn darparu gwerth da am arian. Mae ymarferwyr yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn elwa o gael hyfforddiant addas. Mewn ychydig o leoliadau, nid yw arweinwyr yn monitro nac yn arfarnu effaith yr hyfforddiant hwn ar ddeilliannau plant yn ddigon gofalus. Mewn mwyafrif o'r lleoliadau a arolygwyd, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau yn gysylltiedig â gwella lles plant



a'u medrau rhifedd ac iaith. Mae ychydig iawn o leoliadau yn derbyn y grant yn uniongyrchol, ac nid yw ychydig iawn yn gwybod am y grant na'i ddiben. Dim ond nifer fach iawn o leoliadau sy'n monitro neu'n arfarnu effaith y grant.

**Ffigur 2.5:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



# Gweithgarwch dilynol: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Eleni, cafodd 30 o 35 o leoliadau yr oedd angen eu monitro gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn yn y flwyddyn flaenorol, neu a arhosodd yn y categori hwnnw, eu tynnu o weithgarwch dilynol. Yn gyffredinol, mae'r lleoliadau hyn yn gweithredu'n bwrpasol i fynd i'r afael â'r argymhellion o'u harolygiadau craidd. Mae ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant i fodloni eu hanghenion unigol. Mae llawer o'r lleoliadau hyn yn gwneud defnydd da o'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen diwygiedig a'r Proffil Cyfnod Sylfaen newydd i'w helpu gyda hyn. Ni wnaeth ychydig iawn o leoliadau ddigon o gynnydd tra'u bod yn cael eu monitro gan yr awdurdod lleol ac erbyn hyn mae angen eu monitro gan Estyn. Gwnaed cynnydd araf hefyd gan ychydig iawn o leoliadau y nodwyd yn flaenorol bod angen eu monitro gan Estyn. Erbyn hyn, mae angen gwelliant â ffocws arnynt, sef lefel uwch o fonitro gan Estyn. Yn y lleoliadau hyn, bu llawer o newidiadau staff, ac mae hynny wedi'i gwneud yn anodd cynnal gwelliannau. Er bod arweinwyr wedi gwneud cynlluniau addas, nid ydynt wedi gweithredu ar y rhain mewn modd amserol.




95

# Adran: 2



# Adroddiad sector
## Cynradd

Yn Ionawr 2016, roedd 1,310 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 20 yn llai nag yn Ionawr 2015. Roedd 276,950 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn Ionawr 2016, sef cynnydd o ryw 3,550 o'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r chweched flwyddyn yn olynol i nifer y disgyblion cynradd godi. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd 7% yn uwch erbyn hyn nag ydoedd chwe blynedd yn ôl.

Eleni, fe wnaethom arolygu 178 o ysgolion cynradd.

# Crynodeb: Ysgolion cynradd


Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn 40 o ysgolion cynradd ar gyfer o leiaf un dangosydd ansawdd. Mae hyn yn cyfrif am 22% o'r ysgolion a arolygwyd, o gymharu ag 18% y llynedd, ac mae'n parhau tuedd o wella lle bernir bod rhywfaint o arfer ragorol mewn ysgolion. Fe wnaethom farnu bod chwe ysgol yn rhagorol at ei gilydd, ar gyfer eu perfformiad cyfredol a'u rhagolygon gwella, sy'n ddwy ysgol yn fwy na nodom y llynedd. Yn yr ysgolion hyn, mae gwersi'n ysgogol, gyda'r holl grwpiau disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn mwynhau eu dysgu. Mae'r adborth i ddisgyblion yn ystyrlon a phwrpasol. Caiff disgyblion amser i fyfyrio ar yr adborth hwn ac ymateb iddo, fel ei fod yn gwella eu dysgu. Mae'r adborth yn hylaw i athrawon a disgyblion. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn adnabod eu hysgol yn eithriadol o dda ac maent yn hyderus o ran nodi meysydd sydd angen eu gwella a mynd i'r afael â'r meysydd hynny. Maent yn gweithio'n strategol gyda rhanddeiliaid ac yn grymuso disgyblion i gymryd rhan weithredol yn llywio bywyd yr ysgol.

Mae angen monitro gan Estyn ar ryw chwarter o ysgolion cynradd a arolygwyd eleni, sy'n debyg i gyfran y llynedd. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol yn gyffredinol, er bod safonau'n dda mewn ychydig o achosion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn nodi'r blaenoriaethau cywir ar gyfer datblygu yn aml, fel gwella'r addysgu a'r dysgu neu ddarparu cyfleoedd addas ar gyfer dysgu proffesiynol i athrawon.

Eleni, fe wnaeth cyfran yr ysgolion cynradd yr oedd angen ymyrraeth statudol arnynt leihau o gymharu â'r llynedd. Rhoddodd arolygwyr saith o ysgolion cynradd (4%) mewn categori statudol yn dilyn eu harolygiad craidd eleni. Mae hwn yn ostyngiad ar yr 20 o ysgolion (9%) a nodwyd y llynedd. Mae angen gweithredu mesurau arbennig mewn tair ysgol (2%), o gymharu ag wyth ysgol (4%) y llynedd. Mae angen gwelliant sylweddol ar bedair ysgol (2%), o gymharu â 12 ysgol (5%) y llynedd. Er gwaetha'r gwelliannau ar draws y sector yn gyffredinol, mae diffygion pwysig yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ychydig ysgolion hyn. Yn rhy aml, nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol, i gymryd y camau iawn i wella eu hysgolion. Mewn ychydig o'r ysgolion hyn, dibynnir gormod ar staff dros dro nad oes ganddynt y medrau a'r profiad perthnasol ar gyfer y swydd.

**Ffigur 2.6:**
Canrannau ysgolion cynradd mewn lefelau gweithgarwch dilynol

22% **Arfer ragorol**
(40 o ddarparwyr)



# Deilliannau: Ysgolion cynradd

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw saith o bob deg o ysgolion cynradd a arolygwyd eleni. Mae hyn yn adeiladu ar y gwelliant a welwyd y llynedd. Mae cyfran yr ysgolion y barnodd arolygwyr eu bod yn rhagorol neu'n anfoddhaol wedi aros yr un fath fwy neu lai.


Lle ceir safonau da neu well, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched, a rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac eraill, yn lleihau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mewn rhyw draean o ysgolion, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd am nad yw'r gwaith a osodir iddynt yn ddigon heriol.

Mae medrau llythrennedd disgyblion yn parhau i wella. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio geirfa ddiddorol ac maent yn defnyddio'u medrau darllen yn dda i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn adnabod eu henw ac yn ei ychwanegu at siart i ddangos eu bod yn bresennol, ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio geiriadur i leoli geiriau yn nhrefn y wyddor. Mae ysgrifennu llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ennyn diddordeb y darllenydd a defnyddio iaith llawn dychymyg. Er enghraifft, mae disgybl yn disgrifio'r rhew a welir o bortwll ar long y Titanic yn disgleirio fel 'ffrog balerina'.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llythrennedd yn dda mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion a arolygwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llefaredd yn effeithiol, er enghraifft, pan fyddant yn cyflwyno dadl resymedig ar fuddion Masnach Deg. Maent yn cymhwyso'u medrau darllen lefel uwch yn dda i godi gwybodaeth allweddol yn gyflym mewn gwersi mathemateg wrth ddatrys problemau a osodir mewn geiriau. Mewn rhyw un o bob deg ysgol, mae diffyg her mewn deunyddiau darllen a chadw'n haearnaidd at gynlluniau darllen yn effeithio'n negyddol ar fwynhad disgyblion o ddarllen. Lle mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda, maent yn dangos balchder yn eu gwaith, gan ei ailddrafftio a'i fireinio. Mewn un o bob pum ysgol, mae ansawdd yr ysgrifennu a chyflwyniad yn anghyson ar draws yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae gorddefnyddio taflenni gwaith yn atal disgyblion rhag cyflwyno'u gwaith yn annibynnol ac yn greadigol yn aml. Nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am sain geiriau i sillafu'n fwy cywir.

Mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion, mae safonau rhifedd yn dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus wrth ddatrys problemau go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn cyfrifo beth yw elw eitemau a werthwyd yn ystod wythnos fenter yr ysgol. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio'u gwybodaeth ar draws pynciau, fel pan fyddant yn cyfrifo'r tymheredd cymedrig a glawiad ar gyfer Nairobi. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau trin data a mesur fel rhan o'u dysgu bob dydd. Mae llawer ohonynt yn pwyso cynhwysion mewn 'cegin fwd' ac yn creu ac yn dehongli siartiau cyfrif syml sy'n dangos canfyddiadau o helfa chwilod. Mewn ysgolion lle mae safonau rhifedd yn ddigonol, ceir gormod o ddibynnu ar addysgu ffurfiol ac ar daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar gyfle disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Ffigur 2.7:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?



# Deilliannau: Ysgolion cynradd

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae diffygion pwysig mewn safonau TGCh o hyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llechi a chyfrifiaduron fel mater o drefn i ganfod a chyflwyno gwybodaeth, ac maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o e-ddiogelwch. Eto, nid oes gafael ddigon cadarn gan lawer o ddisgyblion ar yr ystod lawn o fedrau TGCh sy'n briodol ar gyfer eu hoedran, fel creu taenlenni neu reoli a dehongli data. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir safonau TGCh cadarn, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio fformiwlâu mewn taenlenni, er enghraifft wrth gymharu cyfraddau cyfnewid arian cyfred gwahanol.

Mae safonau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhy amrywiol o hyd. Mae argymhellion gan ryw draean o ysgolion cyfrwng Saesneg yn ymwneud â disgyblion nad ydynt yn defnyddio'u medrau llefaredd Cymraeg yn ddigon da y tu allan i wersi ffurfiol. Er bod llawer o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu Cymraeg ac yn gwybod ymadroddion defnyddiol, nid ydynt yn aml yn eu defnyddio'n gywir neu'n hyderus.

## Manteisio ar bob cyfle i gynyddu llythrennedd

Caiff saith ar hugain o ieithoedd eu siarad yn **Ysgol Gynradd Kitchener**, ac mae 86% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau a dulliau addysgu i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfleoedd gorau i ddatblygu'u medrau llythrennedd. O ganlyniad, mae safonau mewn llythrennedd ar draws yr ysgol wedi codi bob blwyddyn am y tair blynedd diwethaf.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

## Lles

Mae safonau lles yn dda neu'n well mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion. Mae'r plant bron i gyd yn gweithio'n dda â'i gilydd ac mae ganddynt fedrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddyfalbarhad a gwydnwch a pharodrwydd i ddysgu o'u camgymeriadau.

Mewn tua 70% o ysgolion, mae cynghorau ysgol a grwpiau eraill o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel 'arweinwyr chwarae' i gynorthwyo disgyblion iau amser chwarae ac i helpu datrys mân wrthdaro rhwng disgyblion eraill. Mae pwyllgorau eco yn hyrwyddo byw'n gynaliadwy trwy weithgareddau fel dylunio ac adeiladu 'tai gwydr poteli', a thyfu a gwerthu cynnyrch. Mewn rhyw draean o ysgolion lle nad yw safonau lles yn dda, nid yw 'llais y disgybl' yn gryf ac mae cynghorau disgyblion yn cael eu harwain gormod gan oedolion.


Eleni, mae gan ychydig o dan draean o ysgolion argymhelliad i wella presenoldeb, naill ai am nad oes ganddynt hanes da o wella presenoldeb neu mae'r cynnydd mewn presenoldeb wedi bod yn arafach nag mewn ysgolion eraill.

### Annog dysgwyr sy'n llai ymgysylltiedig

Yn **Ysgol Gynradd Cwmfelinfach**, mae disgyblion sy'n arddangos nodweddion fel diffyg hunan-barch neu ddiffyg ymgysylltiad yn cael eu gwahodd i ddod yn aelodau 'grŵp Ysbiwyr Dysgu'. Mae'r grŵp yn arsylwi gwersi ac yn gofyn cwestiynau i'w cyfoedion am sut maent yn dysgu a beth mae angen iddynt ei wybod. Maent yn chwarae rhan bwysig mewn dyfeisio posteri dosbarth a chynnig strategaethau defnyddiol ar sut i weithio'n annibynnol. Mae hyn yn cynyddu hunan-barch y disgyblion hyn yn sylweddol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.8:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth: Ysgolion cynradd

At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn bron i 80% o ysgolion a arolygwyd eleni. Mae hwn yn welliant ar ffigur y llynedd, sef rhyw 75%.

## Profiadau dysgu

Mae llawer o ysgolion yn cynnig profiadau dysgu da neu well. Yn yr ysgolion cryfaf, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n cymell disgyblion o bob oed a gallu. Maent yn aml yn ystyried diddordebau a syniadau disgyblion. Er enghraifft, mewn un ysgol feithrin, fe wnaeth athrawon helpu disgyblion i sefydlu bwth lluniau ar ôl i'r disgyblion nodi'r angen wrth gynllunio parti. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cwricwlwm eang, cytbwys a chreadigol yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Ynghyd â'r athrawon, mae ganddynt ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn systematig a chynyddol.

Ceir diffygion yn y ddarpariaeth cwricwlwm mewn rhyw chwarter o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd ac yn adeiladu arnynt ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd yn rhy gul ac nid ydynt yn galluogi disgyblion i ysgrifennu'n estynedig nac yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Ceir gormod o ysgolion lle mae'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn mynd yn rhy strwythuredig a ffurfiol yn rhy fuan. Mae hyn yn lleihau gallu disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis beth a sut maent yn dysgu, yn enwedig tuag at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

## Addysgu

Eleni, mae'r addysgu a'r asesu wedi gwella, gydag ychydig dros saith o bob deg ysgol yn dda neu'n well.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir addysgu rhagorol, mae athrawon yn cynllunio gwersi arloesol sy'n tanio brwdfrydedd disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu medrau trin data a mesur wrth archwilio effaith diffyg pwysau ar hadau wedi'u tyfu yn yr Orsaf Ofod Ryngwladol.


Lle ceir addysgu cadarn, mae athrawon yn gofyn cwestiynau heriol sy'n ymestyn medrau meddwl a datrys problemau disgyblion, ac yn asesu eu dealltwriaeth. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall pob disgybl ei gyflawni. Maent yn defnyddio gwybodaeth asesu i wneud yn siŵr eu bod yn cynllunio profiadau dysgu sy'n herio'r holl ddisgyblion. Mae gwersi'n symud ymlaen ar gyflymder da ac mae athrawon yn ymyrryd yn fedrus i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod gwersi.

Mae mwyafrif o athrawon yn deall ac yn gwneud defnydd addas o ystod o strategaethau asesu. Lle mae'r rhain yn fwyaf effeithiol, mae adborth i ddisgyblion yn cynnwys ffocws a phwrpas, ac mae athrawon yn rhoi cyfleodd buddiol i ddisgyblion wella eu gwaith ac ymateb i sylwadau llafar ac ysgrifenedig. Maent yn cynnwys disgyblion wrth arfarnu eu dysgu eu hunain a dysgu rhai eraill.

Ceir diffygion yn yr addysgu a'r asesu mewn tua thair o bob deg ysgol. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid yw athrawon yn darparu adborth effeithiol a chyfleoedd asesu addas fel bod disgyblion yn magu hyder ac yn cael dealltwriaeth sicr o beth maent yn ei wneud yn dda a sut gallant wella. Y rheswm am hyn yw bod angen i ansawdd marcio'r athrawon wella, yn hytrach nag oherwydd angen i gynyddu maint neu amlder marcio.

Mae gan bron pob ysgol systemau i olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw'r wybodaeth

**Ffigur 2.9:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



a gofnodwyd yn adlewyrchu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mewn bron i draean o ysgolion, hyd yn oed lle ceir olrhain cywir, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon i gydweddu gweithgareddau dysgu â galluoedd disgyblion. Er enghraifft, mae gweithgareddau ar gyfer disgyblion mwy abl yn mynnu cwblhau gwaith tebyg ychwanegol yn aml, yn hytrach na darparu tasgau wedi'u hystyried yn ofalus sy'n herio disgyblion i feddwl yn ddyfnach.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn parhau'n dda neu'n well mewn ychydig dros naw o bob deg ysgol.

Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn gwneud defnydd da o ystod eang o wasanaethau allanol ac arbenigol i ddarparu cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae staff yn nodi anghenion ychwanegol disgyblion yn gywir ar gyfnod cynnar. Maent yn rhoi rhaglenni ymyrraeth wedi'u cynllunio'n dda ar waith i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i'r disgyblion hyn o fewn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn olrhain ac yn arfarnu cynnydd disgyblion yn systematig. Mae staff yn cysylltu'n dda â rhieni ac yn adolygu cynnydd eu plentyn gyda nhw yn rheolaidd. O ganlyniad, mae rhieni'n gallu cynorthwyo dysgu eu plentyn yn well, ac mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd yn erbyn targedau cytûn.

Mae llai nag un o bob deg ysgol a arolygwyd yn cael argymhelliad i wella eu gofal, eu cymorth ac arweiniad. Yn yr ysgolion hyn, mae tua thraean o argymhellion yn amlygu angen i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, fel gwneud cynlluniau addysg unigol yn fwy penodol. Fel y nodwyd y llynedd, mae gan bron pob ysgol drefniadau addas ar gyfer diogelu disgyblion.

## Yr amgylchedd dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar. Maent yn dathlu diwylliannau ac ieithoedd amrywiol yn dda. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn gweithio'n ddyfal i sefydlu cysylltiadau gyda theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd. Maent yn helpu hyrwyddo dyheadau uchel ar gyfer y disgyblion hyn, ac yn cynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddatblygu'r medrau i helpu eu plant.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn creu amgylcheddau dysgu deniadol ac mae ganddynt ddigon o adnoddau dysgu addas. Yn yr achosion gorau, maent yn cynllunio mannau awyr agored yn ddychmygus i ddarparu ystod eang o gyfleoedd a heriau corfforol a chreadigol i ddisgyblion. Lle mae angen i ysgolion wella'r amgylchedd dysgu ffisegol, mae hyn yn ymwneud yn bennaf â gwella'r mynediad neu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.

## Creu amgylchedd dysgu diddorol

Mae mwyafrif y disgyblion yn **Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priory** yn cael profiadau cyfyngedig mewn lleoedd y tu hwnt i'w cymuned. Nod yr ysgol yw darparu "ffenestr i'r byd" sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion gan ddarparu profiadau go iawn i bynciau y mae disgyblion wedi'u hastudio yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae ymddygiad, presenoldeb a pherfformiad disgyblion wedi gwella.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion cynradd

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well mewn bron i dri chwarter o ysgolion. Mae hyn yn welliant bach ar y llynedd.

## Arweinyddiaeth

Eleni, fe wnaeth cyfran yr ysgolion cynradd ag arweinyddiaeth dda neu ragorol gynyddu ychydig i 72%, tra bod y gyfran ag arweinyddiaeth anfoddhaol wedi lleihau i 3% o 7% y llynedd.

Yn yr un o bob deg o ysgolion lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae arweinwyr yn ymateb yn dda i heriau fel y rheini a gododd yn sgil uno neu niferoedd mawr o ddisgyblion ag anghenion amrywiol yn cyrraedd yn annisgwyl. Mae'r arweinwyr hyn yn gweithredu'n bwrpasol i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fodloni anghenion ei holl ddisgyblion. Maent yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion, ac yn taro cydbwysedd gofalus rhwng treulio amser allan o'r ysgol a chanolbwyntio ar flaenoriaethau eu hysgol eu hunain. Mae gan lywodraethwyr yn yr ysgolion hyn ddealltwriaeth sicr o gryfderau a gwendidau'r ysgol, a gafwyd o brofiad uniongyrchol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn yr ysgolion hyn yn ymroi i ddatblygu cyfrifoldebau disgyblion. Maent yn gwrando'n ofalus ar farnau disgyblion ac yn ymateb o ddifrif i'w barnau.

Mae arweinwyr yn y llawer o ysgolion sydd ag arweinyddiaeth dda yn darparu cyfeiriad strategol cryf ac yn meithrin ethos o welliant parhaus. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac maent sicrhau bod staff, rhieni a disgyblion yn deall ac yn rhannu'r weledigaeth hon. Mae dulliau ac arferion yn yr ysgolion hyn yn gyson a chydlynus, ac yn ddigon hyblyg i ddefnyddio arbenigedd, arddulliau a chryfderau athrawon unigol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cysylltiadau rhwng y camau y mae arweinwyr yn eu cynllunio a gwelliannau yng nghynnydd disgyblion yn glir. Mae rheoli perfformiad sy'n nodi dysgu proffesiynol ac yn dwyn staff i gyfrif am gynnydd a deilliannau disgyblion yn allweddol i lwyddiant yr ysgolion hyn.

Mewn rhyw chwarter o ysgolion lle bernir bod yr arweinyddiaeth yn ddigonol, mae diffyg brys ynglŷn â gwella safonau a lles disgyblion. Cyfyngedig yw cynnydd ers yr arolygiad blaenorol, ac mae arweinwyr ym methu adnabod gwendidau a mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, nid yw'r ysgolion hyn yn cyflawni arfer ddisgwyliedig y Cyfnod Sylfaen yn aml, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2. Nid yw arweinwyr wedi nodi hyn fel gwendid am nad oes gan weithdrefnau monitro ffocws ddigon eang neu am mai dealltwriaeth wan o'r Cyfnod Sylfaen sydd gan arweinwyr.


Mae argymhelliad gan bron i un o bob pum ysgol i wella gwaith y corff llywodraethol. Er bod hyn yn llai na'r gyfran a nodwyd y llynedd, nid yw llywodraethwyr mewn lleiafrif o ysgolion yn ymwneud digon â datblygu cyfeiriad strategol eu hysgolion ac nid ydynt yn adolygu adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella yn ddigon manwl.

## Gwella ansawdd

Mae gweithdrefnau da neu ragorol gan ychydig dros ddwy ran o dair o ysgolion ar gyfer arfarnu ansawdd eu gwaith ac i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn tua'r un fath â'r gyfran a nodwyd y llynedd.

Mae ysgolion sydd â phrosesau sicrhau ansawdd trwyadl yn defnyddio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant i wneud gwahaniaeth sylweddol i brofiadau a chyflawniadau disgyblion. Maent yn cynorthwyo staff a llywodraethwyr i weithio gyda'i gilydd i gasglu, dadansoddi ac arfarnu gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, gosod targedau heriol a llunio cynlluniau gweithredu ymarferol. Maent yn sicrhau bod cysylltiadau agos rhwng hunanarfarnu, cynllunio gwelliant, monitro, rheoli perfformiad, a dysgu proffesiynol.

**Ffigur 2.10:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Yn gynyddol, mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn cynnwys disgyblion yn yr hunanarfarnu, ac mae ychydig iawn o gynghorau ysgol yn datblygu'u cynlluniau gwella eu hunain. Mae'r ysgolion hyn yn cymryd cyfraniadau disgyblion o ddifrif, ac yn cynnwys disgyblion mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys arsylwi'r addysgu. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farnau disgyblion wrth ysgrifennu adroddiadau hunanarfarnu ac wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl randdeiliaid ac yn sicrhau ymrwymiad ganddynt ar gyfer y broses gwella ysgol.

Mewn rhyw draean o ysgolion, mae prosesau ar gyfer gwella ansawdd yn wan. Yn yr ysgolion hyn, nid oes darlun cywir o waith yr ysgol gan arweinwyr a llywodraethwyr. Nid ydynt yn monitro cynnydd tuag at fodloni targedau'n rheolaidd, nac yn arfarnu effaith mentrau yn ddigon da. Nid yw cynlluniau gweithredu yn canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bartneriaethau effeithiol. Un nodwedd allweddol o'r ysgolion hyn yw'r cysylltiadau pwrpasol â rhieni. Mae'r cysylltiadau hyn yn arbennig o effeithiol mewn ysgolion sy'n annog rhieni i ddysgu ochr yn ochr â'u plant, neu i wella eu medrau eu hunain. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn deall buddion helpu rhieni i gynorthwyo dysgu eu plant gartref. Maent yn buddsoddi amser ac arian i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a dysgu sy'n cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn arbennig o fuddiol pan fydd ysgolion yn ymgysylltu â rhieni a chymunedau sy'n anodd eu cyrraedd. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol i lawer o deuluoedd, mae'r ysgol yn cyflogi staff penodol i arwain y gwaith hwn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymgysylltu â'r gymuned yn parhau'n flaenoriaeth uchel ac yn cynnwys pob aelod o staff. Yn yr enghreifftiau mwyaf llwyddiannus, mae'r gwaith hwn yn sicrhau perthnasoedd agos â rhieni ac aelodau'r gymuned leol, sy'n gweld yr ysgol fel canolfan gymunedol a man dysgu i bawb.

## Rheoli adnoddau

Mae gan fwy na saith o bob deg ysgol weithdrefnau da neu ragorol ar gyfer rheoli eu hadnoddau.

Yn yr ysgolion hyn, mae staff medrus iawn yn cynllunio ac yn cyflwyno'r cwricwlwm. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff ag arbenigedd penodol yn gwneud cyfraniad arbennig o werthfawr at ddysgu'r disgyblion mewn celf, cerddoriaeth neu TGCh. Mae'r ysgolion hyn yn darparu dysgu proffesiynol effeithiol hefyd, a chaiff amser ei neilltuo i staff ddysgu gan ei gilydd trwy rannu syniadau, profiadau ac arbenigedd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i staff arsylwi ei gilydd yn addysgu, ac i gydweithredu â staff o ysgolion eraill a sefydlu mentrau newydd neu ddatblygu ymchwil yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn buddsoddi amser ac adnoddau i staff ar bob lefel ddatblygu'u medrau arweinyddiaeth. Maent yn annog staff i fod yn fyfyriol ac i fod yn ffrindiau beirniadol i'w gilydd. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu o arfer dda'r rheini yn eu hysgol neu mewn ysgolion eraill.

### Gwella medrau disgyblion trwy gydweithio

Trwy osod heriau dysgu i'w gilydd, mae disgyblion yn **Ysgol Dyffryn y Glowyr** ac ysgol bartner wedi datblygu eu hysgrifennu creadigol i safon uchel, wedi gwella eu medrau trafod, ac wedi ennyn mwy o frwdfrydedd ar gyfer mathemateg. Mae disgyblion yn trefnu fideo-gynadleddau yn rheolaidd ac yn cynllunio heriau ar y cyd gyda'r athrawon a'r disgyblion i ddarparu profiadau sy'n hyrwyddo medrau meddwl, TGCh, hunanarfarnu, llythrennedd, rhifedd a medrau rhesymu'r disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion difreintiedig o bob gallu. Nid yw ychydig o ysgolion yn casglu tystiolaeth i arfarnu p'un a yw eu gwariant wedi arwain at welliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd rheoli eu hadnoddau'n dda, mae gormod o athrawon dros dro a staff cymorth yn aml. Mae'r ansefydlogrwydd hwn yn y staffio yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae prosesau rheoli perfformiad yn wan yn aml, ac nid oes digon o ffocws ar ddysgu proffesiynol.

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion cynradd

Yn ystod y flwyddyn hon, bu gwelliant yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a roddwyd yn y categori monitro gan Estyn y llynedd ac nid oes angen eu monitro ymhellach gan arolygwyr. Fodd bynnag, ni wnaeth ychydig o ysgolion ddigon o gynnydd, ac mae angen gwelliant sylweddol arnynt erbyn hyn. Yn yr ysgolion hyn, mae gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a chywirdeb asesiadau athrawon wedi bod yn rhy araf, gan arwain at ddirywiad yn safonau disgyblion.

Yn ystod y flwyddyn hon, cafodd y rhan fwyaf o ysgolion a roddwyd yn y categori gwelliant sylweddol y llynedd eu tynnu o'r categori monitro pellach. Roedd angen ail ymweliad monitro ar ychydig iawn o ysgolion i wneud yn siŵr bod gwelliannau diweddar wedi'u hymgorffori.

Eleni, cafodd tua hanner yr ysgolion cynradd yr oedd angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt y llynedd eu tynnu o weithgarwch monitro pellach. Yn yr ysgolion hyn, mae gwelliannau wedi'u gwneud yn gyflym. Mewn ychydig o ysgolion sy'n parhau yn y categori mesurau arbennig, mae ad-drefnu parhaus neu gynigion i gau yn ei gwneud yn anodd i'r ysgol ddenu'r athrawon a'r arweinwyr iawn i wella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae **Ysgol Gynradd Tudno** yn Llandudno. Yn Nhachwedd 2014, barnodd arolygwyr fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol.

Ers yr arolygiad, mae arweinyddiaeth gadarn gan bennaeth newydd a gwelliannau i strwythur yr uwch reolwyr wedi sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau diffiniedig gan arweinwyr a rheolwyr. Mae'r rolau hyn wedi'u datblygu a'u cefnogi trwy gyfranogi mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae uwch arweinwyr yn mynd ati'n rheolaidd i graffu ar waith disgyblion a chynnal arsylwadau gwersi er mwyn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar safonau. Mae pob un ohonynt yn arwain tîm bach sy'n canolbwyntio ar wella agweddau ar y ddarpariaeth, fel datblygu cynlluniau gwaith cwricwlaidd cydlynus, ac maent yn arfarnu ei effaith ar safonau yn rheolaidd.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a dysgu ehangach disgyblion. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno cwricwlwm diwygiedig sy'n nodi ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau a meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm. Fel 'Ysgol Greadigol Arweiniol', mae staff yn gwneud defnydd arloesol o brosiectau celfyddydau creadigol, fel gweithio gydag arlunwyr a cherddorion o Gymru i herio disgyblion i feddwl yn ddyfnach ynglŷn â'u gwaith a dod yn fwy annibynnol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau mewn celf a cherddoriaeth, a thrwy weithgareddau trawsgwricwlaidd. Mae'r prosiect hwn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at fwynhad disgyblion yn eu dysgu a safonau gwell.

Yn Chwefror 2016, barnodd arolygwyr fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn neu dda iawn yn erbyn pob un o'r argymhellion o'r arolygiad, ac nad oes angen ei monitro mwyach.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch **adroddiad yr ymweliad monitro**.


Bwyta a choginio'n iach


13

# Adroddiad sector
## Ysgolion uwchradd

Yn Ionawr 2016, roedd 205 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, sef dwy yn llai nag yn Ionawr 2015. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn parhau i ostwng. Yn Ionawr 2016, y nifer ar y gofrestr oedd 178,650, sef gostyngiad o ryw 3,700 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol. Eleni, fe wnaethom arolygu 33 o ysgolion uwchradd.

# Crynodeb:
## Ysgolion uwchradd


Eleni, nodom arfer ragorol mewn rhyw chwarter o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd. Mae hyn yn is na'r gyfran a nodwyd y llynedd. Eleni, barnwyd bod deilliannau rhagorol gan 6% o ysgolion. Mae hyn yn is na'r llynedd hefyd. Barnwyd bod bron i un o bob pum ysgol a arolygwyd eleni yn darparu profiadau dysgu rhagorol. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol i wella medrau disgyblion, yn enwedig llythrennedd a rhifedd.

Fe wnaeth nifer yr ysgolion yr oedd angen eu monitro gan Estyn godi o 35% y llynedd i 48% eleni. Nid yw'r ysgolion hyn wedi sicrhau deilliannau digon cadarn ar gyfer eu disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr wedi dechrau rhoi strategaethau ar waith i wella perfformiad yr ysgol, ond mae'n rhy gynnar i weld effaith y trefniadau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Eleni, cafodd pum ysgol eu gosod mewn categori statudol yn dilyn arolygiad craidd. Nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar un ysgol, a rhoddwyd y gweddill yn y categori mesurau arbennig. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif yn ddigon trwyadl, ac nid yw prosesau hunanarfarnu'n ddigon cadarn i alluogi arweinwyr i gynllunio gwelliannau mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol.

**Ffigur 2.11:**
Canrannau ysgolion uwchradd mewn lefelau gweithgarwch dilynol

24% **Arfer ragorol**
(8 darparwr)




15% 21% 48% 3% 12%

Heb fod mewn categori gweithgarwch dilynol
Monitro gan yr ALI
Monitro gan Estyn
Gwelliant sylweddol
Mesurau arbennig

# Deilliannau: Ysgolion uwchradd

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn dwy o bob pum ysgol uwchradd. Mae hyn yn debyg i gyfran y llynedd, ond eleni, barnwyd bod deilliannau rhagorol gan lai o ysgolion.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae safonau'n rhagorol, mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd cadarn iawn wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae disgyblion bron i gyd yn dangos brwdfrydedd arbennig a gwydnwch yn eu dysgu ac maent yn ymgymryd â gweithgareddau heriol yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso'u medrau a'u gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol mewn gwersi. Mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd cyflym yn eu dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn perfformio uwchlaw'r disgwyliadau yn gyson mewn arholiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda, gan wneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion mwy abl yn datblygu'u medrau meddwl yn dda, er enghraifft, trwy greu a gofyn cwestiynau lefel uwch er mwyn cynllunio ac ehangu eu dysgu eu hunain.

Mewn llawer o'r ysgolion eraill a arolygwyd eleni, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn hyderus ac yn fedrus. Maent yn codi'r brif wybodaeth yn y testun yn rhwydd ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r hyn maent yn ei ddarllen. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn hyderus. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd digon o ofal gyda threfniant, sillafu, atalnodi, gramadeg a chyflwyniad eu gwaith ysgrifenedig.


Mewn mwyafrif o ysgolion, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio degolion, canrannau a ffracsiynau. Mae'r disgyblion hyn yn dadansoddi data'n gywir ac yn llunio graffiau addas i arddangos canlyniadau. Maent yn cyflawni cyfrifiadau rhifyddeg pen yn hyderus. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n meddu ar fedrau rhesymu rhifyddol cadarn ac yn gallu datrys problemau'n rhesymegol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae medrau rhif sylfaenol gwan gan leiafrif o ddisgyblion. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael anhawster datrys problemau mewn gwersi mathemateg a phan ofynnir iddynt gymhwyso'u medrau mathemategol mewn pynciau eraill.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gall disgyblion brosesu geiriau, defnyddio pecynnau trin data sylfaenol a chynhyrchu cyflwyniadau syml mewn gwersi TGCh. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion yn ymestyn ac yn datblygu'u medrau TGCh mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion eraill, dim ond ar lefel isel mewn ychydig o bynciau y tu allan i wersi TGCh y bydd disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau, yn enwedig mewn llythrennedd, trwy gymorth targedig. O ganlyniad, mae'r medrau darllen angenrheidiol gan y rhan fwyaf ohonynt i'w galluogi i ddilyn gwersi prif ffrwd. Er bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd gyda'u hysgrifennu, mae llawer yn cael anhawster gyda gofynion ysgrifennu tasgau a osodir mewn gwersi prif ffrwd.

Mewn llawer o ysgolion, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella ychydig. Yn yr ysgolion gwannach, nid yw'r disgyblion hyn yn perfformio gystal o gymharu â'r rheini mewn ysgolion tebyg, yn enwedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddigon da i'w galluogi i gyflawni'u potensial yn y pynciau craidd hyn. Mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio'n well yn y celfyddydau nag mewn llawer o feysydd pwnc eraill. Mae'r bwlch mewn perfformiad ym mhynciau'r celfyddydau rhwng disgyblion sy'n

**Ffigur 2.12:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?



gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r bwlch mewn perfformiad mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf ac mewn mathemateg.

Mae safonau Cymraeg ail iaith mewn llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwella, gyda'r niferodd sy'n cyflawni cymwysterau mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn cynyddu. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig iawn o'r ysgolion hyn y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith. Er bod llawer o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn defnyddio ymadroddion sylfaenol yn hyderus yn ystod cyfnodau cofrestru a gwasanaethau, prin yw'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg, nid oes hyder gan y rhan fwyaf o ddisgyblion pan fyddant yn siarad Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog yn siarad ac yn ysgrifennu'n dda yn Gymraeg, ac maent yn defnyddio'u medrau iaith yn hyderus ar draws y cwricwlwm, er bod lleiafrif yn gwneud ychydig o gamgymeriadau gramadegol.

## Lles

Mae lles yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion uwchradd. Mae hwn yn welliant ar y llynedd, a hynny'n bennaf yn sgil y gwelliant parhaus mewn presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Yn yr ychydig o ysgolion lle mae lles yn rhagorol, mae'r graddau y caiff disgyblion eu cynnwys ym mywyd yr ysgol a thu hwnt yn gryfder sylweddol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn arfarniadau o addysgu a dysgu, a datblygu polisi, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u perfformiad. Mae presenoldeb yr holl grwpiau disgyblion yn yr ysgolion hyn yn gyson uchel ac yn well nag mewn ysgolion tebyg.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn deall sut i fwyta'n iach ac maent yn deall gwerth cadarnhaol gwneud ymarfer corff. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau allgyrsiol ac yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau yn eu cymuned ac yn codi arian at elusennau.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo bod cefnogaeth iddynt os oes unrhyw achosion o fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn brydlon ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae agweddau gwael tuag at yr ysgol gan ychydig o ddisgyblion, ac maent yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.


Mewn llawer o ysgolion, mae presenoldeb yn gwella ac mae cyfraddau absenoldeb parhaus yn parhau i ostwng, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'n dda ac yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. At ei gilydd, mae'r amrywiad mewn presenoldeb rhwng ysgolion wedi lleihau, ac mae llawer o ysgolion wedi ymateb yn dda i'r her i wella cyfraddau presenoldeb. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r gyfradd absenoldeb parhaus yn parhau'n uchel ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim gryn dipyn yn waeth nag mewn ysgolion tebyg.

### Cyflymu dysgu disgyblion mewn Cymraeg

Mae disgyblion yn **Ysgol Gyfun Treorci** yn datblygu eu medrau Cymraeg yn arbennig o dda. Sicrheir parhad a chysondeb rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 drwy'r ysgol yn gweithio gyda'i hysgolion cynradd bwydo i gyflwyno gwersi i ddisgyblion Blwyddyn 6 ac i baratoi adnoddau a chynlluniau gwaith. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddwyieithrwydd a'r dimensiwn Cymreig yn cysylltu'r Gymraeg â threftadaeth a diwylliant er mwyn cyfoethogi a chyflymu dysgu disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.13:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth: Ysgolion uwchradd

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn llawer o ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni. Mae hyn yn welliant ar y llynedd, yn bennaf oherwydd gwelliannau mewn gofal, cymorth ac arweiniad. Fodd bynnag, mae diffygion yn y ddarpariaeth o hyd ar gyfer datblygu medrau ac yn ansawdd yr addysgu a'r asesu.

## Profiadau dysgu

Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cyfrannu'n arbennig o dda at eu datblygiad a'u cynnydd. Yn yr ysgolion hyn, ceir dulliau tra ystyriol a chyson sy'n datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgolion hyn yn darparu gweithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd dysgu sy'n gwella medrau cymdeithasol disgyblion ac yn magu eu hyder a'u gwydnwch, gan gynnwys cyfleoedd i ddod yn fentoriaid cyfoedion, arweinwyr chwaraeon, neu lysgenhadon disgyblion ar gyfer Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae llawer o ysgolion yn cynllunio ystod o gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau llythrennedd, ac mae mwyafrif o ddisgyblion yn dod yn ddarllenwyr effeithiol ac yn gallu ysgrifennu'n hyderus yn well. Mewn rhyw draean o ysgolion, ceir diffygion sylweddol mewn datblygu medrau, yn aml oherwydd bod y cyd-destunau ar gyfer datblygu'r medrau yn amhriodol, er enghraifft pan fydd disgyblion yn cwblhau tasgau ysgrifennu estynedig heb fawr o gymorth neu gyda gormod o gymorth i'w galluogi i weithio'n annibynnol, neu pan na fydd gwaith rhifedd lefel isel mewn pynciau yn ymestyn disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn wan o hyd mewn llawer o ysgolion. Dim ond ychydig iawn o ysgolion sy'n sicrhau bod digon o gyfleoedd perthnasol a chynyddol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws pynciau heblaw am mewn gwersi TGCh.

Mewn llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru. Fodd bynnag, yn y mwyafrif ohonynt, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn wendid. Nid oes strategaeth glir gan yr ysgolion hyn i hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Mae bron pob un o'r ysgolion Cymraeg yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a meistrolaeth disgyblion ar yr iaith.


Mae llawer o ysgolion yn gweithio'n dda gyda phartneriaid, fel busnesau lleol, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ac elusennau, i ddarparu profiadau cyfoethogi ac ehangu'r cyfleoedd dysgu i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

## Addysgu

Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y ceir addysgu da neu well. Lle ceir addysgu effeithiol, caiff ei gynllunio a'i strwythuro fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Yn yr ysgolion hyn, mae disgwyliadau uchel gan yr athrawon o'r holl ddisgyblion, maent yn monitro eu dysgu'n ofalus ac yn darparu adborth defnyddiol.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir addysgu rhagorol, mae cynllunio'r athrawon yn taro cydbwysedd medrus rhwng ennyn chwilfrydedd, datblygu gwybodaeth bynciol, a gwella ac ymestyn medrau disgyblion. Un nodwedd arbennig o gref yn yr ysgolion hyn yw ansawdd yr holi. Mae athrawon yn defnyddio ystod lawn o dechnegau holi i archwilio dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i ddatblygu'u syniadau. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn darparu cyfleoedd creadigol i ddisgyblion mwy abl ddatblygu'u

**Ffigur 2.14:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



diddordebau eu hunain ac ymgymryd â thasgau heriol. Mae hyn yn digwydd yn ddi-dor fel ei fod yn ategu ac yn ymestyn yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae cysondeb yn ansawdd y marcio a'r asesu yn nodwedd gref yn yr ysgolion hyn hefyd. Mae ganddynt ymagwedd ysgol gyfan effeithiol, yn seiliedig ar ddarparu adborth sy'n helpu disgyblion i wella eu gwaith, gyda pholisïau a threfniadau asesu sy'n gwneud marcio yn hylaw ac yn ystyrlon.

Mae ansawdd yr addysgu yn anghyson mewn llawer o ysgolion. Mewn mwyafrif o wersi yn yr ysgolion hyn, nid yw disgwyliadau yn ddigon uchel, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl, ac mae'r amser a ddyrennir i ddatblygu gwybodaeth bynciol a medrau yn anghytbwys. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw rhediad y dysgu yn ystyried p'un a yw disgyblion wedi deall yr hyn sy'n cael ei addysgu. Yn y gwersi hyn, er bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cadw disgyblion yn brysur, nid yw'r gweithgareddau yn hyrwyddo nac yn dyfnhau eu dysgu.

Mae gan y rhan fwyaf systemau olrhain defnyddiol o ysgolion i fonitro cynnydd disgyblion. Mae llawer yn defnyddio'r systemau hyn yn effeithiol i nodi'r angen am gymorth ychwanegol, yn enwedig ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 nad ydynt ar y trywydd iawn i fodloni eu targedau. Dim ond lleiafrif sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i fonitro perfformiad grwpiau o ddisgyblion ar draws yr holl grwpiau blwyddyn.

Mewn llawer o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi, ac mae hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, mae adborth ysgrifenedig yn ddiffyg pwysig mewn llawer o ysgolion. Mae ansawdd yr adborth yn anghyson yn aml, ac ychydig o effaith a gaiff ar ansawdd gwaith disgyblion a'r cynnydd a wnânt.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae trefniadau sefydledig gan lawer o ysgolion i ofalu am eu disgyblion, i gefnogi eu hiechyd a'u lles a'u harwain wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai ag anawsterau personol neu emosiynol yn gyffredinol gadarn mewn llawer o'r ysgolion. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n dda gyda phartneriaid, gan gynnwys ysgolion cynradd clwstwr, gwasanaethau arbenigol, asiantaethau allanol a darparwyr eraill i wneud yn siŵr bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu nodi a'u bod yn mynd i'r afael â nhw. Maent yn monitro'r cymorth a ddarperir a'i effaith yn ofalus. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth sydd ganddynt am anghenion ychwanegol disgyblion i'w cynorthwyo mewn gwersi prif ffrwd.

Mewn llawer o ysgolion, ceir systemau defnyddiol i fonitro presenoldeb, i leihau absenoldeb parhaus ac i hyrwyddo ymddygiad da. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau presenoldeb ac ymddygiad gwell. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb ac ymddygiad yn cael eu cymhwyso'n gyson, ac nid yw absenoldeb parhaus ac ymddygiad aflonyddgar yn cael eu herio.

Ceir rhaglenni a strategaethau cynhwysfawr mewn llawer o ysgolion i ddatblygu gwerthoedd cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Maent yn darparu cyngor ac arweiniad defnyddiol ynglŷn â chyrsiau a gyrfaoedd i ddisgyblion a'u teuluoedd pan fyddant yn cyrraedd adegau gwneud penderfyniadau. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r arweiniad a'r wybodaeth a ddarperir yn gyfyngedig, neu nid ydynt yn ddiduedd.

Mae gan bron pob ysgol drefniadau addas i ddiogelu disgyblion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid ydynt yn mynd i'r afael â bwlio yn ddigon da. Mae ymateb staff i ddigwyddiadau o fwlio yn anghyson ac nid yw'r ysgolion hyn yn monitro effaith eu polisi a'u harfer gwrthfwlio.

## Yr amgylchedd dysgu

Ceir ethos cynhwysol mewn llawer o ysgolion ac mae staff yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn hyrwyddo goddefgarwch a pharch. Yn gyffredinol, mae'r ystafelloedd dosbarth, coridorau a mannau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn dda ac maent yn ddeniadol, ac yn cefnogi'r dysgu gydag arddangosiadau defnyddiol a pherthnasol.

Mae ychydig iawn o ysgolion yn llai llwyddiannus o ran gwneud yn siŵr bod disgyblion yn rhannu gwerthoedd parch a goddefgarwch, ac mae disgwyliadau ar gyfer ymddygiad tuag at eraill yn rhy isel. Hefyd, mae safonau gwael mewn ychydig iawn o ysgolion mewn agweddau ar eu hadeiladau, yn enwedig toiledau.

### Cyfoethogi'r cwricwlwm cyfoes

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni** yw un o'r ysgolion arloesi sy'n datblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r ysgol yn defnyddio ei gwreiddiau Cymreig a chysylltiadau byd-eang i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i'w disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu cynlluniau fel 'Cau'r Bwlch' i baratoi darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer disgyblion penodol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion uwchradd

## Arweinyddiaeth

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well mewn rhyw hanner o'r ysgolion a arolygwyd eleni.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Yn yr ysgolion hyn, ceir arweinyddiaeth ysbrydoledig gan y pennaeth, wedi'i gefnogi gan arweinwyr ar lefelau eraill sy'n rhannu gweledigaeth gyffredin yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. Mae staff, disgyblion a llywodraethwyr yn cofleidio'r weledigaeth hon. Ceir ffocws parhaus ar gyflawni safonau uwchlaw disgwyliadau trwy addysgu sydd yn gyson o ansawdd uchel. Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn dda ac yn gwneud yn siŵr bod arweinwyr ar bob lefel wedi'u paratoi'n drwyadl ar gyfer eu rolau. Mae cynllunio olyniaeth yn ddatblygedig iawn, ac mae arweinwyr canol yn chwarae rôl rymus i sicrhau gwelliant. Ceir trefniadau rheoli perfformiad cynhwysfawr a chadarn yn yr ysgolion hyn, gan gynnwys ar gyfer staff cymorth, gydag amcanion sy'n cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol. Caiff tanberfformiad ei herio'n effeithiol. Mae llywodraethwyr yn darparu her ac arweinyddiaeth hynod effeithiol. Maent yn adnabod eu hysgolion yn dda ac yn rhannu'r un penderfyniad na fydd unrhyw ddisgybl yn cael ei adael ar ôl. Mae eu ffocws ar sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai difreintiedig ac agored i niwed, yn cyflawni'n dda.

Bernir bod arweinyddiaeth yn ddigonol mewn traean o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinyddiaeth yn cael effaith sylweddol ar feysydd pwysig o waith yr ysgol, yn enwedig ar ansawdd yr addysgu a safonau. Nid yw arweinwyr yn darparu cyfeiriad digon clir i'r staff er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae cyfrifoldebau arwain yn cael eu dosbarthu'n anghyson yn aml, ac nid oes digon o drylwyrder yn y modd y mae uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif, ac yn y modd y mae arweinwyr canol yn dwyn eu timau i gyfrif. Yn gyffredinol, mae arweinwyr canol yn rheoli gwaith eu hadrannau o ddydd i ddydd yn addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn defnyddio data a gwybodaeth yn ddigon da i arfarnu perfformiad ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar sut i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mewn ychydig o ysgolion, mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol. Yn yr ysgolion hyn, diffyg cyfeiriad, methiant i ddwyn eraill i gyfrif, disgwyliadau isel, a ffocws annigonol ar addysgu a dysgu yw'r diffygion cyffredin yn yr arweinyddiaeth ar bob lefel.


Mewn tua hanner o ysgolion, mae llywodraethwyr yn deall eu rôl fel ffrind beirniadol. Maent yn dwyn yr arweinwyr a'r staff i gyfrif am y safonau a gyflawnir, ac am ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Yn yr ysgolion eraill, nid oes gwybodaeth sicr gan lywodraethwyr am ba mor dda mae disgyblion yn gwneud. Y rheswm am hyn yn aml yw nad yw'r ysgolion hyn yn dadansoddi data perfformiad yn dda. O ganlyniad, nid yw llywodraethwyr yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau eu hysgol a beth sydd angen ei wella.

## Gwella ansawdd

Dim ond mewn traean o'r ysgolion a arolygwyd eleni y mae'r ffordd y mae arweinwyr yn gwella ansawdd yn eu hysgolion yn dda neu'n well. Ym mron pob ysgol, y prif ddiffyg mewn gwella ansawdd yw diffyg ffocws ar arfarnu'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r ysgolion lle ceir arweinyddiaeth ragorol yn llwyddiannus iawn hefyd wrth arfarnu pa mor dda maent yn gwneud, nodi diffygion a

**Ffigur 2.15:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



gweithredu i wella. Maent yn fyfyriol, mae ganddynt ddiwylliant sy'n seiliedig ar ddyheadau uchel, ac mae ganddynt hanes llwyddiannus o gynnal gwelliant. Nid yw eu systemau ar gyfer monitro ac arfarnu'u gwaith yn fiwrocrataidd, mae pob un o'r staff yn eu deall yn dda, ac maent yn canolbwyntio'n drwyadl ar brofiadau dysgwyr a'u cynnydd. Mae gweithgareddau hunanarfarnu yn canolbwyntio ar effaith yr addysgu ac yn nodi agweddau ar yr addysgu y mae angen eu gwella ar lefel unigol, adrannol ac ysgol gyfan. Mae'r ysgolion hyn yn dadansoddi data'n drylwyr i lywio eu barnau ynglŷn ag effaith dysgu ac addysgu, ac i osod targedau heriol.

Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd o ystod addas o ddata a gwybodaeth i arfarnu safonau ac ansawdd darpariaeth. Mewn tua hanner o ysgolion, nid yw'r arfarniadau hyn yn ddigon manwl i fod o werth o ran nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Y diffyg mwyaf cyffredin yw fod gweithgareddau hunanarfarnu, yn enwedig arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion, yn canolbwyntio gormod ar beth mae'r athro yn ei wneud ac nid digon ar y cynnydd a wneir gan ddisgyblion. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn cymharu eu canlyniadau gydag ysgolion tebyg nac yn canolbwyntio'n ddigon miniog ar berfformiad o gymharu â deilliannau wedi'u modelu sy'n dangos pa mor agos y mae perfformiad gwirioneddol yn cyfateb i berfformiad disgwyliedig. O ganlyniad, mae meysydd pwysig i'w gwella yn cael eu colli.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae trefniadau partneriaeth effeithiol gan y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r diffygion a nodwyd y llynedd mewn perthynas â phartneriaethau ag ysgolion cynradd a monitro a sicrhau ansawdd darpariaeth amgen allanol yn parhau'n feysydd i'w gwella eleni.

Yn yr ychydig ysgolion lle ceir gweithio mewn partneriaeth rhagorol, ceir ffocws cryf ar wneud yn siŵr bod trefniadau o fudd i brofiadau dysgu a lles disgyblion. Mae ganddynt gysylltiadau cwricwlwm arloesol gydag ysgolion cynradd clwstwr. Maent yn mynd i'r afael â datblygu medrau disgyblion fel ymdrech ar y cyd, a cheir cymorth pontio effeithiol iawn i ddisgyblion. Mae'r ysgolion hyn wedi sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd clir sy'n eu galluogi i adolygu'n rheolaidd ansawdd ac effaith darpariaeth alwedigaethol allanol ar gynnydd disgyblion hŷn.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bartneriaethau gyda darparwyr eraill i roi mwy o ddewisiadau ac opsiynau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae perthnasoedd proffesiynol effeithiol gydag asiantaethau sy'n cynorthwyo disgyblion agored i niwed gan y rhan fwyaf ohonynt hefyd. Ym mwyafrif yr ysgolion, dim ond proses sicrhau ansawdd gyfyngedig sydd ar gyfer darpariaeth allanol, ac nid yw'r effaith ar gynnydd disgyblion yn cael ei monitro na'i holrhain yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb gymwysterau defnyddiol.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gysylltiadau bugeiliol llwyddiannus gydag ysgolion cynradd sy'n helpu disgyblion i ymgartrefu'n dda. Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, nid yw cysylltiadau cwricwlwm gydag ysgolion cynradd partner yn canolbwyntio digon ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd.

## Rheoli adnoddau

Mewn ychydig o dan ddwy o bob pum ysgol, mae rheoli adnoddau yn dda neu'n well.

Yn yr ychydig ysgolion gorau oll, ceir ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff. Mae athrawon ac arweinwyr ar draws yr ysgolion yn gysylltiedig ag ystod eang o rwydweithiau arfer broffesiynol o fewn yr ysgol ac ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mewn ychydig o ysgolion, nid yw trefniadau i rannu arfer dda wedi effeithio digon ar godi safonau drwy wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae rheolaeth wael ar drefniadau ar gyfer absenoldeb athrawon wedi arwain at brofiadau dysgu anghyson i ddisgyblion.

Mae'r ychydig iawn o ysgolion lle ceir deilliannau rhagorol yn rheoli'u cyllidebau yn dda iawn. Mae eu defnydd gofalus a thargedig o grantiau penodol, gan gynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion, yn arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw gwariant y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi cael llawer o effaith ar wella presenoldeb na pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

### Gyrru gwelliant trwy ddatblygiad proffesiynol

Mae'r rhaglen 'Darpar Arweinwyr' yn **Ysgol Gyfun Pontarddulais** yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar wella agweddau gwahanol ar waith yr ysgol er mwyn gwella perfformiad disgyblion. Mae arweinwyr canol sefydledig a darpar arweinwyr canol yn cael hyfforddiant a chymorth ar gyfer ystod o weithgareddau, gan gynnwys arwain agwedd ar wella'r ysgol gyfan a chyfranogi mewn hunanarfarnu rhwng ysgolion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion uwchradd

Eleni, gwnaed cynnydd da gan 15 o'r 39 o ysgolion uwchradd yr oedd angen eu monitro gan Estyn y llynedd, neu a arhosodd yn y categori hwnnw, a chawsant eu tynnu o'r categori monitro gan Estyn. Dangoswyd cynnydd cyfyngedig yn erbyn yr argymhellion gan dair ysgol. Cafodd dwy o'r ysgolion hyn eu rhoi yn y categori mesurau arbennig a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol ar y llall. Dangosodd yr 21 ysgol arall rywfaint o gynnydd ers eu harolygiad craidd, ond nid ydynt wedi gwella digon. Byddwn yn parhau i fonitro'r ysgolion hyn.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd angen gwelliant sylweddol mewn naw ysgol. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd un ysgol o'r categori hwn gan fod y trefniadau a gyflwynwyd ganddynt i gryfhau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi arwain at welliannau sylweddol yn yr addysgu a'r dysgu, ac mewn deilliannau disgyblion. Nid yw'r chwe ysgol arall, er eu bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn yr argymhellion o'u harolygiad craidd, wedi gwneud digon o welliant. Bydd Estyn yn parhau i fonitro eu cynnydd yn fanwl.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd saith ysgol yn y categori mesurau arbennig. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd un ysgol o'r categori hwn. Mae'r ysgol hon wedi llwyddo i gryfhau'r arweinyddiaeth a gwella'r addysgu a'r dysgu. Nid yw'r ysgolion eraill wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â diffygion yn yr addysgu a'r arweinyddiaeth. O ganlyniad, mae cynnydd o ran gwella deilliannau disgyblion wedi bod yn rhy araf ac mae'r ysgol yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

Nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar **Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII** yn Sir Fynwy yn dilyn ei harolygiad yn Rhagfyr 2014. Bryd hynny, barnodd arolygwyr fod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella yn ddigonol am nad oedd arweinwyr wedi sicrhau deilliannau digon cadarn ar gyfer disgyblion ac roedd gormod o amrywio yn ansawdd a thrylwyrder yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant.

Yn ystod yr ymweliad monitro ym Mehefin 2016, canfu arolygwyr fod safonau wedi gwella a bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn o ran gwneud y prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn fwy effeithiol. Barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Rhagfyr 2014, ac nid oes angen gweithgarwch dilynol gan Estyn arni mwyach.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch **adroddiad yr ymweliad monitro**.



# Adroddiad sector
## Ysgolion pob oed a gynhelir

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu twf yn nifer yr ysgolion pob oed a gynhelir sy'n agor ar hyd a lled Cymru. Mae'r ysgolion hyn yn derbyn disgyblion yn dair neu'n bedair oed ac yn darparu addysg iddynt tan eu bod yn 16 neu'n 18 oed. Mae llawer o'r ysgolion hyn ar ddau safle neu fwy. Yn Ionawr 2016, roedd saith o ysgolion pob oed yn y sector a gynhelir yng Nghymru. Agorodd tair ysgol pob oed arall ym Medi 2016.

**Ffigur 2.16:**
Ysgolion pob oed yng Nghymru, ar 1 Medi 2016

Agorwyd yn 2015-2016

Agorwyd 1 Medi 2016



Eleni, cynhaliodd Estyn ei ddau arolygiad cyntaf o ysgolion pob oed a gynhelir. Mae cyd-destun a maint yr ysgolion hyn yn gwahaniaethu'n fawr. Mae un ysgol yn darparu ar gyfer rhyw 500 o ddisgyblion ar un safle, ac mae'r ysgol arall yn darparu ar gyfer rhyw 1,400 o ddisgyblion, gyda'r cyfnod cynradd ac uwchradd mewn adeiladau rhyw 1.5 milltir oddi wrth ei gilydd. Mae'r ddwy ysgol yn derbyn niferoedd sylweddol o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 o ysgolion cynradd partner eraill. Mae hyn yn creu heriau sylweddol o ran cynllunio ar gyfer pontio. Barnwyd bod cryfderau gan y ddwy ysgol yn eu darpariaeth cyfnod cynradd, ond roedd ganddynt ddiffygion yn y cyfnod uwchradd. Barnwyd hefyd fod arweinyddiaeth ddigonol yn y ddwy ysgol, yn bennaf oherwydd gwendidau yn yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae angen monitro gan Estyn ar un ysgol, ac mae angen gwelliant sylweddol ar y llall.

I gael mwy o wybodaeth am y ddwy ysgol a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadau arolygu:

**Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr**

**Ysgol y Santes Ffraid**


Repetition
Melody/Tune
Duration
Texture
Clef
Rhythm
Structure
Lyrics
Piano Keyboard

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn Ionawr 2016, roedd 39 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, sef yr un nifer â'r llynedd. Mae'r ysgolion hyn yn darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir yn parhau i gynyddu ychydig flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn Ionawr 2016, 4,540 oedd y nifer ar y gofrestr, sef cynnydd o bron i 100 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol.

Eleni, fe wnaethom arolygu chwech o ysgolion arbennig a gynhelir.

I gael mwy o wybodaeth am y chwe ysgol a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadau arolygu:

**Ysgol Maes Ebbw**

**Ysgol Arbennig Pen-Y-Cwm**

**Ysgol Arbennig Riverbank**

**Ysgol Uwchradd Woodlands**

**Ysgol Arbennig Hendrefelin**

**Ysgol Plas Brondyffryn**


# Crynodeb:
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Eleni, nodwyd bod rhywfaint o arfer ragorol yn un o'r ysgolion a arolygwyd. Mae gan yr ysgol hon ystod eang o bartneriaethau cryf sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Rhoddwyd un ysgol yn y categori mesurau arbennig gan arolygwyr, ac roedd angen monitro gan Estyn ar ddwy ysgol. Mae gwendidau gan yr ysgolion hyn yn eu prosesau hunanarfarnu ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o'r ystod lawn o dystiolaeth i sicrhau ansawdd eu gwaith neu i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Nid oes dealltwriaeth ddigon da gan lywodraethwyr yn yr ysgolion hyn o berfformiad eu hysgol ac nid ydynt yn darparu digon o her i'r ysgol i wella.

**Ffigur 2.17:**
Niferoedd yr ysgolion arbennig a gynhelir mewn lefelau gweithgarwch dilynol

1 **Arfer ragorol**
(1 darparwr)



# Deilliannau: Ysgolion arbennig a gynhelir


## Safonau

Mae safonau'n dda mewn pedair o'r ysgolion a arolygwyd eleni, ac yn ddigonol yn y ddwy ysgol arall.

Lle mae safonau'n dda, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn perthynas â'u hanghenion, eu galluoedd a'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn trefnu dyddiadau, yn darllen graddfeydd ac yn mesur hylifau'n gywir. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion gwahanol, ac yn defnyddio geirfa addas. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn dda. Maent yn deall cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg syml. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau TGCh yn dda mewn gwersi TCh ac yn cynhyrchu posteri lliwgar, deniadol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol mewn gwersi eraill. Er enghraifft, maent yn cofnodi data ac yn cynhyrchu graffiau mewn gwersi mathemateg ac yn creu cyflwyniadau mewn gwersi Saesneg. Fodd bynnag, at ei gilydd, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n defnyddio'u medrau TGCh yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yn dilyn ystod o gyrsiau ac yn ennill cymwysterau perthnasol, gan gynnwys TGAUau, tystysgrifau arweinwyr chwaraeon a Gwobr Dug Caeredin. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer cyfnod nesaf eu dysgu ac ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant.

Lle mae safonau'n ddigonol, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau darllen ac ysgrifennu'n ddigon da ar draws y cwricwlwm. Mewn un ysgol, nid yw disgyblion yn cyflawni eu targedau addysg neu ymddygiad unigol yn gyson.

**Ffigur 2.18:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?




## Lles

Mae lles yn dda ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn awyddus i ddysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach, gan gynnwys cadw'n heini a chadw'n ddiogel ar-lein. Mae disgyblion yn datblygu medrau mewn ystod o weithgareddau chwaraeon, gan gynnwys nofio, gymnasteg a phêl-droed. Mae disgyblion ag anghenion cymhleth yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n datblygu eu medrau cydsymud.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol, ac mae cyfraddau gwahardd yn isel. Dangosir gofal ac ystyriaeth i rai eraill gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ychydig ohonynt yn datblygu'u medrau cymdeithasol ymhellach drwy weithredu fel cyfeillion neu fentoriaid ar gyfer disgyblion iau. Mae disgyblion eraill yn cymryd cyfrifoldeb am ystod o dasgau, gan gynnwys casglu cofrestri a gwerthu cynhyrchion maent wedi'u gwneud yn yr ysgol yn y farchnad leol.

**Ffigur 2.19:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth: Ysgolion arbennig a gynhelir


Mae'r profiad dysgu yn dda mewn pedair ysgol ac yn ddigonol mewn dwy. Darperir profiadau dysgu sy'n ddiddorol, eang a chytbwys gan bob un o'r ysgolion. Gall disgyblion weithio ochr yn ochr â chyfoedion prif ffrwd mewn lleiafrif o ysgolion. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd galwedigaethol mewn darparwyr prif ffrwd sy'n eu helpu i ddatblygu'u hyder, eu hannibyniaeth a'u hunan-barch. Mewn lleiafrif o ysgolion, ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gael profiad yn gysylltiedig â gwaith yn y gymuned, er enghraifft gweini mewn siop goffi a gwneud gwaith ar y safle mewn ysgol leol.

At ei gilydd, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn dda mewn gwersi dynodedig. Fodd bynnag, mae'r cynllunio i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm yn anghyson. Ym mron pob un o'r ysgolion, ceir darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae bron pob un o'r staff yn deall anghenion a galluoedd eu disgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel mewn perthynas â gwaith ac ymddygiad disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae rhediad y dysgu yn addas ac mae gweithgareddau'n cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgwyliadau anghyson gan staff o ran ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn ymgysylltu â gwersi gystal ag y gallent. Mewn ychydig o wersi, nid yw tasgau yn darparu digon o her i ddisgyblion. Yn yr ysgolion hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon bob amser yn dweud yn glir wrth ddisgyblion beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn dda mewn tair ysgol, yn ddigonol mewn un ysgol ac yn anfoddhaol mewn dwy ysgol. Ar draws gweddill y cylch arolygu presennol, mae gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn dda neu'n well mewn llawer o ysgolion arbennig a gynhelir. Yn y tair ysgol lle ceir gofal, cymorth ac arweiniad digonol neu anfoddhaol, mae ansawdd y polisïau ac arferion ar gyfer hyrwyddo e-ddiogelwch yn wael ac mae polisïau allweddol eraill i hyrwyddo a diogelu lles yn anghyflawn. Er enghraifft, mewn un ysgol, nid oes polisi clir nac ymagwedd gytûn at gyflwyno addysg rhyw a pherthnasoedd, a chyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o'r testun pwysig hwn.

**Ffigur 2.20:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion arbennig a gynhelir

Mae arweinyddiaeth yn dda mewn tair ysgol, yn ddigonol mewn dwy ysgol ac yn anfoddhaol mewn un ysgol.

Fel y nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, lle ceir arweinyddiaeth dda, mae arweinwyr yn creu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol y mae pob un o'r staff yn ei deall ac yn credu ynddi. Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd a gyda llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni. Mae llywodraethwyr yn deall gwaith yr ysgol ac mae ganddynt brofiadau amrywiol iawn y maent yn eu defnyddio i gefnogi gwaith yr ysgol.

Ceir systemau effeithiol mewn dwy ysgol ar gyfer arfarnu ansawdd eu gwaith. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio ystod o wybodaeth uniongyrchol, gan gynnwys barnau disgyblion a rheini. Yn yr ysgolion lle nad yw'r arweinyddiaeth yn dda, nid yw rheolwyr yn defnyddio digon o wybodaeth am gynnydd disgyblion i lywio rheoli perfformiad y staff.

Yn yr ysgol lle ceir arweinyddiaeth anfoddhaol, nid yw rolau a chyfrifoldebau'r tîm arweinyddiaeth yn glir ac mae'r cyfathrebu yn yr ysgol yn aneffeithiol. Nid yw arweinwyr yn pennu cyfeiriad strategol clir ac nid yw'r ysgol yn gwybod beth yw ei chryfderau na'u meysydd i'w gwella.

Mae gan bron pob ysgol gysylltiadau sefydledig gydag ystod o bartneriaid, fel yr heddlu, elusennau lleol a cholegau addysg bellach. Mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at fywyd yr ysgol ac yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mewn un ysgol, mae partneriaethau gyda hyfforddwyr chwaraeon yn helpu disgyblion i gael profiad o ystod ehangach o chwaraeon, gan gynnwys saethyddiaeth a jwdo, ac mae disgyblion hŷn yn ennill cymwysterau mewn arweinyddiaeth chwaraeon, gydag ychydig ohonynt yn mynd yn hyfforddwyr yn eu cymuned.


Ym mhob ysgol, mae staff yn cael cyfleoedd addas i gynyddu'u gwybodaeth bynciol a'u dealltwriaeth. Mewn dwy ysgol, mae hyfforddiant wedi'u seilio ar anghenion staff unigol yn unig ac nid yw'n cysylltu â blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae pedair ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion eraill trwy rwydweithiau o arfer broffesiynol. Er enghraifft, mae un ysgol wedi gweithio mewn rhwydwaith i ddatblygu deunyddiau i gefnogi rheoli ymddygiad.

## Rhannu arbenigedd â staff, gofalwyr ac ysgolion

Rhannu arbenigedd â staff, gofalwyr ac ysgolion
**Ysgol Plas Brondyffryn** yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer awtistiaeth yng ngogledd Cymru ac mae'n rhannu ei harbenigedd â rhieni, gofalwyr ac ysgolion a cholegau lleol. Mae strategaeth gynhwysol gan yr ysgol i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r dysgwyr, ac mae'n defnyddio arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.21:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion arbennig a gynhelir

Eleni, mae pedair o'r pum ysgol a gafodd eu rhoi mewn categorïau monitro dilynol y llynedd wedi'u tynnu o gategorïau gweithgarwch dilynol. Roedd angen gwelliant sylweddol ar ddwy ysgol, a gwnaeth un o'r rhain ddigon o gynnydd yn erbyn yr argymhellion. Nid yw'r ysgol arall wedi cael ymweliad dilynol ac mae yn y categori o hyd.







Adran: 2



# Adroddiad sector
# Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2016, roedd 32 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru.  Mae'r ysgolion hyn yn addysgu tua 835 o ddisgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.  Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion.

Agorodd pedair ysgol arbennig annibynnol newydd eleni, a chaeodd pedair ysgol arbennig annibynnol sefydledig. Ym mis Gorffennaf 2016, nid oedd gan dair ysgol unrhyw ddisgyblion, gan nad oedd unrhyw bobl ifanc yn y cartrefi plant cysylltiedig neu am fod y bobl ifanc sy'n byw yn y cartrefi yn mynychu ysgolion y brif ffrwd neu ddarpariaeth addysgol arall.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol, bob 12 i 18 mis fel arfer.  Eleni, fe wnaethom arolygu un ysgol arbennig annibynnol a chynnal ymweliadau monitro ag 16 o ysgolion.

I gael mwy o wybodaeth am yr un ysgol a arolygwyd, darllenwch yr adroddiad arolygu:

**Genus Education**

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau o ysgolion arbennig annibynnol, byddwn yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Llwyddodd yr ysgol a arolygwyd gennym eleni i fodloni pob un o'r safonau.

Ni lwyddodd wyth o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses monitro i fodloni pob un o'r safonau.  Methodd pump ohonynt â chydymffurfio â Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw datganiadau polisi cwricwlwm yn cael eu hategu gan gynllunio a chynlluniau gwaith manwl.  O ganlyniad, mae profiadau dysgu'n rhy gul ac nid ydynt yn bodloni anghenion pob dysgwr.  Methodd tair ysgol â chydymffurfio â Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.  Yn yr ysgolion hyn, mae diffyg cynllunio i helpu disgyblion i werthfawrogi a pharchu eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

Cafodd dwy ysgol a oedd newydd eu cofrestru'r llynedd ymweliadau cofrestru dilynol eleni i fonitro eu bod yn dal i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Bodlonwyd pob un o'r safonau gan un ysgol.  Ni wnaeth yr ysgol arall fodloni pob un o'r safonau a bydd yn cael ymweliad pellach.

# Deilliannau:
# Ysgolion arbennig annibynnol

I weld sylwadau ynglŷn â'r safonau a lles yn yr ysgol a arolygwyd gennym eleni, darllenwch yr adroddiad arolygu ar gyfer Genus Education.

# Darpariaeth:
# Ysgolion arbennig annibynnol

Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r prosesau arolygu a monitro, mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda i fodloni anghenion unigol disgyblion. Gwnânt ddefnydd dychmygus o adnoddau yn eu hardal leol i ehangu'r ystod o brofiadau dysgu ac maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau byw'n annibynnol. Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion a rhyngweithio â nhw.

Mae'r ysgolion ar gyfer disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yr ymwelwyd â nhw yn darparu cymorth arbennig o effeithiol ar gyfer iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys mynediad i wasanaethau meddygol a therapi arbenigol.

Ym mron pob un o'r ysgolion sy'n gysylltiedig â chartrefi plant, mae athrawon ac aelodau o'r tîm gofal yn gweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu dull cyson o reoli ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu hymddygiad a'u presenoldeb dros gyfnod. Mewn ychydig o ysgolion lle nad yw staff yn cymhwyso dulliau rheoli ymddygiad yn gyson, mae ymddygiad a phresenoldeb disgyblion yn destun pryder.

Lle ceir cysylltiadau cryf rhwng athrawon a thîm gofal y cartref plant, mae'r cwricwlwm yn ymestyn y tu hwnt i oriau ysgol i gynnwys ystod o weithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau disgyblion. Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, mae aelodau o'r tîm gofal wedi cwblhau hyfforddiant pellach yn y medrau angenrheidiol i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae ychydig o ysgolion arbennig annibynnol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau addysg bellach lleol. Mae'r partneriaethau hyn wedi helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i ddysgu pellach a chyflogaeth.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Ysgolion arbennig annibynnol

Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses monitro, mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac maent yn ei rhannu'n effeithiol â staff a rhanddeiliaid eraill.

Mae bron pob un o'r ysgolion yn fach iawn a chyfleoedd cyfyngedig a geir i ddysgu gan ddarparwyr eraill. Mae ychydig o ysgolion yn gweithio gyda darparwyr tebyg neu gynghorwyr annibynnol i gael barn allanol ynglŷn â'u gwaith, i gadw'n gyfoes ag arfer orau, ac i wella ansawdd eu hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw gweithgareddau sicrhau ansawdd yn ddigon trwyadl ac nid ydynt yn defnyddio ystod eang o wybodaeth. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth ddigon da gan yr ysgolion hyn o sut gallant wella deilliannau ar gyfer disgyblion.


EVERLAST



# Adroddiad sector
## Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Yn Ionawr 2016, roedd 34 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu ychydig dros 8,000 o ddisgyblion.

Eleni, fe wnaethom arolygu pedair ysgol prif ffrwd annibynnol. Mae tair o'r ysgolion hyn yn ysgolion pob oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion ar draws y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd. Mae'r ysgol arall yn darparu ar gyfer disgyblion hyd at 14 oed yn unig.

I gael mwy o wybodaeth am y pedair ysgol a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadau arolygu:

**Ysgol Steiner Caerdydd**

**Ysgol Eglwys Bresbyteraidd Treléi**

**Ysgol Haberdashers i Ferched, Trefynwy**

**Ysgol Kings Monkton**

# Crynodeb:
## Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Eleni, nodom fod deilliannau ac arfer ragorol gan un ysgol. Mae gan yr ysgol hon raglen medrau dysgu trawsgwricwlaidd nodedig i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion, yn ogystal â'u medrau ymchwilio, datrys problemau a hunanarfarnu ehangach. Ym mhob cyfnod o'r ysgol, cynllunir cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn cyd-destun sy'n benodol i bwnc. Gall disgyblion wedyn drosglwyddo a chymhwyso'r technegau hyn yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, maent yn datblygu'r medrau hyn mewn ystod eang o gyd-destunau ac yn dod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus.

# Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau o ysgolion annibynnol, bydd y tîm arolygu yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Eleni, llwyddodd dwy o'r ysgolion a arolygwyd i fodloni pob un o'r rheoliadau hyn. Yn y ddwy ysgol arall, nodom ddiffygion naill ai mewn un neu ychydig iawn o'r rheoliadau.


Mewn un ysgol, roedd y diffygion yn ymwneud â Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir. Yn yr ysgol arall, roedd y diffygion yn Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Byddwn yn monitro'r ddwy ysgol hon i wneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n ofynnol i gynnal eu cofrestriad.





**Ffigur 2.22:**
Niferoedd yr ysgolion prif ffrwd annibynnol a fodlonodd y rheoliadau / na fodlonodd pob un o'r rheoliadau

1 **Arfer ragorol**
(1 darparwr)



# Deilliannau:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Safonau

Mae safonau'n rhagorol mewn un ysgol a arolygwyd eleni, yn dda mewn dwy ysgol ac yn ddigonol yn yr ysgol arall.

Mae'r ysgol lle ceir safonau rhagorol yn ysgol pob oed lle mae'r disgyblion yn ddysgwyr eithriadol o gymwys ac yn cyflawni deilliannau uchel dros ben ym mhob cyfnod o'u dysgu. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau cyhoeddus yn rhagorol o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion eraill yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol.

Yn yr ysgolion lle ceir safonau da neu well, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cofio'u dysgu blaenorol yn gyflym ac yn gywir, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddatrys problemau ac i ddeall testunau a chysyniadau newydd.


Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, mae gan ddisgyblion fedrau cyfathrebu cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn glir a hyderus ac maent yn gallu esbonio, perswadio, a gofyn cwestiynau i egluro ac ehangu'u dealltwriaeth.

Mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni o leiaf y lefel gynnydd ddisgwyliedig yn eu medrau darllen, ac mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth ac ymgysylltiad cryf â thestunau. Maent yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant cywir. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf hefyd wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn, gydag ychydig iawn ohonynt yn gwneud cynnydd cyflym. Mewn un ysgol, mae medrau darllen disgyblion a safon eu gwaith ysgrifenedig yn amrywio gormod ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu'u medrau rhifedd.


## Lles

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel ym mhob un o'r ysgolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig ym mywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach, ac mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu.

**Ffigur 2.23:**
Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?




**Ffigur 2.24:**
Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae'r ddarpariaeth yn rhagorol mewn un ysgol a arolygwyd eleni, yn dda mewn dwy ysgol ac yn ddigonol yn y llall.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Mewn dwy ysgol pob oed, ceir cysylltiadau da ar draws cyfnodau gwahanol yr ysgol i wneud yn siŵr bod profiadau disgyblion yn adeiladu'n effeithiol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Yn yr ysgol pob oed arall, nid yw'r cynllunio'n ddigon manwl mewn ychydig o bynciau.

Mae un ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol o ansawdd uchel sy'n cyfoethogi profiadau dysgu pob un o'r disgyblion yn sylweddol. Yn yr ysgolion eraill, cynigir ystod fwy cyfyngedig o gyfleoedd allgyrsiol.

Mewn un ysgol a arolygwyd, mae disgyblion yn elwa ar raglen effeithiol iawn i ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau dysgu annibynnol ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion eraill, mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn llai datblygedig.

Mae'r addysgu yn dda neu'n well mewn tair ysgol ac yn ddigonol yn y llall. Lle ceir addysgu rhagorol, y rheswm am hyn yn aml yw bod gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda iawn. Mae athrawon yn creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol gadarn i herio ac ysgogi sut mae disgyblion yn meddwl.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae dealltwriaeth glir gan lawer o athrawon o gryfderau eu disgyblion a meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn eu galluogi i ymateb yn arbennig o dda i'w hanghenion dysgu unigol. Mae diffygion yn yr addysgu mewn ychydig o wersi mewn dwy ysgol a lleiafrif o wersi mewn ysgol arall. Mae'r diffygion yn codi fel arfer am fod disgwyliadau'n rhy isel, am fod rhediad y dysgu'n rhy araf ac nid yw gweithgareddau'n cyfateb i anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol.

Dim ond dwy o'r pedair ysgol sydd â threfniadau systematig wedi'u rheoli'n dda i fonitro cynnydd disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn nodi'n rheolaidd p'un a oes angen cymorth ychwanegol neu weithgareddau ymestyn ar ddisgyblion, a chymerant gamau dilynol priodol i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'u potensial llawn.

Ceir trefniadau effeithiol iawn mewn dwy ysgol i gefnogi lles disgyblion, ac mae hyn yn gwneud cyfraniad cryf at godi safonau. Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicr o leiaf, ac mae un ysgol yn darparu cymorth eithriadol o werthfawr.


Mae ymdeimlad cryf o gymuned ac ethos anogol ym mhob ysgol, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at hyder a lles disgyblion.

## Gwella medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm

Mae'r rhaglen medrau dysgu trawsgwricwlaidd yn **Ysgol Haberdashers i Ferched** yn Nhrefynwy yn datblygu medrau dysgu craidd disgyblion yn llwyddiannus. Ym mhob cyfnod o'r ysgol, ceir trefniadau ar gyfer adeiladu technegau dysgu y mae disgyblion yn gallu eu trosglwyddo a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, i ddatblygu arferion astudio effeithiol, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn dilyn rhaglen 'dysgu i ddysgu' sy'n canolbwyntio ar destunau fel arddulliau dysgu, deallusrwydd lluosog a sut mae eu hymennydd yn gweithio.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.25:**
Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol mewn un ysgol, yn dda mewn dwy ysgol ac yn ddigonol yn yr ysgol arall.

Yn yr ysgol lle barnwyd bod yr arweinyddiaeth yn rhagorol, mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir ac yn hyrwyddo disgwyliadau uchel yn holl feysydd gwaith yr ysgol. Ar draws yr ysgol, ceir ffocws cadarn ar wella, sy'n cael ei danategu gan ymdeimlad cyffredin o bwrpas ac ymrwymiad i weledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau rhagorol y mae disgyblion yn eu cyflawni, eu lefelau ymgysylltiad uchel a'u hagweddau cadarnhaol at bob agwedd ar eu bywyd ysgol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r corff llywodraethol, y perchennog neu'r ymddiriedolwyr yn darparu cyfeiriad clir a chefnogaeth werthfawr i waith eu hysgol.


Yn yr ysgol lle barnwyd bod yr arweinyddiaeth yn ddigonol, nid yw'r trefniadau ar gyfer adolygu meysydd pwysig o waith yr ysgol yn gadarn ac nid yw targedau staff unigol ar gyfer gwella yn ddigon penodol. Er enghraifft, nid yw diffygion pwysig mewn lleiafrif o wersi'n cael eu nodi, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn cyflawni'r safonau y gallent eu cyflawni.

Yn yr ysgol lle mae gwella ansawdd yn rhagorol, mae pwyslais cryf ar drylwyrder hunanarfarnu a gweithredu ar ddeilliannau er mwyn ysgogi gwelliant. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i wella ansawdd yn gadarn mewn dwy o'r ysgolion, yn bennaf am nad yw gweithgareddau hunanarfarnu yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigon da i lunio barnau cywir ynglŷn ag ansawdd gwaith yr ysgol. Yn benodol, nid yw tystiolaeth o arsylwadau gwersi yn cael ei defnyddio i arfarnu effaith yr addysgu ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae holl drefniadau'r ysgol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n well. Mae disgyblion yn elwa ar y cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned leol i wella'r cwricwlwm ffurfiol a'r ddarpariaeth allgyrsiol. Ym mhob un o'r ysgolion, mae partneriaethau â rhieni a gwarcheidwaid yn arbennig o gryf.

Ceir trefniadau da neu well mewn tair ysgol ar gyfer rheoli adnoddau, ac mae trefniadau digonol yn yr ysgol arall.

**Ffigur 2.26:**
Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Adran: 2



# Adroddiad sector:
Colegau arbenigol annibynnol

Eleni, roedd chwech o golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 220 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o golegau arbenigol annibynnol. Eleni, fe wnaethom arolygu un coleg arbenigol annibynnol a chynnal dau ymweliad monitro blynyddol.

Eleni, cynhaliom arolwg thematig ar draws y chwe choleg arbenigol hefyd. Diben yr arolwg hwn oedd arfarnu pa mor dda y mae colegau arbenigol annibynnol yn mesur y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud a'r graddau y mae dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael y coleg.

I gael mwy o wybodaeth am y coleg a arolygwyd, darllenwch yr adroddiad arolygu:

**Coleg Priory Gogledd Cymru**

Mae ein harolwg thematig, **Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol**, yn rhoi mwy o wybodaeth am y sector hwn.

# Deilliannau:
# Colegau arbenigol annibynnol

Darllenwch yr adroddiad arolygu ar gyfer Coleg Priory Gogledd Cymru i gael sylwadau ynglŷn â'r safonau a'r lles yn y coleg a arolygwyd gennym eleni.

# Darpariaeth:
# Colegau arbenigol annibynnol

Mae'r rhan fwyaf o golegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o waith arolygu, monitro neu'r arolwg thematig yn cynllunio rhaglenni dysgu wedi'u teilwra i fodloni anghenion a diddordebau dysgwyr unigol. Yn y colegau hyn, mae bron pob un o'r rhaglenni dysgu yn darparu ystod addas o ddysgu ffurfiol a gweithgareddau anffurfiol sydd â ffocws clir ar ddatblygu annibyniaeth a medrau bywyd dysgwyr.

Yn hanner y colegau, mae medrau llythrennedd a rhifedd yn cael eu datblygu'n dda iawn ar draws yr ystod lawn o wersi. Yn y colegau hyn, mae dealltwriaeth glir gan yr holl athrawon o dargedau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, ac maent yn cynllunio'n dda iawn i gynnwys gweithgareddau ymarferol yn eu haddysgu a fydd yn cefnogi cyflawni'r targedau hyn.

Mewn dau o'r colegau, mae dealltwriaeth drwyadl o dargedau dysgwyr gan bob un o'r staff, ac maent yn defnyddio'r targedau hyn fel blaenoriaeth wrth gynllunio'u dulliau a'u strategaethau addysgu. Mae athrawon a staff cymorth yn adolygu'r targedau hyn yn gyson i wneud yn siŵr eu bod yn berthnasol ac yn gyfoes. Mewn lleiafrif o wersi yn y colegau eraill, fodd bynnag, nid yw'r gwaith a gynlluniwyd yn adlewyrchu deilliannau asesiadau cychwynnol a thargedau dysgwyr yn addas.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Colegau arbenigol annibynnol

Mae pedwar o'r colegau yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio ystod addas o ddata i fesur cynnydd dysgwyr. Maent yn cipio data'n effeithiol i fesur cynnydd dysgwyr mewn medrau fel llythrennedd, rhifedd a TGCh, yn ogystal â chyflawniadau dysgwyr mewn cymwysterau ac unedau credyd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda fel rhan o'u prosesau hunanarfarnu parhaus. Mewn un coleg, nid yw'r gwaith o bennu targedau a chasglu data wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn golygu nad yw'r coleg yn gallu dadansoddi ystod o ddata ar gynnydd, cyflawniadau a deilliannau dysgwyr i lywio cynllunio gwelliant. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn arfarnu'n gywir faint o gynnydd mae dysgwyr yn ei wneud dros gyfnod mewn perthynas â'u hanghenion neu'u galluoedd.

Mae'r ddau goleg yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro reolaidd wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion a nodwyd yn ystod eu harolygiad yn 2014. Er enghraifft, cyflwynodd un o'r colegau system ar-lein yn ddiweddar i olrhain cynnydd dysgwyr unigol. Mae hyn yn galluogi staff i weld ar amrantiad pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud ar draws y cwricwlwm, er mwyn rhoi canmoliaeth ac i ymyrryd, lle bo angen.





# Adroddiad sector
## Unedau cyfeirio disgyblion

Yn Ionawr 2016, roedd 25 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) cofrestredig yng Nghymru, yn addysgu rhyw 730 o ddisgyblion. Mae hyn dair UCD yn llai na'r unedau a oedd wedi'u cofrestru y llynedd. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw datblygu UCDau 'portffolio', lle mae nifer o UCDau a oedd ar wahân yn flaenorol wedi cau, ac mae UCD newydd, ar sawl safle yn aml, yn agor o dan un pwyllgor rheoli.

Mae UCDau yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion nad ydynt yn addas ar gyfer addysg yn ysgolion y brif ffrwd neu sydd wedi'u gwahardd ohonynt. Mae'r disgyblion hyn yn cynnwys y rheini ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, y rhai â materion iechyd meddwl, a mamau ifanc.

Eleni, fe wnaethom arolygu pedair UCD. Roedd dau neu fwy o safleoedd gan bob un o'r UCDau a arolygwyd, ac roeddent wedi cael eu had-drefnu yn ddiweddar.

I gael mwy o wybodaeth am y pedair UCD a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadau arolygu:

**Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gâr**

**Hafan Dyfodol Disglair**

**Uned Cyfeirio Disgyblion Powys**


**Gwasanaethau Cyfeirio Disgyblion Wrecsam**

# Crynodeb:
## Unedau cyfeirio disgyblion

Ni nodwyd bod arfer ragorol yn unrhyw un o'r UCDau eleni. Rhoddodd arolygwyr bob un o'r pedair UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Roedd angen gwelliant sylweddol ar dair uned, ac roedd angen gweithredu mesurau arbennig mewn un uned.

Mae gwendidau sylweddol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob un o'r UCDau hyn, ond nid yw awdurdodau lleol yn darparu digon o gymorth iddynt, ac nid yw eu pwyllgorau rheoli yn cynnig digon o her. Nid yw hunanarfarnu a rheoli perfformiad staff wedi'u datblygu'n ddigonol, ac nid yw'r UCDau yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, ceir bylchau pwysig yn y cwricwlwm ac mae ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol. Ar draws y pedair UCD, nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn mynychu'n dda nac yn ymddwyn yn dda.

**Ffigur 2.27:**
Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion mewn lefelau gweithgarwch dilynol



# Deilliannau: Unedau cyfeirio disgyblion

## Safonau

Mae safonau'n ddigonol ym mhob un o'r UCDau a arolygwyd gennym eleni. Mae hyn yn waeth na'r norm ar draws y cylch arolygu yn gyffredinol, lle mae safonau'n dda neu'n well mewn ychydig o dan hanner yr UCDau.

Ym mhob un o'r pedair UCD, mae mwyafrif y disgyblion yn ennill ystod o gymwysterau priodol ac yn symud ymlaen i'r coleg neu hyfforddiant pellach. Mewn tair o'r pedair UCDau, mae ychydig o ddisgyblion yn gadael heb ennill unrhyw gymwysterau. Nid yw lleiafrif yn symud ymlaen i'r coleg, hyfforddiant pellach na chyflogaeth.

Er bod mwyafrif y disgyblion ar draws pob un o'r pedair UCDau yn gwella eu medrau llythrennedd dros gyfnod, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd addas. Nid yw'r disgyblion hyn yn datblygu'u medrau darllen neu ysgrifennu'n ddigon da ac maent yn gwneud gormod o gamgymeriadau sillafu cyffredin. Maent yn defnyddio atebion un gair a geirfa gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn gwersi mathemateg dynodedig. Ar draws yr UCDau, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm nac yn eu cymhwyso i fywyd bob dydd.


Mae safonau mewn TGCh yn anghyson. Mewn dwy UCD, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o TGCh i gynorthwyo a chyflwyno'u gwaith. Yn y ddwy UCD arall, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu'u medrau TGCh yn ddigon da. Er enghraifft, ychydig o ddefnydd o TGCh a wnânt i ymchwilio i'r testunau y maent yn eu hastudio.

## Lles


Mewn dwy o'r pedair UCD a arolygwyd, mae lles disgyblion yn ddigonol. Mae lles yn anfoddhaol yn y ddwy UCD arall. Mae hyn yn waeth nag ar draws y cylch arolygu yn gyffredinol. Ar draws pob un o'r UCDau, nid yw lleiafrif arwyddocaol o ddisgyblion yn mynychu'n rheolaidd nac yn ymddwyn yn dda. Maent yn cyrraedd yn hwyr, yn tarfu ar wersi ac nid ydynt yn dilyn cyfarwyddiadau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn eu UCD, ac maent o'r farn fod staff yn eu trin â pharch. Mewn dwy o'r pedair UCD, mae disgyblion yn deall yr angen i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff. Yn y ddwy UCD arall, mae llawer o ddisgyblion yn ysmygu ac yn prynu bwyd a diodydd afiach gerllaw'r safle.

Mae tair o'r pedair UCD yn cynnwys disgyblion mewn digwyddiadau cymunedol fel codi arian at elusen. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd. Mewn dwy UCD, caiff disgyblion eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â gwella gwaith yr UCD. Yn y ddwy UCD arall, nid yw disgyblion yn rhoi eu barnau'n rheolaidd. Mewn un UCD, nid yw uwch reolwyr yn cydnabod awgrymiadau disgyblion.

**Ffigur 2.28:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?




**Ffigur 2.29:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth: Unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r ddarpariaeth yn ddigonol mewn tair o'r pedair UCD a arolygwyd eleni. Yn yr UCD arall, mae'r ddarpariaeth yn anfoddhaol. Mae hyn hefyd yn waeth nag ar gyfer y cylch o arolygiadau yn gyffredinol, lle mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig o dan hanner yr UCDau a arolygwyd.

Mae pob un o'r pedair UCD yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau ac i gael profi gweithgareddau awyr agored ac ymweliadau addysgol. Fodd bynnag, mae gwendidau pwysig yn y cwricwlwm ar draws y pedair UCD. Ceir mynediad anghyfartal i bynciau ar safleoedd gwahanol, ac mewn un UCD, nid yw disgyblion yn cael cyfle i orffen cyrsiau a ddechreuwyd ganddynt yn eu hysgolion. Nid yw hanner yr UCDau yn addysgu unrhyw wyddoniaeth. Mewn un UCD, nid yw disgyblion sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn flaenorol yn gallu parhau i ddatblygu'u medrau llythrennedd Cymraeg nac ennill cymwysterau yn Gymraeg ar lefel briodol.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd mewn tair UCD yn ddigon da. Nid yw'r UCD arall yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion.

Mae'r addysgu'n ddigonol mewn tair UCD ac yn anfoddhaol yn y llall. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i fodloni anghenion y disgyblion. Maent yn gosod ystod eang o dasgau diddorol ac y disgwyl i ddisgyblion ymddwyn yn dda. Mewn lleiafrif o wersi mewn tair UCDau ac mewn mwyafrif o wersi yn y llall, nid yw'r addysgu yn effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae disgwyliadau isel gan athrawon ac nid ydynt yn rheoli ymddygiad yn dda.

Ar draws y pedair UCD, nid yw disgyblion yn cael digon o adborth ysgrifenedig ar sut i wella eu gwaith. Nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i asesu eu gwaith na gwaith disgyblion eraill.


Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn ddigonol mewn tair UCD ac yn anfoddhaol yn y llall. Ym mhob un o'r pedair UCD, caiff disgyblion eu hannog i feddwl am eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain a rhai eraill. Fodd bynnag, nid yw tair UCD yn darparu gweithred ddyddiol o gyd-addoli. Ym mhob un o'r UCDau, mae disgyblion sy'n agored i niwed yn cael help gyda materion sy'n peri pryder iddynt. Nid yw'r trefniadau ar gyfer diogelu ym mhob un o'r pedair UCD yn bodloni'r gofynion yn llawn. Er enghraifft, mewn tair UCD, roedd pryderon ynglŷn â goruchwylio disgyblion a diogelwch y safle.

Mae tair o'r pedair UCD yn cymryd gofal i nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac yn rhoi cymorth ychwanegol iddynt. Mewn dwy UCD, nid yw targedau disgyblion yn ddigon heriol nac yn ddigon penodol.

Mae gan bob un o'r pedair UCD bolisïau ymddygiad addas sy'n cwmpasu gwrth-fwlio. Fodd bynnag, nid yw staff yn dilyn y polisïau hyn yn gyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn ymddwyn gystal ag y gallent. Mewn un UCD, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gosod system wobrwyo ac mae hyn yn helpu i wella eu hymddygiad a'u cymhelliant.

Ceir ethos gofalgar ym mhob un o'r UCDau. Fodd bynnag, dim ond mewn dwy UCD y ceir amgylchedd dysgu da. Yn y ddwy UCD arall, mae'r amgylchedd yn ddigonol neu'n anfoddhaol am nad yw'r adeiladau yn addas i'r diben, lle cyfyngedig a geir tu allan, ac mae'r adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael.

**Ffigur 2.30:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol mewn dwy UCD ac yn anfoddhaol yn y ddwy arall.

Mae llawer iawn o newid wedi digwydd ym mhob un o'r pedair UCD cyn eu harolygiad. Trefniadau dros dro sydd ynddynt ar gyfer rheoli. Yn aml, mae staff yn aneglur ynglŷn â disgwyliadau rheolwyr neu eu cyfrifoldebau eu hunain. Mae'r newidiadau hyn a'r ansicrwydd yn golygu nad yw arweinwyr a rheolwyr yn canolbwyntio digon ar wella safonau ac addysgu.

Ym mhob un o'r pedair UCD, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod yr UCD yn llwyddiannus. Er enghraifft, nid ydynt yn monitro ansawdd gwaith yr UCD. Nid ydynt yn darparu cwrs sefydlu ar gyfer yr athro newydd â gofal, yn rhoi cymorth technegol nac yn gwneud yn siŵr bod perfformiad staff yn ddigon da.

Nid yw pwyllgorau rheoli yn herio rheolwyr yn gadarn. Nid ydynt yn gwneud yn siŵr bod deilliannau'n dda ar gyfer y disgyblion nac yn gwirio bod ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well.

Nid yw perfformiad staff yn cael ei reoli'n dda yn unrhyw un o'r pedair UCD. Er bod trefniadau rheoli perfformiad mewn dwy UCD, nid yw hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Nid oes digon o graffu ar waith disgyblion na chynllunio athrawon. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn gwybod pa mor dda mae staff a disgyblion yn gwneud.


Mae gwella ansawdd yn anfoddhaol ym mhob un o'r pedair UCD. Nid yw'r adroddiadau hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylion am ba mor dda mae disgyblion yn cyflawni na pha mor dda yw'r addysgu. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r UCDau gynllunio gwelliannau.

Nid yw'r un o'r pedair UCD yn defnyddio data'n drwyadl i ganfod pa mor dda maent yn perfformio. Dim ond dwy o'r pedair UCD sy'n olrhain cynnydd disgyblion yn dda, ac yn un o'r UCD hyn, mae'r gwaith hwn yn ddiweddar iawn. Lle mae UCDau yn defnyddio asiantaethau allanol, nid ydynt yn gwneud yn siŵr bod eu gwaith gyda disgyblion o ansawdd da.

Mae pob un o'r pedair UCD yn gwneud defnydd da o ystod eang o bartneriaid yn y gymuned i ddarparu cyngor amserol i ddisgyblion. Mae dwy o'r UCDau wedi meithrin cysylltiadau effeithiol gyda sefydliadau addysg bellach lleol i wella cyfleoedd a helpu cynllunio ar gyfer dilyniant.

Mae rheolaeth ar adnoddau yn ddigonol mewn tair UCD ac yn anfoddhaol yn y llall. Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau addas. Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn cael yr hyfforddiant y mae ei angen arnynt i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel llythrennedd a rhifedd.

**Ffigur 2.31:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



# Gweithgarwch dilynol: Unedau cyfeirio disgyblion

Nododd Estyn fod angen monitro gan Estyn ar ddwy o'r tair UCD a arolygwyd y llynedd, ac ni roddwyd unrhyw UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol.  Eleni, ymwelom â'r ddwy UCD yn y categori monitro gan Estyn, ac roeddent wedi gwneud digon o gynnydd i gael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Gweithredodd y ddwy UCD yn gyflym i fynd i'r afael ag argymhellion.  Er enghraifft, gwnaeth un UCD gynnydd cadarn iawn o ran ei defnydd o ddata.  O ganlyniad, mae wedi gwella olrhain cynnydd disgyblion.  Erbyn hyn, mae'r UCD yn nodi pa ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u gwaith a'u presenoldeb, a lle mae angen hyfforddiant staff ychwanegol. Mae'r ddwy UCD wedi gwella eu rheolaeth ar berfformiad staff. Mae rheolwyr yn edrych ar wersi a gwaith disgyblion yn rheolaidd. Bellach, maent yn nodi lle nad yw'r addysgu yn dda ac yn rhoi cymorth lle bo angen.



# Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Roedd cylch diwethaf Estyn o arolygiadau craidd o awdurdodau lleol yn rhedeg o 2010 i 2014. Yn sgil pryderon a godwyd yn ystod yr arolygiadau hyn, fe wnaeth Estyn fonitro cynnydd 15 o'r 22 o awdurdodau. Cafodd yr awdurdod olaf ei dynnu o'r broses fonitro hon ar ddechrau 2016. Eleni, fe wnaeth Estyn hefyd arolygu'r pedwar consortiwm rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran y 22 awdurdod.

## Consortia rhanbarthol

Yn Ionawr 2016, roedd cyfanswm o 1,574 o ysgolion a gynhelir yn cael eu gwasanaethu gan awdurdodau lleol. Roedd 432 o ysgolion yng nghonsortiwm Gogledd Cymru (GwE), 504 yng nghonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW), 396 yng nghonsortiwm De Cymru (CCD), a 242 yng nghonsortiwm De Ddwyrain Cymru (GCA).

Mae pob consortiwm rhanbarthol yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran pump neu chwe awdurdod lleol yn unol â model cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio rhanbarthol (2015a). Fe wnaethom arolygu pob un o'r pedwar consortiwm rhwng Chwefror a Mehefin 2016, gyda chymorth gan arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru. Yn yr arolygiadau hyn, fe wnaethom arfarnu'r cymorth a ddarperir ar gyfer gwella ysgolion a phedair agwedd ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

## Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

Mae dau o'r consortia rhanbarthol yn darparu cymorth da ar gyfer gwella ysgolion, ac mae'r ddau arall yn darparu cymorth digonol.

Mae'r consortia rhanbarthol yn adnabod y rhan fwyaf o'u hysgolion yn dda ac yn categoreiddio ysgolion yn briodol. Yn gyffredinol, mae consortia yn herio ysgolion yn gadarn o ran eu perfformiad, eu darpariaeth a'u harweinyddiaeth. Mae'r adroddiadau y maent yn eu paratoi ar y rhan fwyaf o ysgolion, ar ran awdurdodau lleol cyn arolygiadau neu ymweliadau monitro, yn darparu golwg ddefnyddiol a chywir yn gyffredinol o berfformiad, darpariaeth ac arweinyddiaeth.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r consortia wedi gwella eu gwybodaeth ynglŷn â ble ceir arfer dda mewn ysgolion, ac maent hefyd wedi gwella pa mor dda maent yn rhannu'r arfer hon yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae gan bob un o'r consortia ystod o wybodaeth werthfawr am eu hysgolion, er eu bod yn amrywio o ran pa mor dda y maent yn dadansoddi ac yn defnyddio data. Er enghraifft, yn aml ceir ffocws rhy gul ar brif ddangosyddion perfformiad, heb ddadansoddiad manwl o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y perfformiad cyffredinol hwn neu at wahaniaethau mewn perfformiad grwpiau o ddisgyblion. Yn benodol, nid yw'r consortia wedi canolbwyntio digon ar gynnydd dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr mwy abl.

Mae'r consortia yn datblygu strategaethau mwy effeithiol ar gyfer herio, cynorthwyo a monitro ysgolion sy'n peri pryder. Er bod consortia fel arfer yn darparu gwybodaeth gadarn i awdurdodau lleol am ysgolion sy'n peri pryder, nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gweithredu ar y wybodaeth hon drwy ddefnyddio'u pwerau ymyrryd. Mae hyn yn cyfyngu i ba raddau y gall y consortia helpu ysgolion i wella. Hefyd, lle mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol fel ad-drefnu ysgolion neu adnoddau dynol yn aneffeithiol, gall hyn rwystro cynnydd ysgol, hyd yn oed os yw'r consortiwm yn darparu gwasanaeth gwella ysgolion da.

I gael mwy o wybodaeth am yr arolygiadau o'r consortia rhanbarthol, darllenwch adroddiadau arolygu:

**Consortiwm Canolbarth y De (CCD)**

**Consortiwm GCA**

**Consortiwm ERW**

**Consortiwm GwE**

Mae pob un o'r pedwar consortiwm yn cynnig cymorth uniongyrchol i ysgolion ar gyfer meysydd y cwricwlwm craidd fel Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg. Mae bob un ohonynt wedi cryfhau eu cymorth i lywodraethwyr. Maent yn datblygu rhaglenni addas i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon, cynorthwywyr addysgu ac arweinwyr. Mae tri o'r consortia yn darparu cymorth da ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae ansawdd y cymorth i ysgolion wedi gwella ers i'r consortia gychwyn, ac mae'r cydbwysedd rhwng rôl cynorthwyo a herio'r consortia wedi gwella hefyd.

Mae mwy o gymorth i ysgolion yn cael ei ddarparu gan ysgolion eraill erbyn hyn, wedi'i frocera gan y consortia. Mae'r cymorth hwn o ysgol i ysgol yn helpu meithrin gallu yn y system addysg. Er enghraifft, mae consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS) wedi nodi grŵp o ysgolion lle ceir arfer arbennig o gadarn o ran addysgu a dysgu mewn mathemateg. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio fel hybiau i ddarparu cymorth effeithiol o ysgol i ysgol ar gyfer eu cymheiriaid. Fodd bynnag, nid yw gwaith rhwng ysgolion yn cael ei fonitro'n ddigon gofalus gan y consortia ledled Cymru i arfarnu p'un a yw'r cymorth yn cael effaith gadarnhaol ar wella ysgolion.





# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol gan dri o'r pedwar consortia. Mae gan y consortia hyn weledigaethau, strwythurau a strategaethau clir y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu deall. Mae gan gonsortiwm De Cymru (CSC) weledigaeth glir sydd wedi'i diffinio'n dda ar gyfer eu model ysgolion hunanwella. Mae'r weledigaeth wedi'i chyfleu'n effeithiol drwy adroddiadau rheolaidd, cylchlythyrau, sesiynau briffio wyneb yn wyneb a gwefan y consortiwm. Mae hyn wedi arwain at lefel uchel o ymrwymiad gan yr holl randdeiliaid.

Mae cynlluniau tymor canolig ar waith gan bob un o'r pedwar consortiwm, ac maent yn defnyddio prosesau hunanarfarnu teg a defnyddiol i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae ansawdd cynlluniau blynyddol yn amrywiol; nid yw camau gweithredu yn cynnwys digon o ffocws i fodloni anghenion penodol ysgolion yn y rhanbarth ac nid yw meini prawf arfarnu addas yn cael eu nodi yn y cyfnod cynllunio. O ganlyniad, mae'r gwaith o arfarnu gwasanaethau gwella ysgolion yn parhau yn faes allweddol i'w wella. Dim ond un consortiwm sydd wedi gwneud cynnydd da o ran y modd y mae'n arfarnu gwerth am arian ei wasanaethau.

Mae pob consortiwm wedi gwella cysylltiadau gyda gwasanaethau addysg eraill mewn awdurdodau lleol, fel gwasanaethau i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, ceir dull cydlynol o gydlynu gwasanaethau ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru, ac mae hyn wedi gwella trefniadau i ddisgyblion wrth iddynt symud rhwng ysgolion.

Mae'r consortia wedi datblygu partneriaethau defnyddiol gyda sefydliadau addysg uwch i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon ac arweinwyr ysgol, er bod llawer o'r gwaith hwn yn ddiweddar. Er enghraifft, mae consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) wedi gweithio'n dda gyda sefydliad addysg uwch lleol i ddylunio cwrs achrededig, arloesol ar gyfer athrawon â chymwysterau addas i ail-hyfforddi i ddod yn athrawon mathemateg uwchradd, gan fod ysgolion yn y rhanbarth hwn yn cael anawsterau yn recriwtio athrawon mathemateg.

Yn Ionawr 2016, cyflwynom arolwg o ganfyddiad darparwyr ar gyfer yr holl benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol ledled Cymru. Gwnaed hyn i lywio ein gwaith arolygu gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Mae canfyddiadau o'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o benaethiaid yn cytuno eu bod yn cael eu herio'n gadarn gan eu consortiwm ynglŷn â'u perfformiad. Mae llawer o benaethiaid o'r farn fod eu hymgynghorydd her yn adnabod eu hysgolion yn dda, a chred mwyafrif fod eu consortiwm yn effeithiol o ran eu helpu i gynllunio ar gyfer gwelliant yn eu hysgol. Fodd bynnag, llai na hanner y penaethiaid sydd o'r farn fod eu consortiwm yn rhoi ystyriaeth dda i'w barnau. At ei gilydd, roedd cadeiryddion cyrff llywodraethol ychydig yn llai cadarnhaol na phenaethiaid yn eu hymatebion.

### Arfarnu effaith gwasanaethau gwella ysgolion

Mae'r **Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)** yn defnyddio model o'r enw 'FADE' i wella ansawdd hunanarfarnu ei wasanaethau gwella ysgolion. Mae'r priflythrennau yn sefyll am 'Focus, Analyse, Do, Evaluate'. Mae FADE yn cynnig offeryn gwerthfawr i arfarnu gweithgareddau neu themâu o'r cynllun busnes ar bwyntiau interim trwy gydol y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar effaith a chynnydd y gwaith.

Mae'r model yn mynnu bod y rheiny sy'n arwain gwaith gwella ysgolion yn glir ymlaen llaw ynglŷn ag effaith arfaethedig y gwaith a gynlluniwyd ganddynt. Mae'r arweinwyr hyn yn gwbl bendant ynglŷn â'r mater penodol y maent yn mynd i'r afael ag ef gydag ysgol, neu grŵp o ysgolion, a pha gamau y maent yn credu fydd yn gwella perfformiad. Mae'n ofynnol iddynt wedyn fonitro cynnydd ac ystyried a yw'r effaith arfaethedig yn cael ei chyflawni neu beidio. O ganlyniad, mae dealltwriaeth well gan ysgolion o ddiben cymorth neu ymyrraeth a gânt, a disgwyliadau cliriach o welliannau a ragwelir.

Mae model FADE yn darparu ymagwedd systematig at atebolrwydd. Mae uwch arweinwyr yn dwyn yr arweinwyr gwella ysgolion i gyfrif ar adegau wedi'u cynllunio trwy gydol y flwyddyn am effaith eu camau gweithredu ac nid cyflawni camau gweithredu'n unig. Mae defnyddio'r dull hwn yn galluogi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i addasu cymorth neu ymyrraeth gydag ysgolion mewn modd mwy ymatebol. Mae'r dull hwn yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant o welliant parhaus yn y sefydliad cyfan.

# Gweithgarwch arolygu arall yn ymwneud ag awdurdodau lleol

Eleni, fe wnaethom ymateb i 51 o gynigion i ad-drefnu ysgolion gan 20 o awdurdodau lleol. O'r 51 o gynigion, daethom i'r casgliad fod dau yn debygol o wella deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr, a bod 45 arall yn debygol o leiaf o gynnal y deilliannau a'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgwyr. Cefnogwyd y 47 o gynigion hyn gan dystiolaeth gref a chynlluniau cadarn. Ni wnaeth dau gynnig ddarparu digon o wybodaeth i ni lunio barn. Daethom i'r casgliad fod dau gynnig arall yn annhebygol o wella'r deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr. Mae diffyg manylder yn y cynigion gwannach ac maent yn cynnwys haeriadau nad ydynt yn cael eu cefnogi gan gynlluniau cadarn, sy'n ein harwain i gasglu eu bod yn annhebygol o wella deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu heffeithio.

Mae arolygwyr cyswllt Estyn yn cyfarfod yn rheolaidd gydag uwch arweinwyr a rheolwyr pob awdurdod lleol, ac yn herio'r awdurdod ynglŷn â pherfformiad ei wasanaethau addysg a pha mor dda y mae'n cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arolygwyr cyswllt yn cysylltu ag arolygiaethau eraill a rheoleiddwyr i rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i arweinyddiaeth a llywodraethiant ehangach awdurdodau lleol.

Mae gwaith arolygon thematig Estyn yn ystyried gwaith awdurdodau lleol mewn meysydd penodol. Mae adroddiadau'r arolygon hyn yn llywio polisi cenedlaethol ac yn cefnogi gwelliant mewn gwasanaethau addysg. Wedi i adroddiadau gael eu cyhoeddi, mae arolygwyr cyswllt yn herio awdurdodau lleol i sicrhau bod y prif ganfyddiadau'n cael eu hystyried ac i wirio bod awdurdodau yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Er enghraifft, mae arolygwyr cyswllt wrthi'n herio awdurdodau lleol ar hyn o bryd ynglŷn â'r prif negeseuon yn adroddiadau Estyn ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol) (Estyn, 2016d) a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Estyn 2016i). Yn benodol, mae arolygwyr cyswllt yn herio awdurdodau ynglŷn â pha mor dda maent yn monitro ansawdd pob darpariaeth amgen a ddarperir neu a gomisiynir ar gyfer disgyblion yn eu hawdurdod lleol. Maent hefyd yn gwirio bod awdurdodau yn arfarnu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn nodi unrhyw fylchau.

Mae Estyn yn datblygu cynlluniau ar gyfer cylch newydd o arolygiadau o awdurdodau lleol o'r hydref 2018, gydag arolygiadau peilot yn dechrau ar ddiwedd 2017. Byddwn yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol yn ystod 2017 i lywio'r cynlluniau hyn ac ystyried unrhyw ddiwygio i lywodraeth leol y gall Llywodraeth Cymru ei gyflwyno. Fel rhan o'r gwaith datblygu, mae Estyn yn cynnal peilot o'r defnydd o 'gynadleddau gwella' yn ystod 2016-2017. Bydd cynhadledd wella, a hwylusir gan Estyn, yn dod ag uwch arweinwyr a rheolwyr at ei gilydd o awdurdod lleol i ystyried unrhyw bryderon ynglŷn â pherfformiad presennol mewn gwasanaethau addysg ac i gryfhau cynlluniau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Byddwn yn arfarnu effeithiolrwydd y dull hwn ar ddiwedd y cyfnod peilota. Byddwn wedyn yn ystyried p'un ai i adeiladu ar y gwaith peilot hwn wrth gynllunio ein cymorth i unrhyw awdurdodau lleol y nodir eu bod yn peri pryder yn y cylch arolygu newydd.

### Siarter ar gyfer y Gymraeg

Mae 'Siarter Iaith Gymraeg' **Cyngor Sir Gwynedd** yn fframwaith a ddefnyddir i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn cyd-destunau cymdeithasol. Mae'r Siarter yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y gymuned ysgol gyfan, gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr, wrth nodi, cytuno a mapio'r camau datblygu a'r strategaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol.

Datblygwyd y fframwaith yn y lle cyntaf tua thair blynedd yn ôl, ac ers hynny cafodd ei roi ar waith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Eleni, mae'r fframwaith yn cael ei gyflwyno mewn awdurdodau lleol ledled Cymru trwy gonsortia rhanbarthol.

Yn ystod y broses gychwynnol mae disgyblion Blwyddyn 3-6 yn llenwi holiadur ar-lein yn rhoi manylion ynglŷn â'u defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, ar yr iard chwarae a thu allan i'r ysgol. Mae'r holiadur hefyd yn gofyn am farnau disgyblion ynglŷn â'u hagweddau tuag at y Gymraeg. Mae'r data'n rhoi gwaelodlin sy'n galluogi ysgolion i nodi'r agweddau y mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt, a datblygir y rhain wedyn yn flaenoriaethau ar gyfer eu cynlluniau gweithredu. Mae disgyblion yn ailadrodd yr holiadur tua blwyddyn yn ddiweddarach, gan alluogi'r ysgol i arfarnu cynnydd.

Mae bron pob un o'r ysgolion sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Siarter yn llwyddo i gynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau cymdeithasol. Eleni, fe wnaeth 35 o adroddiadau arolygu ysgolion cynradd gydnabod fod y broses yn cyfrannu at wella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn eu medrau llafar.

**Ffigur 2.32:**
Map o'r consortia rhanbarthol a'r gyfran ganrannol o ysgolion a gynhelir a disgyblion o oed ysgol statudol yng Nghymru ar gyfer pob consortiwm, 2016

**GwE**

1 Ynys Môn
2 Gwynedd
3 Conwy
4 Sir Ddinbych
5 Sir y Fflint
6 Wrecsam

Nifer yr ysgolion a gynhelir: 432
Canran yr ysgolion a gynhelir: 27%


Nifer y disgyblion: 101,600
Canran y disgyblion: 22%

**ERW**

7 Ceredigion
8 Powys
9 Sir Benfro
10 Sir Gaerfyrddin
11 Abertawe
12 Castell-nedd Port Talbot

Nifer yr ysgolion a gynhelir: 504
Canran yr ysgolion a gynhelir: 32%

Nifer y disgyblion: 129,000
Canran y disgyblion: 28%




**EAS**

18 Caerffili
19 Blaenau Gwent
20 Torfaen
21 Casnewydd
22 Sir Fynwy

Nifer yr ysgolion a gynhelir: 242
Canran yr ysgolion a gynhelir: 15%

Nifer y disgyblion: 89,600
Canran y disgyblion: 19%

**CSC**

13 Pen-y-bont ar Ogwr
14 Bro Morgannwg
15 Rhondda Cynon Taf
16 Merthyr Tudful
17 Caerdydd


Nifer yr ysgolion a gynhelir: 396
Canran yr ysgolion a gynhelir: 25%

Nifer y disgyblion: 146,500
Canran y disgyblion: 31%


Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2016l, 2016m

**Ffigur 2.33:**
Barnau a ddyfarnwyd i gonsortia rhanbarthol


### Cymorth ar gyfer gwella ysgolion




### Arweinyddiaeth




### Gwella ansawdd



### Gweithio mewn partneriaethau



### Rheoli adnoddau



- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Anfoddhaol


DIGIDOL
mblr.

# Adroddiad sector
## Colegau addysg bellach

Mae 13 o golegau addysg bellach yng Nghymru. Y llynedd, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer, roedd cyfanswm o 167,325 o ymrestriadau ar gyrsiau addysgol a hyfforddi yn y colegau hyn. Ar hyd a lled Cymru, mae colegau addysg bellach yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth ei gilydd o ran y cyrsiau a'r rhaglenni y maent yn eu darparu, ac maent yn gwasanaethu cymunedau â chyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol gwahanol.

Eleni, fe wnaethom arolygu dau goleg addysg bellach. Yn ogystal, cynhaliodd arolygwyr ymweliadau ffurfiol â phob coleg i fonitro cynnydd.

I gael mwy o wybodaeth am y ddau goleg a arolygwyd, darllenwch yr adroddiadau arolygu:

**Coleg Pen-y-bont ar Ogwr**

**Coleg Cambria**

# Crynodeb:
## Colegau addysg bellach

Nodwyd bod arfer ragorol yn y ddau goleg a arolygwyd eleni. Mae meysydd rhagoriaeth cyffredin yn cynnwys gweledigaeth strategol ac arweinyddiaeth gref, cyfathrebu effeithiol, gweithio adeiladol mewn partneriaeth, a chymorth gwerthfawr i ddysgwyr.



# Deilliannau:
# Colegau addysg bellach

## Safonau

Mae safonau'n dda yn y ddau goleg a arolygwyd gennym.

Mewn colegau ledled Cymru, mae cyfraddau llwyddo yn seiliedig ar gyfraddau cyrhaeddiad a chwblhau uwchlaw 80% yn gyffredinol, er bod cyfraddau'n amrywio ar draws meysydd dysgu. O 2012 i 2016, ychydig iawn wnaeth cyfraddau llwyddo newid ac mae'r bylchau rhwng perfformiad colegau yn gul. Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau academaidd yn llwyddo ar gyfradd ychydig yn is na'r rheini sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol. Mewn peirianneg, TGCh, y gwyddorau cymdeithasol, gweinyddu busnes a'r gyfraith y mae cyfraddau llwyddo isaf.

Mae safonau'n dda neu'n well mewn mwyafrif o feysydd dysgu'r ddau goleg a arolygwyd. Gwneir cynnydd cryf gan lawer o ddysgwyr yn eu medrau technegol, a dangosant safon waith dda yn eu portffolios. Mewn dau faes dysgu a arolygwyd, sef trin gwallt a harddwch a chelf, dylunio a'r celfyddydau perfformio, mae safonau'n rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf iawn, gan ddatblygu medrau proffesiynol eithriadol yn eu gwaith ymarferol. Mae eu medrau cyfathrebu yn effeithiol iawn.

Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, bernir bod safonau'n ddigonol. Mae diffygion cyffredin yn y meysydd hyn yn cynnwys cyfraddau llwyddo sydd islaw cymaryddion cenedlaethol, lleiafrif o ddysgwyr nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn gwersi, a dysgwyr mwy abl nad ydynt yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn ddigon da.


Yn y ddau goleg a arolygwyd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'n dda, maent yn mwynhau eu dysgu ac yn gallu symud ymlaen at waith, neu lefelau dysgu uwch, gan gynnwys addysg uwch. Mae dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig gwahanol, y rhai ag anabledd wedi'i ddatgan, a dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn cyflawni'u cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfradd sydd gystal â'u cyfoedion neu'n well. Nid yw ychydig o ddysgwyr mwy abl yn gwneud y cynnydd y gallent ei gyflawni.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyfranogi'n dda mewn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer dysgu, ac maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau diagnostig i nodi'u cryfderau a'u gwendidau mewn llythrennedd a rhifedd. Mewn ychydig o achosion, nid yw targedau'n ddigon penodol, ac o ganlyniad, nid yw dysgwyr yn gallu olrhain a monitro eu cynnydd na mynd i'r afael â'u gwendidau a gwella eu medrau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae sillafu, atalnodi a gramadeg dysgwyr yn gywir yn gyffredinol, ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u medrau llythrennedd yn dda mewn rhaglenni datblygu medrau, ac o fannau cychwyn isel yn aml. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cyfrifiadau rhifiadol yn fedrus. Maent yn ymarfer ac yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn ystod o gyd-destunau a sefyllfaoedd. Mewn un coleg, nid yw dysgwyr mewn ychydig o feysydd dysgu yn datblygu'u medrau rhifedd drwy eu dosbarthiadau galwedigaethol yn ddigon da.

Dim ond cynnydd boddhaol y mae dysgwyr yn ei wneud wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg yn y ddau goleg a arolygwyd. Yn y ddau goleg, dim ond ychydig o ddysgwyr sy'n dewis dilyn ychydig iawn o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffigur 2.34:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Safonau



## Lles




Yn y ddau goleg a arolygwyd, mae safonau lles yn rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, o bob cefndir, yn mynychu, yn ymddwyn ac yn cyfranogi'n eithriadol o dda. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu coleg yn fawr. Mae agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y ddau goleg yn cyfrannu at eu cynnydd wrth ddatblygu'u medrau cymdeithasol a'u hyder. Maent yn deall yr angen i gyflawni'n dda yn y coleg er mwyn dilyn yr yrfa y maent wedi'i dewis.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o chwaraeon a gweithgareddau cyfoethogi, ac yn ymhel â gweithgareddau cymunedol. Er enghraifft, mewn un coleg, mae dysgwyr lefel mynediad yn gwneud cynhyrchion crefft i'w gwerthu mewn marchnadoedd Nadolig. Yn y coleg arall, mae grŵp o fyfyrwyr y cyfryngau yn gweithio gydag elusen leol i sefydlu banc dillad ar gyfer pobl ifanc ddifreintiedig yn eu harddegau.

Mae dysgwyr yn cyfranogi'n weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefelau uchel o fewn strwythurau rheoli'r coleg. Maent yn trafod materion sy'n destun pryder, gan gynnwys adborth ar agweddau ar addysgu a dysgu, ac yn gweithio'n adeiladol gyda staff y coleg i wneud gwelliannau i amgylchedd y coleg, i'w profiadau dysgu, ac i systemau cymorth ar gyfer dysgwyr.

**Ffigur 2.35:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth:
# Colegau addysg bellach


Mae'r ddarpariaeth yn rhagorol yn y ddau goleg a arolygwyd eleni. Mae'r ddau goleg yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda ac yn cynnig cyrsiau i ddysgwyr o lefel mynediad hyd lefel 6.

Mae'r colegau a arolygwyd yn gwneud defnydd da o wybodaeth am y farchnad lafur leol i nodi anghenion medrau cyflogwyr. Mae hyn yn galluogi pob coleg i fod yn ymatebol i'w gymuned ac mae'r ddau wedi addasu'u cwricwlwm i fodloni anghenion dysgwyr. Mewn un coleg, un nodwedd ragorol yw'r cyfleuster celf lleol sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr agored i niwed ddatblygu medrau a chynnal y cyswllt ag addysg a hyfforddiant. Yn y coleg arall, mae cysylltiadau da iawn gyda chyflogwyr yn arwain at brofiad gwaith perthnasol o ansawdd uchel, gan gynnwys profiadau diwydiannol yn Ewrop, a digwyddiadau chwaraeon o fri ar gyfer dysgwyr lletygarwch ac arlwyo.

Mae'r ddau goleg wedi datblygu strategaethau clir i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Maent yn cynnig darpariaeth eang gan gynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, TGAUau a rhaglenni datblygu medrau eraill. Mewn un coleg, defnyddir technoleg yn arloesol i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'u medrau TGCh yn eithriadol o dda mewn dosbarthiadau galwedigaethol ac academaidd. Mae'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu medrau TGCh lefel uchel wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, creu blogiau dysgwyr i gofnodi'u medrau ac adeiladu portffolios digidol i ddangos sut mae eu syniadau'n datblygu yn ystod eu cyfnod astudio. Gwneir defnydd rheolaidd o 'offer cymhwyso' ystafelloedd dosbarth i rannu adnoddau a galluogi dysgwyr i gyflwyno aseiniadau, ac mae'r defnydd o dechnoleg cwmwl yn cefnogi cydweithio.

Mae'r addysgu yn dda yn y ddau goleg a arolygwyd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol a thechnegol sicr. Mae bron pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr cymorth dysgu yn datblygu perthnasoedd gweithio da a chydberthynas gadarn gyda'u dysgwyr. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu, ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n ennyn diddordeb ac yn herio dysgwyr. Mewn ychydig o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae rhediad y dysgu yn rhy araf ac nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, ac nid yw dysgwyr mwy abl yn cael eu herio digon.

**Ffigur 2.36:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi yn dda ac yn defnyddio ystod addas o gwestiynau i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Maent yn rhoi adborth llafar defnyddiol gyda chyngor ar gynnydd dysgwyr a sut i wella ymhellach. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn cwestiynu'n ddigon da i ennyn atebion estynedig, i brofi dealltwriaeth dysgwyr, neu i ddatblygu'u medrau meddwl.

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu well mewn mwyafrif o feysydd dysgu a arolygwyd. Yn y meysydd hyn, mae athrawon yn cynllunio sesiynau'n dda gan ddefnyddio adnoddau o ansawdd uchel, a dulliau addysgu arloesol weithiau. Mewn lleiafrif o feysydd dysgu, bernir bod y ddarpariaeth yn ddigonol am nad yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio i herio dysgwyr nac yn darparu cyngor clir ar beth sydd angen ei wella wrth asesu gwaith.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn y ddau goleg yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae un coleg yn cynnig darpariaeth ragorol ar gyfer cymorth dysgwyr, yn enwedig i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r coleg arall yn darparu arweiniad a chyngor gwerthfawr i ddysgwyr gan ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau cwricwlwm ar-lein ar ystod o faterion.

Mae'r amgylchedd dysgu yn rhagorol yn y ddau goleg a arolygwyd. Mae arweinwyr yn y ddau goleg wedi sefydlu ethos cadarnhaol iawn a diwylliant sy'n galluogi dysgwyr a staff i deimlo'n ddiogel a'u bod wedi'u cefnogi'n dda. Mae'r ddau goleg yn darparu mynediad i offer safon diwydiant i ddysgwyr, sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael profiad o amgylchedd gweithio realistig, a'u paratoi'n dda ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

## Dull cyfannol o gynorthwyo dysgwyr coleg

Mae **Coleg Pen-y-bont ar Ogwr** wedi buddsoddi mewn swyddogion lles, hyfforddwyr dysgu a hyfforddwyr medrau i gynorthwyo dysgwyr. Mae'r staff hyn yn rhan o'r tîm lles a chymorth sy'n gysylltiedig â meysydd y cwricwlwm ac yn cynorthwyo dysgwyr ym mhob agwedd ar eu dysgu a'u lles. Mae'r cymorth hwn wedi helpu dysgwyr i gyflawni canlyniadau gwell ym mron pob maes dysgu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Colegau addysg bellach

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol yn y ddau goleg a arolygwyd eleni. Er eu bod yn gwasanaethu ardaloedd economaidd a demograffig gwahanol iawn, mae uwch aelodau staff yn y ddau goleg wedi ymgorffori diwylliant yn seiliedig ar weledigaeth a gwerthoedd cadarn ar draws yr holl feysydd darpariaeth. Mae'r diwylliant hwn yn helpu i gymell staff a dysgwyr. Yn y ddau goleg, mae'r corff llywodraethol yn dod â lefel uchel o arbenigedd a her gadarn i weithgareddau academaidd a masnachol. Mae gan y ddau goleg bartneriaethau strategol, rhagorol gydag ystod o fusnesau lleol a rhanbarthol, asiantaethau a phrifysgolion. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi'r cyfleoedd a'r profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr a staff y colegau.


Yn y ddau goleg, mae uwch reolwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r penaethiaid ac uwch arweinwyr wedi gweithio'n gyflym, yn ystod cyfnod o drawsnewid, i ddatblygu'r colegau, a chynnal ffocws clir ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ar yr un pryd. Mae pob coleg wedi datblygu strategaethau cyfathrebu i sicrhau bod staff a rhanddeiliaid yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau'r coleg, a sut maent yn cyfrannu at lwyddiant y coleg. Er enghraifft, mewn un coleg, mae athrawon yn rhannu deunyddiau gwersi gyda dysgwyr drwy ystafelloedd dosbarth rhyngweithiol, ac yn cyfnewid syniadau a gwybodaeth gydag athrawon eraill a staff cymorth drwy sefydlu cymunedau ar-lein.

Mae prosesau hunanarfarnu effeithiol gan un coleg sy'n monitro ac yn gwella ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth o wrando ar ddysgwyr i lywio cynllunio gwelliant. Mae staff ar draws y coleg yn gwneud defnydd rhagorol o ddata o ystod o ffynonellau i adolygu eu perfformiad yn erbyn meincnodau cenedlaethol a thargedau'r coleg. Yn y coleg arall, ceir systemau da ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant, ac mae uwch aelodau staff yn defnyddio gwybodaeth reoli yn dda i gynllunio gwelliannau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr addysgu. Mewn ychydig o feysydd yn y ddau goleg, nid yw'r hunanasesu yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr mewn gwersi.

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn mwyafrif o feysydd dysgu a arolygwyd. Mewn dau faes dysgu, mae arweinwyr yn pennu cyfeiriad clir ac yn hyrwyddo safonau uchel. Yn y meysydd dysgu lle ceir arweinyddiaeth dda, mae rheolwyr yn cyfathrebu'n dda ac mae cylch sicrhau ansawdd y coleg yn cael ei ddefnyddio i adolygu perfformiad. Mae'r adroddiadau hunanasesu yn gywir yn gyffredinol ac yn hunanfeirniadol, er bod ychydig ohonynt yn rhy gadarnhaol. Mae gan lawer o feysydd dysgu berthynas lwyddiannus gyda chyflogwyr lleol.

Ceir diffygion pwysig yn yr arweinyddiaeth mewn lleiafrif o feysydd dysgu. Yn y meysydd dysgu hyn, nid oes asesiad cywir o anghenion dysgwyr ac nid yw cyfarfodydd yn canolbwyntio ar wella safonau a chynnydd dysgwyr. Defnydd cyfyngedig o dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu a wneir mewn adroddiadau hunanasesu, ac nid ydynt yn ddigon arfarnol. Nid yw cysylltiadau â phartneriaid i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith wedi'u datblygu'n dda.

**Ffigur 2.37:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Mae'r ddau goleg a arolygwyd yn rheoli adnoddau yn dda iawn ac mae ganddynt gynlluniau ariannol soffistigedig. Cynhaliwyd adolygiadau helaeth o'r rheolaeth a staffio yn y ddau goleg yn ddiweddar, ac maent wedi gwella effeithlonrwydd drwy leihau costau tra'n cynnal neu wella deilliannau dysgwyr ar yr un pryd. Mae'r ddau goleg yn gwneud defnydd arloesol o'u stoc adeiladau a'u hadnoddau i wella profiad y dysgwr. Er enghraifft, fe wnaeth un coleg drawsnewid adeiladau hŷn yn theatr, ac mae'r coleg arall wedi defnyddio'i fuddsoddiadau i greu fferm fodern, ddatblygedig ar gyfer ei fyfyrwyr amaethyddiaeth.

Mae'r colegau a arolygwyd wedi buddsoddi'n dda mewn datblygiad staff hefyd, yn enwedig mewn datblygu medrau addysgu. Mae rheolwyr yn derbyn cyfleoedd hyfforddiant da er mwyn datblygu eu medrau arweinyddiaeth a rheolaeth.

## Adeiladu hunaniaeth newydd

Adeiladu hunaniaeth newydd Ffurfiwyd **Coleg Cambria** yn Awst 2013 ar ôl uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl i fod yn un o'r colegau mwyaf yn y DU, yn gwasanaethu tair ardal awdurdod lleol. Fe wnaeth arweinyddiaeth gref a llywodraethiant effeithiol helpu i greu hunaniaeth newydd lwyddiannus a chryf ar gyfer y Coleg Cambria newydd. Mae ethos a diwylliant sy'n cael eu rhannu yn sylfaen i berfformiad presennol rhagorol y coleg a'i ragolygon rhagorol ar gyfer gwella.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

## Adran: 2



# Adroddiad sector
## Dysgu yn y gwaith

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon, roedd 20 o ddarparwyr yn darparu dysgu yn y gwaith. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y nifer ostwng i 19 o ddarparwyr. Mae mwyafrif y darparwyr hyn yn gweithio mewn consortia neu gyda darparwyr hyfforddiant sy'n isgontractwyr. Mae'r niferoedd dysgwyr diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2014-2015, yn dangos bod 57,100 o ddysgwyr yn ymgymryd â rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r rhain, roedd 25,035 yn gwneud prentisiaethau lefel 3 a 4, roedd 19,030 yn gwneud prentisiaethau sylfaen lefel 2, ac roedd 13,035 yn gwneud hyfforddiant arall.

Eleni, fe wnaethom arolygu tri darparwr.

I gael mwy o wybodaeth am y tri darparwr a arolygwyd gennym, darllenwch yr adroddiadau arolygu:

**Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu**

**Partneriaeth Sgiliau Bae Abertawe**

**Y Bartneriaeth Sgiliau Galwedigaethol**


# Crynodeb:
## Dysgu yn y gwaith

Eleni, barnwyd bod arfer ragorol mewn dau o'r tri darparwr a arolygwyd. Yn y darparwyr lle ceir arfer ragorol, mae bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at gwblhau eu fframweithiau hyfforddi. Mae'r uwch dimau rheoli yn y darparwyr hyn yn arbennig o effeithiol o ran pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer cyflawni eu contract dysgu yn y gwaith.

Nodwyd bod angen monitro gan Estyn ar un darparwr, yn bennaf am nad yw ansawdd yr hyfforddiant a'r cymorth o safon dda yn gyson ar draws y darparwr. O ganlyniad, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y sector.

**Ffigur 2.38:**
Niferoedd y darparwyr dysgu yn y gwaith mewn lefelau gweithgarwch dilynol

2 **Arfer ragorol** (2 ddarparwr)



# Deilliannau:
# Dysgu yn y gwaith





## Safonau:


Eleni, mae safonau'n dda mewn dau ddarparwr ac yn ddigonol yn y darparwr arall.

Mewn dau o'r tri darparwr, mae'r cyfraddau ar gyfer cwblhau fframweithiau prentisiaeth yn agos i'r cymaryddion cenedlaethol neu'n uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau yn brydlon. Maent yn datblygu lefelau uchel o fedrau ymarferol yn y gweithle, gan eu galluogi i gael a chynnal cyflogaeth yn y diwydiant o'u dewis. Yn y darparwr arall, mae dysgwyr yn cyflawni'u fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill ar gyfraddau sydd gryn dipyn yn is na chymaryddion cenedlaethol, ac mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglen hyfforddi.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cwblhau'u cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar y lefel sy'n ofynnol yn eu fframweithiau hyfforddi. Lle bo'n briodol, mae ychydig o ddysgwyr yn cwblhau cymwysterau ar lefel uwch. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd yn dda. Er bod mwy o gyfleoedd i ddysgwyr sefyll arholiadau neu wneud aseiniadau ysgrifenedig yn Gymraeg, ychydig sy'n dewis gwneud hynny.

Mae llawer o ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn ymgysylltu'n llawn â'u rhaglenni hyfforddi. Maent yn mwynhau eu hyfforddiant ac yn gweithio'n dda gyda'u cyflogwyr, tiwtoriaid ac aseswyr.

**Ffigur 2.39:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.1: Pa mor dda yw'r safonau?




## Lles

Mae lles yn dda yn y tri darparwr a arolygwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'u hyfforddiant ac yn llawn cymhelliant i gyflawni eu fframwaith hyfforddi. Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i symud ymlaen i lefel nesaf yr hyfforddiant, ac maent yn cymryd rhan yn dda mewn prosiectau cymunedol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys codi arian at elusennau ac ymgymryd â phrosiectau atgyweirio a datblygu, fel gwneud celfi ar gyfer canolfan arddio gymunedol leol a chynorthwyo i adnewyddu adeiladau cymunedol.



Mae dealltwriaeth dda iawn o fywyd gweithio gan bron pob un o'r dysgwyr, ac maent yn cyfathrebu'n dda gyda'u cyflogwyr, hyfforddwyr, cleientiaid a chyfoedion. Ar y cyfan, maent yn datblygu ystod eang o fedrau cyflogadwyedd sy'n eu galluogi i gynnal cyflogaeth.

**Ffigur 2.40:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1.2: Safonau lles



# Darpariaeth: Dysgu yn y gwaith

Mae ansawdd yr hyfforddiant a'r asesu yn dda mewn dau ddarparwr ac yn ddigonol yn y llall.

Ar y cyfan, mae darparwyr yn cyflwyno ystod eang o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Darperir hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd dysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn datblygu ystod o fedrau gwerthfawr i gynnal cyflogaeth yn eu maes dysgu dewisedig. Fel arfer, darperir rhaglenni hyfforddi o lefel 1 hyd at lefel 5, a chaiff llawer o ddysgwyr gyfleoedd da i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae llawer o ddarparwyr yn cynnig agweddau ar hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae nifer y dysgwyr sy'n gwneud asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg yn parhau'n isel.

Mae strategaethau llythrennedd a rhifedd clir gan bob un o'r tri darparwr. Eleni, canfuom fod tiwtoriaid ac aseswyr yn defnyddio'r strategaethau hyn yn fwy cyson. Mewn dau o'r tri darparwr, mae'r cysondeb hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safon medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd y cymorth llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr yn amrywio gormod o hyd. Yn y darparwr digonol, nid yw dysgwyr yn cael eu hymestyn na'u cynorthwyo'n ddigon da i gyflawni medrau llythrennedd a rhifedd lefel uchel.

Mae gwybodaeth alwedigaethol gyfoes gan fwyafrif yr hyfforddwyr ac aseswyr, ac maent yn darparu cymorth personol gwerthfawr i ddysgwyr. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sy'n parhau ar eu rhaglenni hyfforddi ac yn cyflawni'u fframweithiau hyfforddi. Mewn ychydig o achosion, nid yw hyfforddwyr ac aseswyr yn herio dysgwyr yn ddigon da i ddatblygu cymhwysedd ymarferol lefel uwch a gwybodaeth theori.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr, ac mae aseswyr yn cynllunio gweithgareddau asesu yn dda. O ganlyniad, mae dysgwyr yn deall sut byddant yn cael eu hasesu a beth a ddisgwylir ganddynt.

Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gan y darparwyr i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn lefelau da o ofal, cymorth ac arweiniad. Caiff llawer o ddysgwyr gefnogaeth gref gan gyflogwyr a mentoriaid yn y gweithle. Mae darparwyr yn cynnig trefniadau ymsefydlu amrywiol iawn i'w rhaglenni hyfforddi, a rhoddir ffocws clir ar les ac ar iechyd a diogelwch. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth sicr o arferion disgwyliedig yn eu gweithleoedd ac mae llawer ohonynt yn dod yn aelodau gwerthfawr o'r staff yn gyflym iawn. Mae gan ddarparwyr bolisïau a gweithdrefnau diogelu priodol. Maent yn defnyddio staff yn dda i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.


Mae'r darparwyr a arolygwyd wedi datblygu ac maent yn defnyddio ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi eu nod o wella dealltwriaeth dysgwyr o gynwysoldeb, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Gwella cyfraddau cadw a chyfraddau llwyddo dysgwyr drwy fonitro cynnydd

Mae **Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu** wedi datblygu system wybodaeth o ansawdd uchel i olrhain cynnydd dysgwyr a monitro perfformiad ei isgontractwyr sy'n golegau. Mae'r system yn cael ei defnyddio'n arbennig o dda i nodi ac olrhain y cymorth a ddarperir i ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni neu adael eu rhaglen hyfforddi. O ganlyniad, mae cyfraddau cadw a chyfraddau llwyddiant dysgwyr wedi gwella.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**.

**Ffigur 2.41:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?



# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
## Dysgu yn y gwaith


Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol mewn dau o'r darparwyr a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall. Yn y darparwyr y barnwyd eu bod yn rhagorol, mae'r arweinyddiaeth o safon uchel iawn ac yn canolbwyntio'n dda ar anghenion dysgwyr ac ansawdd y profiad dysgu. Mae gwerthoedd, amcanion a nodau strategol sefydledig yn sylfaen i gyflawni eu rhaglenni hyfforddi. Yn y darparwyr hyn, mae rheolwyr a staff wedi datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda phartneriaid consortiwm, isgontractwyr, cyflogwyr ac ysgolion. Ceir cyfathrebu clir ar draws y darparwyr a gyda phartneriaid allweddol. Mae ganddynt strategaethau manwl ar gyfer adolygu a gwella perfformiad yr holl staff. Yn yr un darparwr lle bernir bod yr arweinyddiaeth yn ddigonol, nid yw uwch arweinwyr yn cyfleu nodau strategol a chyfeiriad y consortiwm yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw staff nad oes ganddynt rolau arweinyddiaeth ac isgontractwyr yn glir ynglŷn â'r nodau hyn.

Mae trefniadau gwella ansawdd yn rhagorol mewn un darparwr, yn dda mewn un darparwr, ac yn ddigonol yn y llall. Yn yr arfer orau, mae adroddiadau hunanasesu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Defnyddir yr adroddiadau'n dda fel offeryn allweddol i fonitro ac ysgogi gwella ansawdd. Lle ceir diffygion, nid yw systemau gwella ansawdd darparwyr yn canolbwyntio digon ar wella safonau dysgwyr. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw systemau ansawdd yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y prif ddarparwr a phartneriaid sy'n is-gontractwyr.

Mae dau ddarparwr wedi datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhagorol gydag ystod eang o bartneriaid allweddol ac mae arferion gweithio da mewn partneriaeth yn y darparwr arall. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys perthnasoedd gweithio effeithiol gydag aelodau consortiwm, isgontractwyr, cyflogwyr, ysgolion, a diwydiant, a gwnânt gyfraniad cadarnhaol at wella ansawdd a chysondeb rhaglenni hyfforddi.

Mae rheoli adnoddau yn dda mewn dau o'r darparwyr a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall. Mae pob un o'r tri darparwr a arolygwyd yn gwneud yn siŵr bod adnoddau priodol, ac o ansawdd uchel yn aml, ar gael ar gyfer hyfforddi ac asesu. Maent yn cefnogi'u staff gyda chyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol.

**Ffigur 2.42:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?



Adran: 2



# Adroddiad sector
## Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae ein hadroddiad thematig **Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru** yn rhoi mwy o wybodaeth am ganfyddiadau yn y sector hwn.

Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn darparu cyrsiau a ariennir gan y llywodraeth mewn addysg sylfaenol oedolion, Saesneg fel ail iaith, a TGCh, gyda'r nod o gynorthwyo oedolion y mae angen iddynt ddiweddaru eu medrau yn y meysydd hyn. Mae hefyd yn darparu ystod o gyrsiau 'hamdden', fel coginio, celf, ieithoedd ac uwchgylchu dodrefn, a anelir at oedolion sydd eisiau datblygu'u busnesau eu hunain, ymgymryd â hobi newydd, neu gadw'n weithgar. Mae'r sector yn darparu'r cyrsiau drwy 15 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned lleol. Yn ogystal, mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru a Choleg Cymunedol YMCA Cymru wedi ymuno â'i gilydd i greu sefydliad sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru.

Eleni, cynhaliodd Estyn arolwg thematig o'r sector (Estyn, 2016j). Mae'r prif ganfyddiadau o'r arolwg thematig yn dangos bod cyfraddau cwblhau wedi amrywio rhwng 92% a 95% o ddysgwyr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mewn addysg sylfaenol oedolion, TGCh, a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo yn parhau tua 10% yn is na chyfraddau cwblhau. Mae hyn oherwydd bod gan ddysgwyr sy'n oedolion ymrwymiadau eraill yn eu bywydau yn aml, fel gwaith shifft a gofalu am deulu, sy'n golygu nad ydynt yn cwblhau eu cymhwyster o fewn y flwyddyn astudio academaidd.

Yn y rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, mae gostyngiadau ariannol wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth a lefelau staffio. Serch hynny, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnal ymrwymiad cadarn i ddarparu dysgu i oedolion i gyd, ac, yn benodol, i ddysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd ac sy'n agored i niwed.

Mae bron pob un o'r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi ymrwymo i ddarparu cyrsiau 'hamdden' neu les, ar sail adfer y gost lawn yn aml. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn yn arwain at lai o gyfleoedd i'r dysgwyr hynny sy'n llai cyfoethog, am nad yw'r rhan fwyaf o gyrsiau yn derbyn cymhorthdal mwyach.

Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi parhau i gymhwyso gweithdrefnau sicrhau ansawdd er mwyn cynnal ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, mae toriadau ariannol ehangach mewn awdurdodau lleol yn golygu bod llawer o uwch arweinwyr yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned wedi symud swyddi neu wedi gadael y gwasanaeth, gan arwain at lai o staff profiadol i sicrhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Ar hyn o bryd, mae tair canolfan ranbarthol hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru, sydd, ynghyd â'r Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddi Athrawon Graddedig Ychwanegol, yn darparu llwybrau i ddod yn athro cymwys. Yn 2014-2015, ar draws y tair canolfan ranbarthol, dyfarnwyd cymwysterau hyfforddiant cychwynnol i athrawon i ryw 625 o hyfforddeion ysgol gynradd a meithrin a thua 685 o hyfforddeion ysgol uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2016b).

Ym Mai 2015, cwblhaodd Estyn y cylch presennol o hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y categori gweithgarwch dilynol ailarolygu o hyd. Byddwn yn ailarolygu'r ganolfan yn 2016-2017.

Eleni, gweithiodd Estyn yn agos gyda Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ddiwygio addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Yn benodol, fel aelod o'r Grŵp Achredu Addysg Athrawon, mae Estyn wedi helpu i ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. O dan y cynigion hyn, bydd Estyn yn arolygu'r rhaglenni sydd newydd eu hachredu o Fedi 2019. Yn y cyfamser, bydd Estyn yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon, a bydd yn ymgymryd â gwaith arolwg thematig i gasglu tystiolaeth mewn meysydd penodol o addysg athrawon.

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Cymraeg i Oedolion

Cafodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2015 fel y corff sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol i'r sector Cymraeg i Oedolion ac ar gyfer pob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Yn Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb llawn am y sector i'r Ganolfan Genedlaethol ac ailstrwythurwyd y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled Cymru, gan ddisodli'r chwe chanolfan ranbarthol flaenorol Cymraeg i Oedolion gydag 11 o ddarparwyr newydd Cymraeg i Oedolion.

Yn ystod 2016-2017, mae Estyn yn cynnal arolwg thematig ar effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Byddwn yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Ganolfan Genedlaethol o ran cyflawni'r nodau yn ei chynllun strategol. Mae'r rhain yn cynnwys codi proffil y sector, cynyddu'r niferoedd sy'n dechrau ac yn parhau i ddysgu Cymraeg, a sefydlu cwricwlwm a chyrsiau newydd sy'n gwneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf. Mae nodau'r Ganolfan Genedlaethol hefyd yn cynnwys cynlluniau sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'u medrau iaith mewn cyd-destunau gwahanol, a gweld mwy o gysondeb ar draws darparwyr drwy brosesau hyfforddi, sicrhau ansawdd a rheoli data mwy effeithiol. Bydd yr arolwg yn canolbwyntio ar rôl benodol y Ganolfan Genedlaethol a pha mor llwyddiannus y mae'n arwain, yn rheoli ac yn dylanwadu ar ddatblygiadau yn y sector yn dilyn yr ad-drefnu cenedlaethol.

Adran: 2



# Adroddiad sector
## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae pedwar carchar yng Nghymru, ac mae sefydliad troseddwyr ifanc yn un ohonynt. Mae lleiafrif o oedolion a phobl ifanc yng Nghymru yn treulio'u dedfrydau mewn lleoliadau diogel yn Lloegr.

Yng Nghymru, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi sy'n arwain arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o garchardai, gan gynnwys y sefydliad troseddwyr ifanc, ac mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arwain arolygiadau o'r cartref diogel i blant. Mae Estyn yn ymuno â'r timau hyn i arolygu ansawdd addysg a hyfforddiant.

Eleni, cynhaliwyd dau brif adolygiad a fydd yn dylanwadu ar y modd y caiff dysgu yn y sector cyfiawnder ei gynllunio a'i gyflwyno yn y dyfodol. Ym Mai 2016, cyhoeddodd y Fonesig Sally Coates ei hadolygiad o addysg mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Mae ei hadroddiad yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â'r canlynol:

- y fframwaith atebolrwydd presennol ar gyfer cyflwyno addysg mewn carchardai
- gallu'r gweithlu
- anghenion dysgu mathau gwahanol o garcharorion
- gallu carcharorion i fanteisio ar ddysgu ar lefel uwch
- y potensial i TGCh gefnogi addysg
- gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo carcharorion i gael cyflogaeth a/neu barhau â'u haddysg pan gânt eu rhyddhau

Yn ystod 2016, cynhaliodd Charlie Taylor adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd adroddiad interim yn Chwefror 2016, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yn Rhagfyr 2016 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016).

Eleni, gweithiodd Estyn gyda phartneriaid i arolygu'r ddarpariaeth i oedolion yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc a Charchar Ei Mawrhydi Caerdydd. Carchardai i oedolion yw'r ddau. Gweithiodd Estyn gyda phartneriaid hefyd i arolygu'r sefydliad troseddwyr ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi Y Parc.

Mae un canolfan ddiogel i blant yng Nghymru. Gweithiodd Estyn gydag AGGCC i ddilyn y cynnydd y mae Canolfan Ddiogel Hillside wedi'i wneud ers ei harolygiad yn 2014.

Ymunodd Estyn â'r arolygiadau o ddau Wasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

I gael gwybod mwy am arolygiadau eleni o'r ddarpariaeth i oedolion, darllenwch yr adroddiadau ar-lein: **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**.

I gael gwybod mwy am arolygiadau eleni o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid, darllenwch yr adroddiadau ar-lein: **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi**.

# Deilliannau:
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yn y ddau garchar i oedolion a'r sefydliad troseddwyr ifanc a arolygwyd, mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu hyder a'u hunan-barch. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'r addysg, hyfforddiant a'r gweithgareddau cyflogaeth a ddarperir, ac mae eu hymddygiad yn ystod y gweithgareddau hyn yn dda at ei gilydd. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu'u medrau yn hyfforddi a chynorthwyo eraill drwy gynlluniau mentora cyfoedion ffurfiol.

Yn y ddau garchar i oedolion, mae dysgwyr yn datblygu ystod o fedrau'n gysylltiedig â gwaith. Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau i'w helpu i baratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol, ond cyfyngedig iawn yw'r cyfleoedd iddynt gael profiad gwaith.

Ar draws pob un o'r darparwyr, nid oes digon o wybodaeth na dadansoddi ynglŷn â pha mor llwyddiannus y mae dysgwyr yn trosglwyddo i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn golygu nad yw'r darparwyr yn gwybod effaith lawn eu gwaith gyda dysgwyr. Er enghraifft, mae Gyrfa Cymru wedi nodi bod dwy ran o dair o ddysgwyr mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid yn tynnu allan o'r cyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a nodir ar eu cyfer. Mae hyn yn cynyddu'r risg y byddant yn aildroseddu.

# Darpariaeth:
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae pob un o'r darparwyr yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i wella ehangder y cyfleoedd a'r cymorth dysgu. Er enghraifft, mae gan y carchardai gysylltiadau da â chlybiau chwaraeon proffesiynol i ddarparu cymwysterau hyfforddi pêl-droed, ac mae hyn yn rhoi mwy o gymhelliant i ddysgwyr. Mae gan bron pob un o'r darparwyr gysylltiadau da â Gyrfa Cymru. Mae'r arweiniad a chymorth a ddarperir gan gynghorwyr gyrfa yn helpu dysgwyr i ddeall eu hopsiynau ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach a hyfforddiant ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Fodd bynnag, mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid, dim ond hanner y dysgwyr sy'n dewis derbyn cyngor ar yrfaoedd.

Mae'r carchardai a'r cartref diogel i blant a arolygwyd yn cynnal asesiadau cychwynnol manwl o fedrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn derbyn addysgu o ansawdd da i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Nid yw ychydig o ddysgwyr mwy agored i niwed yn cael mynediad cyfartal i'r cymorth hwn i ddatblygu'u medrau. O ran ychydig o ddysgwyr mwy abl, nid yw staff yn gosod targedau heriol addas i'w helpu i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach.

Yn y Timau Troseddau Ieuenctid, nid oes strategaeth glir i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Nid yw staff yn asesu medrau dysgwyr yn rheolaidd wrth iddynt gychwyn, nac yn darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r Timau Troseddau Ieuenctid yn gwneud digon i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg nac i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth:
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Ar y cyfan, mae'r darparwyr a arolygwyd yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion o ymweliadau blaenorol.

Mae systemau gwybodaeth reoli defnyddiol ar waith yn y carchardai a'r cartref diogel i blant a arolygwyd. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio'r data hwn yn dda i lywio hunanarfarnu a chynllunio gwelliannau. Mae arweinwyr a rheolwyr yn y darparwyr hyn yn arsylwi'r addysgu yn rheolaidd fel rhan o'u trefniadau sicrhau ansawdd parhaus.


Yn y Timau Troseddau Ieuenctid, nid yw hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn y ddau Dîm Troseddau Ieuenctid, roedd goruchwyliaeth annigonol o rai agweddau ar eu gwaith. Mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid, cynhaliwyd adolygiad defnyddiol o'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, ond nid oedd cynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd.



# Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

Disgwylir i ddisgyblion gyflawni deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyflawni deilliant 6 neu'n uwch.

**Ffigur 3.1:**
Y Cyfnod Sylfaen – Canran y disgyblion yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'r deilliant disgwyliedig ac un yn ychwanegol (deilliant 6), 2012-2016




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2012, 2013, 2014a, 2015c, 2016c

**DPCh:** Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

**ILIChS:** Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Saesneg

**ILIChC:** Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Cymraeg

**DM:** Datblygiad mathemategol

**DCS (a)** Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

a) Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5 neu'n uwch mewn DPCh, ILIChS/ILIChC a DM gyda'i gilydd.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2016 yn ddigon tebyg i ddeilliannau yn 2015. Mae'r holl newidiadau yn y meysydd dysgu a dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn llai nag un y cant.

Ar gyfartaledd, llwyddodd chwech o bob saith disgybl i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.


Yn y maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol y mae disgyblion yn perfformio orau o hyd. Mae eu perfformiad gwannaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Saesneg (ILlChS), er bod y gwahaniaeth gyda'r meysydd dysgu eraill yn fach.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn parhau i wella ym mhob maes dysgu, ac eithrio mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Cymraeg (ILlChC). Mae dros hanner y disgyblion yn cyflawni deilliant 6 neu'n uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ac mae ychydig dros draean o ddisgyblion yn cyflawni deilliant 6 neu'n uwch mewn Saesneg (ILlChS), Cymraeg (ILlChC) neu fathemateg.

# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

Pan gânt eu hasesu gan eu hathrawon ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol (Saesneg, Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth), disgwylir i ddisgyblion gyflawni lefel 4 erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, pan fyddant yn 11 mlwydd oed. Disgwylir i'r disgyblion mwy abl gyrraedd lefel 5 neu'n uwch.

**Ffigur 3.2:**
Cyfnod allweddol 2 – Canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) a'r lefel ddisgwyliedig ac un yn ychwanegol (lefel 5), 2012-2016




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2012, 2013, 2014a, 2015c, 2016c

Yng nghyfnod allweddol 2, yn 2016, bu gwelliant mewn deilliannau yn yr holl bynciau craidd. Gwyddoniaeth yw'r pwnc lle ceir y perfformiad gorau gan ddisgyblion o hyd, er bod y bwlch rhwng y deilliannau a'r pynciau craidd eraill wedi lleihau. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd, sy'n cael ei adnabod fel y dangosydd pwnc craidd neu'r DPC, wedi gwella'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2016, cyflawnodd bron i naw o bob deg disgybl y mesur hwn. Mae hyn yn rhyw 15 o bwyntiau canran yn uwch nag yn 2007 pan ddechreuwyd asesu deilliannau disgyblion drwy asesiadau athrawon yn unig.

Yn 2016, fe wnaeth cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 5 ac uwch wella ar gyfradd gyflymach ar draws yr holl bynciau o gymharu â'r gyfradd wella ar lefel 4 ac uwch yn y meysydd hyn. Mae rhyw ddau o bob pum disgybl yn cyrraedd y lefel hon ym mhob pwnc bellach. Mae hyn tua 12 pwynt canran yn uwch na'r adeg y cyflwynwyd asesiadau athrawon yn unig. Dros y pum mlynedd diwethaf y cafwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd. Er 2012, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi cynyddu rhyw 10 pwynt canran ym mhob pwnc.


# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3

Mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, pan fyddant yn 14 oed. Disgwylir i'r disgyblion mwy abl gyrraedd lefel 7 neu'n uwch.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2016, bu gwelliant o ryw ddau bwynt canran yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r dangosydd pwnc craidd wedi parhau i gynyddu'n gyflym. Yn 2016, roedd tua 30 pwynt canran yn uwch nag yn 2007 pan ddechreuwyd asesu deilliannau disgyblion drwy asesiadau athrawon yn unig. Fe wnaeth cyrhaeddiad ym mhob un o'r pynciau craidd ar lefel 5 ac uwch gynyddu un pwynt canran neu fwy rhwng 2015 a 2016.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn parhau i wella'n gyflym. Mae dros hanner y disgyblion ym mhob maes pwnc yn parhau i gyflawni o leiaf lefel 6. Yn 2016, bu cynnydd mawr o rhwng tri a phedwar pwynt canran yn nifer y rhai yn cyflawni'r lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Ffigur 3.3:**
Cyfnod allweddol 3 – Canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5), y lefel ddisgwyliedig ac un yn uwch (lefel 6) a'r lefel ddisgwyliedig a dau yn uwch (lefel 7), 2012-2016




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2012, 2013, 2014a, 2015c, 2016c

# Crynodeb o asesiadau athrawon

Mae'r data o asesiadau athrawon eleni yn dangos bod cyfradd wella deilliannau disgyblion yn dechrau arafu wrth i'r prif ddangosyddion ar draws bob cyfnod nesáu at 90%. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Eto, mae deilliannau disgyblion ar y lefelau uwch yn parhau i gynyddu ar gyfradd gyson i gyflym yn gyffredinol. At ei gilydd, ers i'r drefn asesiadau athrawon yn unig gael ei chyflwyno, mae deilliannau disgyblion wedi cynyddu tua theirgwaith y gyfradd flaenorol. Mae'r cynnydd mawr hwn mewn deilliannau disgyblion yn parhau i godi cwestiynau ynglŷn â dibynadwyedd a dilysrwydd asesiadau athrawon, yn enwedig lle ceir gormod o bwyslais ar asesiadau athrawon at ddibenion atebolrwydd yn hytrach nag asesu cywir er mwyn gwella'r dysgu.

# Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4

Mae perfformiad 2016 mewn arholiadau allanol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar y disgyblion a oedd ym Mlwyddyn 11 yn hytrach na disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. I gael manylion ynglŷn â'r newidiadau i'r broses o gynhyrchu'r ystadegau hyn, cyfeiriwch at Ddatganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru (2016d).

**Ffigur 3.4:**
Prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, 2012-2016

| | Sylfaen flaenorol | | | | Sylfaen newydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 gyda Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg | 51.1% | 52.7% | 55.4% | 57.9% | 60.3% |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 | 72.6% | 77.8% | 82.3% | 84.1% | 84.0% |
| Gwahaniaeth pwynt canran rhwng y ddau ddangosydd hyn | 21.5 | 25.0 | 26.9 | 26.2 | 23.8 |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 1 | 91.8% | 93.2% | 94.0% | 94.4% | 95.3% |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio | 323.5 | 333.1 | 340.8 | 343.5 | 344.6 |
| Canran yn cyflawni pum TGAU A*-A (neu gyfwerth) | 17.1% | 16.7% | 17.3% | 16.6% | 15.9% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016d

Yn 2016, fe wnaeth cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg gynyddu o ychydig o dan ddau a hanner pwynt canran er 2015. Mae hyn yn debyg i'r cynnydd a welwyd yn y ddwy flynedd flaenorol. Er 2012, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi cynyddu dros naw pwynt canran.

Fe wnaeth cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn 2016 aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol i raddau helaeth. Fodd bynnag, er 2012, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi cynyddu dros 11 pwynt canran. Fe wnaeth cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 1 gynyddu o ryw un pwynt canran yn 2016. Mae perfformiad o ran y mesur hwn wedi cynyddu o ryw dri a hanner pwynt canran er 2012.

Bu gwelliant o ychydig dros un pwynt yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, sef mesur o gyfartaledd yr wyth canlyniad TGAU gorau neu ganlyniadau cyfwerth. Mae'r gyfradd wella yn y dangosydd hwn wedi arafu'n nodedig yn y ddwy flynedd diwethaf. Hefyd, fe wnaeth cyfran y disgyblion yn cyflawni pum gradd A*-A TGAU neu gyfwerth ostwng am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2016. Mae perfformiad o ran y mesur hwn ychydig dros un pwynt canran yn is nag yn 2012. Mae'r ddau ddangosydd hwn yn dangos bod y gyfradd wella ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf wedi arafu neu wedi gwastatáu ar y gorau.

## Pynciau craidd

**Ffigur 3.5:**
Canran y disgyblion yn cyflawni A*-C yn y pynciau craidd, 2012-2016

| | | Cyflawni A*-C mewn Saesneg/ Cymraeg | Cyflawni A*-C mewn Saesneg | Cyflawni A*-C mewn Cymraeg | Cyflawni A*-C mewn mathemateg | Cyflawni A*-C (neu gyfwerth) mewn gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen flaenorol** | 2012 | 63.5% | 62.2% | 73.8% | 58.4% | 70.6% |
| | 2013 | 64.0% | 62.9% | 73.5% | 60.3% | 74.8% |
| | 2014 | 67.2% | 66.2% | 73.7% | 61.7% | 82.3% |
| | 2015 | 69.7% | 68.6% | 75.2% | 64.4% | 84.0% |
| **Sylfaen newydd** | 2016 | 70.4% | 69.3% | 75.1% | 66.9% | 82.4% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016d

Er gwaethaf gostyngiad o bron i ddau bwynt canran yn 2016, gwyddoniaeth yw'r pwnc craidd â'r perfformiad gorau yng Nghymru o hyd. Perfformiad mewn mathemateg gynyddodd fwyaf, gan godi o ryw ddau a hanner pwynt canran. Roedd y gwelliant hwn gryn dipyn yn fwy na'r cynnydd mewn Saesneg, a gynyddodd o ryw saith rhan o ddeg o bwynt canran. Arhosodd perfformiad mewn Cymraeg yn debyg i berfformiad yn 2015. Er 2012, mae cyflawniad mewn Cymraeg wedi aros yn sefydlog yn gyffredinol. Mae hyn yn cyferbynnu â pherfformiad yn y pynciau craidd eraill, sydd wedi cynyddu ar gyfraddau cyflymach o lawer.

# PISA yn y DU


PISA yw'r rhaglen ryngwladol asesu myfyrwyr a gynhelir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Bob tair blynedd, mae myfyrwyr o wledydd ledled y byd yn gwneud profion mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Ym mhob cylch PISA, rhoddir ffocws ar un o'r tri maes hyn. Gwyddoniaeth oedd y ffocws ar gyfer PISA 2015, a darllen a mathemateg oedd y ddau is faes. Fe wnaeth yr holl ddisgyblion o'r sampl a ddewiswyd sefyll asesiadau mewn gwyddoniaeth, a chymerodd tua dau o bob pum disgybl asesiadau mewn darllen a mathemateg. Yn 2006 yr oedd gwyddoniaeth yn brif faes ddiwethaf.

Fe wnaeth 71 o wledydd gymryd rhan yn y cylch PISA hwn. Yng Nghymru, cymerodd 3,451 o ddisgyblion o 140 o ysgolion uwchradd y profion PISA. Cymerodd tua 10% o ddisgyblion y profion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd asesiadau cyfrifiadur ar gael am y tro cyntaf. Defnyddiwyd y rhain yng Nghymru. Dewisodd 15 o wledydd ddefnyddio asesiadau ar bapur.

**Ffigur 3.6:**
Sgorau cymedrig a gyflawnwyd ym mhrofion PISA 2015 gan ddisgyblion yng ngwledydd y DU, o gymharu â chyfartaledd yr OECD




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2015, yn Jerrim & Shure (2016)

# Prif ganfyddiadau

Ar gyfer PISA 2015, roedd sgorau Cymru gryn dipyn islaw sgorau gwledydd eraill y Deyrnas Unedig mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg. Roedd diffyg medrau sylfaenol ymhlith tua thraean o ddisgyblion yng Nghymru mewn o leiaf un o dri maes PISA, o gymharu â 29% yn Lloegr a'r Alban, a 25% yng Ngogledd Iwerddon.

Mewn gwyddoniaeth, fe wnaeth 31 o wledydd berfformio'n llawer gwell na Chymru o gymharu â 25 yn PISA 2012. Er 2006, bu gostyngiad sylweddol yn y sgorau cyfartalog ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru.

Mewn mathemateg, fe wnaeth 33 o wledydd berfformio'n sylweddol well na Chymru o gymharu â 38 yn PISA 2012. At ei gilydd, nid oes llawer o dystiolaeth bod newid cynaledig mewn mathemateg er 2006.

Mewn darllen, fe wnaeth 33 o wledydd berfformio'n sylweddol well na Chymru, sef dau yn fwy nag yn PISA 2012. Ni fu unrhyw newid ystadegol arwyddocaol yn y sgorau darllen ar gyfer Cymru er 2006. Mae'r data'n awgrymu bod medrau darllen cymharol isel merched yn broblem yng Nghymru.

O gymharu â gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig, Cymru oedd â'r gyfran isaf o ddisgyblion ar draws pob pwnc yn cyflawni'r lefelau uchaf yn PISA. Roedd hyn yn wir yn PISA 2012 hefyd.

Mae disgyblion o gefndiroedd economaidd gymdeithasol uchel yng Nghymru yn cyflawni sgorau PISA arwyddocaol is na disgyblion tebyg o ran mantais economaidd gymdeithasol mewn gwledydd eraill. At ei gilydd, caiff cefndir teuluol effaith lai ar gyflawniad disgyblion yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o wledydd eraill.

Yn gyffredinol, mae sgorau PISA yn amrywio mwy rhwng disgyblion o fewn yr un ysgol yng Nghymru nag y maent rhwng ysgolion.

# Pa mor dda yw safonau mewn gwyddoniaeth?

**'Llythrennedd wyddonol' oedd prif ffocws PISA 2015.**

Mae PISA yn gwahaniaethu rhwng systemau gwahanol mewn gwyddoniaeth. Diffinnir y systemau hyn fel a ganlyn:

- System ffisegol, sy'n mesur gwybodaeth am sylwedd, mudiant a grymoedd
- System fyw, sy'n ymwneud â chelloedd, organebau, pobl
- System gwyddorau daear a gofod, sy'n edrych ar hanes y ddaear, y ddaear yn y gofod, a'r bydysawd

Fe wnaeth PISA 2015 hefyd archwilio medrau disgyblion mewn tri chymhwysedd gwyddonol craidd:

- Dehongli data a thystiolaeth yn wyddonol
- Arfarnu a dylunio ymholiad gwyddonol
- Esbonio ffenomenau yn wyddonol

Mae'r profion PISA yn profi mathau o wybodaeth wyddonol ar wahân hefyd, sef:

- Gwybodaeth am gynnwys
- Gwybodaeth weithdrefnol ac epistemig

# Canfyddiadau allweddol ar gyfer gwyddoniaeth


Mae canlyniadau PISA yn dangos y bu dirywiad arwyddocaol yn ystadegol yn sgorau gwyddoniaeth PISA yng Nghymru er 2006. Hwn oedd y cylch PISA diwethaf lle'r aseswyd gwyddoniaeth fel y prif faes.

Mae medrau'r disgyblion â'r cyflawniad isaf mewn gwyddoniaeth wedi aros yn debyg fwy neu lai rhwng 2006 a 2015. Fodd bynnag, un ffactor allweddol y tu ôl i'r perfformiad mewn gwyddoniaeth sy'n gwanhau yn gyffredinol fu'r dirywiad mewn perfformiad y disgyblion sy'n cyflawni orau. Yn 2015, dim ond 5% o ddisgyblion Cymru a ddiffinnir fel perfformwyr gorau o gymharu ag 8% ar draws gwledydd cyfranogol, a 12% yn Lloegr.

Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae bechgyn ychydig yn gryfach na merched mewn agweddau fel y system wyddonol ffisegol ac esbonio ffenomenau yn wyddonol.

Cyflawnodd disgyblion a wnaeth fersiwn Gymraeg prawf gwyddoniaeth PISA 2015 sgorau is na'u cyfoedion a gwblhaodd y prawf yn Saesneg.

**Ffigur 3.7:**
Perfformiad cymedrig ym meysydd gwyddoniaeth PISA 2015, yn ôl gwledydd y DU




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2015, yn Jerrim & Shure (2016)

At ei gilydd, cyflawnodd disgyblion yng Nghymru sgorau tebyg ar draws tair system wyddonol PISA a'r mathau o wybodaeth wyddonol. Ar gyfer cymwyseddau gwyddonol, mae disgyblion yng Nghymru yn gryfach o ran esbonio ffenomenau yn wyddonol nag ydynt yn arfarnu ac yn dylunio ymholiad gwyddonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng Nghymru o'r farn bod gwyddoniaeth ysgol yn berthnasol i'w dyfodol, ni waeth beth yw eu rhyw, statws economaidd-gymdeithasol, a'u hyfedredd yn y maes hwn. Mae disgyblion yng Nghymru yn fwy tebygol o ddyheu am yrfa mewn gwyddoniaeth na disgyblion o'r wlad OECD cyfartalog neu'r wlad sy'n cyflawni orau ar gyfartaledd.

Dywedodd disgyblion eu bod yn treulio 90 munud yn fwy yn astudio gwyddoniaeth yn yr ysgol bob wythnos na disgyblion ar draws y gwledydd OECD ar gyfartaledd. Mae disgyblion yng Nghymru yn adrodd hefyd eu bod yn treulio mwy o amser yn astudio gwyddoniaeth y tu allan i'r ysgol na'r cyfartaledd ar draws aelodau OECD a'r cyfartaledd ar draws y gwledydd â pherfformiad uchel.


Mae disgyblion yn adrodd bod tarfu ar lefel isel yn digwydd yn amlach mewn ystafelloedd dosbarth gwyddoniaeth yng Nghymru na disgyblion mewn llawer o wledydd eraill OECD a gwledydd â pherfformiad uchel.

Yn gyffredinol, mae penaethiaid yng Nghymru yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgu gwyddoniaeth yn eu hysgolion. Fodd bynnag, mae penaethiaid yng Nghymru yn fwy tebygol o adrodd am absenoldeb staff fel rhwystr i ddisgyblion rhag dysgu na phenaethiaid yn y wlad OECD gyfartalog neu'r gwledydd sy'n cyflawni orau ar gyfartaledd.

## Lefelau perfformiad uwch mewn PISA

Mae sgorau PISA 2015 yn dangos bod perfformiad Cymru ar draws yr holl bynciau ar y lefelau hyfedredd uwch yn is na'r cyfartaledd OECD ac yn is na pherfformiad gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn wir yn PISA 2012.

**Ffigur 3.8:**
Canran y myfyrwyr ar y lefelau hyfedredd uwch (lefelau 5 a 6) yn ôl gwledydd y DU, PISA 2015




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2015, yn Jerrim & Shure (2016)

Mae llai o ddisgyblion sy'n cyflawni'n uchel mewn gwyddoniaeth yng Nghymru na'r cyfartaledd ar draws aelodau'r OECD, sef 8%. Dim ond mewn tair gwlad OECD (Twrci, Mecsico a Chile) y mae perfformiad mathemateg y cyflawnwyr uchaf yn is nag yng Nghymru. Mae bwlch nodedig o amlwg mewn medrau darllen rhwng y disgyblion sy'n cyflawni uchaf yng Nghymru a'r disgyblion sy'n cyflawni uchaf mewn gwledydd eraill.

Mae deilliannau PISA 2015 yn awgrymu bod cysylltiad gwannach rhwng statws economaidd-gymdeithasol a sgorau gwyddoniaeth PISA yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Mae hyn oherwydd nad yw'r disgyblion mwyaf breintiedig yng Nghymru yn cyflawni mor uchel â disgyblion tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# Crynodeb

Yn debyg i gylchoedd PISA blaenorol, mae deilliannau PISA 2015 yn parhau i amlygu gwendidau pwysig mewn addysg yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae diffyg medrau sylfaenol gan ormod o ddisgyblion mewn gwyddoniaeth, mathemateg a darllen, ac nid oes digon o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau uchaf yn y pynciau hyn. O'r Cyfnod Sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4 a thu hwnt, mae angen i ysgolion sicrhau bod disgyblion yn datblygu sylfeini cadarn yn y pynciau hanfodol hyn. Yn bwysig, mae angen i athrawon sicrhau bod pob disgybl yn gweithio ar y lefelau uchaf yn ôl eu gallu.

# Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion

**Ffigur 3.9:**
Prif ddangosyddion ar gyfer disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, 2012-2016

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion sy'n ymrestru ar gyfer cyfwerth â dwy Safon Uwch neu fwy yn cyflawni trothwy lefel 3** | 96.9% | 96.5% | 97.1% | 97.0% | 98.0% |
| **Sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog disgyblion 17 oed** | 772.9 | 806.6 | 804.1 | 799.7 | 823.2 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016d

Yn 2016, fe wnaeth cyfran y disgyblion a gyflawnodd drothwy lefel 3 gynyddu un pwynt canran i 98%. Mae hyn ychydig dros un pwynt canran yn uwch nag yn 2012. Fe wnaeth y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog a gyflawnwyd gan y dysgwyr hyn gynyddu o ryw 24 pwynt yn 2016. Hwn yw'r cynnydd mwyaf er 2013. Er 2012, mae'r sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog wedi cynyddu ryw 50 o bwyntiau. Mae hyn gyfwerth â disgyblion yn cyflawni, ar gyfartaledd, ryw un a hanner o raddau'n uwch nag yn 2012.

# Gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched

**Ffigur 3.10:**
Cymharu perfformiad bechgyn a merched ym mhob cyfnod allweddol, 2016

| | Merched 2016 | Bechgyn 2016 | Gwahaniaeth pwynt canran 2016 | Gwahaniaeth pwynt canran 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen** | 91.2% | 83.0% | 8.2 | 7.7 |
| **Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2** | 91.3% | 86.1% | 5.2 | 5.8 |
| **Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3** | 89.7% | 82.3% | 7.4 | 7.4 |
| **Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 gyda Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 64.7% | 56.1% | 8.6 | 7.5 |

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2015d, 2016c, 2016d


Yn 2016, ar draws y Cyfnod Sylfaen a phob cyfnod allweddol, parhaodd merched i berfformio'n well na bechgyn. Mae'r gwahaniaeth lleiaf rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cyfran uwch o ferched yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen o gymharu â bechgyn. Mae'r patrwm yn debyg yn fras i'r rheini sy'n cyflawni deilliant 6 neu'n uwch ym mhob un o'r meysydd dysgu, er bod y bwlch i'r gwrthwyneb mewn datblygiad mathemategol, lle mae cyfran ychydig yn uwch o fechgyn yn cyflawni'r deilliant uwch. Fe wnaeth y gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen gynyddu ryw hanner pwynt canran yn 2016. Mae hyn oherwydd cynnydd yng nghyrhaeddiad merched yn yr holl feysydd dysgu, ac eithrio datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPCh), a gostyngiad mewn cyrhaeddiad gan fechgyn yn yr holl feysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched leihau ar draws yr holl bynciau craidd ar y rhan fwyaf o lefelau yn 2016. Yn y dangosydd pwnc craidd, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o ychydig dros bum pwynt canran yn unig. Dyma'r gwahaniaeth lleiaf a fu erioed.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2016, roedd cynnydd o ddau bwynt canran yng nghyfran y merched a bechgyn yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Arhosodd y gwahaniaeth rhyngddynt yr un peth. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn yr holl bynciau craidd ar bob lefel, er bod y bwlch wedi lleihau'n gyffredinol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pum mlynedd diwethaf.

**Ffigur 3.11:**
Canran y disgyblion yn cyflawni lefel 2 yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 yn ôl rhyw




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016d

Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg o ryw wyth a hanner pwynt canran. Yn 2016, cynyddodd y bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn ychydig dros un pwynt canran o'i fan isaf yn 2015. Fodd bynnag, mae wedi aros fwy neu lai'r un fath ar ryw wyth a hanner pwynt canran dros y pum mlynedd diwethaf.


# Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

**Ffigur 3.12:**
Cymharu perfformiad disgyblion yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ym mhob cyfnod allweddol, 2016

| | Disgyblion heb fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim 2016 | Disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim 2016 | Gwahaniaeth pwynt canran 2016 | Gwahaniaeth pwynt canran 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen** | 90.0% | 75.7% | 14.3 | 14.9 |
| **Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2** | 91.4% | 77.1% | 14.3 | 15.7 |
| **Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3** | 89.8% | 69.4% | 20.4 | 22.2 |
| **Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 gyda Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 66.8% | 35.6% | 31.3 | 32.4 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016e

**Ffigur 3.13:**
Canran y disgyblion yn cyflawni lefel 2 yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016e

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn islaw perfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar draws y Cyfnod Sylfaen a phob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion wedi gwella ym mhob cyfnod. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar drothwy lefel 2, yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, wedi gwella'n gyson er 2012. At hynny, dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r mesur hwn wedi cynyddu ar raddfa gyflymach ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rheiny nad ydynt yn gymwys. Yn 2016, mae'r bwlch rhwng y disgyblion hyn yn dal yn fawr ar ychydig dros 31 pwynt canran, ond hwn yw'r bwlch lleiaf dros y 10 mlynedd diwethaf.

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

**Ffigur 3.14:**
Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2011-2015

(p) SFR: Data dros dro yw'r data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben yn 2015

| Oedran | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| **16-18** | 12.2% | 11.0% | 10.9% | 10.8% | 10.5% (p) |
| **19-24** | 22.3% | 23.0% | 21.0% | 20.4% | 19.0% (p) |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016f

Ar ddiwedd 2015, nid oedd 10.5% o bobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn gyfwerth â rhyw 11,500 o bobl ifanc yn eu harddegau, ac mae'n dangos gostyngiad o 500 o bobl ifanc o gymharu â ffigur 2014. Mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Lloegr ychydig o dan ddau bwynt canran yn is na'r gyfradd gyfwerth ar gyfer Cymru ar hyn o bryd.

Yn 2015, roedd yn hysbys nad oedd 2.8% o'r rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn cymharu â 3.1% yn 2014. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng 1.6 pwynt canran.

Ar ddiwedd 2015, roedd 19.0% o bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn gyfwerth â rhyw 48,200 o bobl ifanc. Mae hwn yn ostyngiad o gymharu â 2014 pan roedd 20.4% o bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi aros yn weddol gyson ar ryw un o bob pump o bobl ifanc.

# Presenoldeb

**Ffigur 3.15:**
Presenoldeb gan ddisgyblion o oedran ysgol statudol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, 2012-2016

| Cyfnod ysgol | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 93.9% | 93.7% | 94.8% | 94.9% | 94.9% |
| **Uwchradd** | 92.1% | 92.6% | 93.6% | 93.8% | 94.1% |
| **Gwahaniaeth pwynt canran*** | 1.7 | 1.1 | 1.2 | 1.1 | 0.8 |

* Gwahaniaeth rhwng presenoldeb ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2016g, 2016h

Mae'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi parhau'n gyson dros y tair blynedd diwethaf, tra bod y gyfradd mewn ysgolion uwchradd wedi gwella'n flynyddol yn ystod yr un cyfnod. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o 1.1 pwynt canran a 2 bwynt canran yn y drefn honno. Mae'r cynnydd hwn yn golygu bod disgyblion oed cynradd ac uwchradd wedi mynychu'r ysgol ar gyfartaledd rhwng rhyw ddau a thri diwrnod, yn y drefn honno, yn fwy yn 2015-2016 nag y gwnaethont yn 2011-2012.

Absenoliaeth barhaus yw'r term sy'n cael ei roi i ddisgyblion y mae eu cyfraddau presenoldeb yn 80% neu'n is. Mae canran absenoliaeth barhaus wedi parhau i ostwng mewn ysgolion uwchradd o 4.5% o ddisgyblion yn 2015 i 3.9% yn 2016. Fodd bynnag, mae'r gyfradd absenoliaeth barhaus mewn ysgolion uwchradd rhyw ddwy waith a hanner y gyfradd mewn ysgolion cynradd. Yn 2016, mewn ysgolion uwchradd, roedd disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn cyfrif am ychydig dros bumed o'r holl absenoldebau. Mewn ysgolion cynradd, roeddent yn cyfrif am ryw 8% o absenoldebau. Mae cyfran y disgyblion a ddosbarthwyd yn rhai sy'n absennol yn barhaus mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi haneru fwy neu lai er 2012.

Mae cyfraddau absenoliaeth uwch ar gyfartaledd mewn ysgolion sydd â chyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.


Mae cyfradd absenoliaeth anawdurdodedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi aros yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf, ar 1.1% ac 1.3% yn y drefn honno.

Mewn ysgolion cynradd yn 2016, roedd rhyw 64% o'r holl absenoldeb yn sgil salwch neu apwyntiadau meddygol. Roedd dros 9% o absenoldebau yn sgil gwyliau teulu y cytunwyd iddynt, ac roedd rhyw 4% o absenoldebau wedi'u hawdurdodi gan ysgolion ond nad oeddent yn dod o dan godau safonedig absenoldeb o'r ysgol.Mewn ysgolion uwchradd yn 2016, roedd ychydig dros ddwy ran o dair o'r holl absenoldebau oherwydd salwch neu apwyntiadau meddygol. Roedd ychydig o dan 2% o absenoldebau yn sgil gwyliau teulu y cytunwyd iddynt, ac roedd 1.6% o absenoldebau yn sgil disgyblion yn cael eu gwahardd heb i unrhyw ddarpariaeth arall gael ei darparu. Roedd dros 6% o absenoldebau yn rhai a awdurdodwyd gan ysgolion ond nad oeddent yn dod o dan godau safonol absenoldeb o'r ysgol.

# Gwaharddiadau

Ar gyfer 2014-2015, hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae data gwaharddiadau lefel disgyblion wedi'u casglu o unedau cyfeirio disgyblion. I gael manylion ynglŷn â newidiadau i'r broses o lunio'r ystadegau hyn, cyfeiriwch at Ddatganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (2016i).


**Ffigur 3.16:**
Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, 2011-2015




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016i


Mae niferoedd y gwaharddiadau parhaol wedi aros yn gyson ar y cyfan dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru. Yn 2015, cafodd 89 o ddisgyblion eu gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ryw bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros i ddisgyblion gael eu gwahardd yn barhaol yn 2015 yn cynnwys ymddygiad parhaus yn tarfu ar eraill, cam-drin geiriol neu ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn ac ymosod yn gorfforol ar ddisgybl neu oedolyn.

**Ffigur 3.17:**
Nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir, 2012-2015




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016i

**Ffigur 3.18:**
Nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol am dros bum niwrnod o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir, 2012-2015




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016i

Yn 2015, fe wnaeth cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol gynyddu o gymharu â 2014. Yn 2015, y rhesymau mwyaf cyffredin am ddisgyblion yn cael eu gwahardd am chwe diwrnod neu fwy neu bum niwrnod neu lai oedd ymddygiad parhaus yn tarfu ar eraill, cam-drin geiriol neu ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn a cham-drin corfforol yn erbyn oedolyn neu blentyn.

Yn 2015, roedd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyfrif am saith o bob deg o'r holl waharddiadau, tra bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyfrif am ychydig o dan hanner y gwaharddiadau.


# Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes

Ar gyfer 2015, mae newid i'r diffiniad o oedolion oedran gweithio. Bellach, mae oedolion oedran gweithio yn cyfeirio at ddynion a menywod 18-64 oed, yn hytrach na 18-64 oed i ddynion a 18-59 oed i fenywod fel yr oedd yn flaenorol. Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu ffigurau'n uniongyrchol â'r ffigurau o flynyddoedd blaenorol. I gael manylion ynglŷn â newidiadau i'r broses o lunio'r ystadegau hyn, cyfeiriwch at Ddatganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru (2016j) .

At ei gilydd, yn 2015, ychydig o newid a fu yn y lefelau cymwysterau yng Nghymru o gymharu â'r rheini yn 2014.

Yn 2015, roedd ychydig dros dri chwarter o oedolion oedran gweithio yng Nghymru yn meddu ar gymwysterau lefel 2 o leiaf, ac roedd cymwysterau ar lefel 4 neu'n uwch gan ychydig dros draean. Adroddodd ryw un o bob deg o oedolion oedran gweithio yng Nghymru nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau.

**Ffigur 3.19:**
Lefel y cymhwyster uchaf a ddelir gan oedolion oedran gweithio, 2008-2015 (a)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016j

(a) Lefel Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) y cymhwyster uchaf a ddelir.

Yn gyffredinol, roedd lefelau cymwysterau ar eu huchaf yng Nghaerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg, ac ar eu hisaf yn awdurdodau cymoedd De Cymru. Roedd lefelau cymwysterau yng Nghymru yn is yn gyffredinol nag yn Lloegr, Yr Alban a'r DU yn ei gyfanrwydd, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.

Adroddodd dau ddeg pump y cant o'r rhai a oedd naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn cymharu â 6% ar gyfer y rhai sydd mewn cyflogaeth.


# Addysg bellach

Yn 2015, adroddwyd am brif gyrsiau cymwysterau dysgwyr am y tro cyntaf yn nata 2014-2015.

At ei gilydd, cafodd 82% o brif gymwysterau eu cwblhau'n llwyddiannus.

Ar draws yr holl raglenni addysg bellach yn 2014-2015, cafodd 86% o weithgareddau dysgu eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae'r ffigur hwn yr un fath ag ydoedd yn 2014.

**Ffigur 3.20:**
Cyfraddau llwyddo cyffredinol o ran gweithgarwch dysgu mewn colegau addysg bellach, 2010-2011 i 2014-2015




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2014b, 2015d, 2016k

# Dysgu yn y gwaith


Mae'n rhaid i ddysgwyr sydd ar raglenni prentisiaeth gyflawni ystod o gymwysterau er mwyn ennill y 'fframwaith' prentisiaeth llawn. Mae oddeutu 50% o'r holl raglenni prentisiaeth mewn Prentisiaethau Sylfaen, mae 40% mewn Prentisiaethau ac mae 10% mewn Prentisiaethau Uwch.

Yn 2015, dangosodd cyfraddau llwyddo'r fframwaith dysgu yn y gwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen ostyngiad o ddau bwynt canran i 82% o gymharu â 2014. Arhosodd cyfraddau llwyddo mewn Prentisiaethau yr un fath, sef 85%.

Hon yw'r ail flwyddyn y mae data wedi'u hadrodd o Brentisiaethau Uwch. Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer y fframweithiau hyn wedi cynyddu o 67% yn 2014 i 72% yn 2015.

Y gyfradd llwyddo yn y fframwaith ar y cyd ar gyfer Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch gyda'i gilydd oedd 82%.

**Ffigur 3.21:**
Cyfraddau llwyddo yn y fframwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch, 2010-2011 i 2014-2015




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2014b, 2015d, 2016k

Mewn Hyfforddeiaethau, mae cyfraddau llwyddo cyffredinol o ran gweithgarwch dysgu wedi cynyddu un pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol i 87% ar gyfer rhaglenni Ymgysylltu, a dau bwynt canran i 81% ar gyfer rhaglenni lefel 1.

Yn 2015, mewn rhaglenni Cyflogadwyedd Oedolion, sy'n cynnwys rhaglenni Camau at Waith a Parod at Waith, mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol o ran gweithgarwch dysgu yn dangos gostyngiad bach o gymharu â'r rheini yn 2014. Fe wnaeth rhaglenni Dysgu â Ffocws ar Waith ostwng dau bwynt canran i 78%, a Llwybrau at Waith un pwynt canran i 97%.

Yn 2015, o fewn tri mis o gwblhau eu rhaglenni Cyflogadwyedd Oedolion, roedd 57% o'r rhai a adawodd wedi mynd ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Mae hwn yn gynnydd o ddau bwynt canran o gymharu â'r llynedd.

# Effaith gweithgarwch arolygu dilynol

Mae gweithgarwch dilynol yn nodwedd o'n trefniadau arolygu.

Mae'r arfer o 'ddilyniant' ar ôl arolygiadau yn golygu, lle mae gan ysgolion neu ddarparwyr eraill ddiffygion yn eu darpariaeth, ein bod yn gwneud mwy na dim ond eu gadael gyda'r adroddiad neu ofyniad i lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Ar ddyddiad diweddarach, mae arolygwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro i weld faint o gynnydd a wnaed mewn perthynas â'u hargymhellion ar gyfer gwella, fel y cyhoeddwyd yn yr adroddiad arolygu. Os nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud erbyn y gweithgaredd monitro cyntaf, bydd y darparwr yn parhau i gael ei fonitro.

Os nodir 'nad oes angen monitro pellach', mae'r ysgol neu ddarparwr arall yn derbyn adroddiad wedi'i gyhoeddi yn nodi'r cynnydd y maent wedi'i wneud. Mae'r adroddiadau hyn yn dystiolaeth o effaith arolygiadau Estyn o ran helpu ysgolion a darparwyr unigol i wneud cynnydd.

# Ysgolion

Heblaw am 'arfer ragorol', mae pedwar categori gweithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion a gynhelir (cynradd, uwchradd, ac ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion). Y mwyaf difrifol yw'r ysgolion hynny y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt neu y mae angen gwelliant sylweddol arnynt. Mae'r rhain yn gategorïau statudol wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth. Yn ogystal, mae dau gategori gweithgarwch dilynol pellach, y bydd arolygwyr Estyn yn eu monitro, sef 'monitro gan Estyn' a 'monitro gan yr awdurdod lleol'.

Isod, ceir siart sy'n dangos nifer yr ysgolion y bu angen eu rhoi mewn categorïau monitro dilynol gwahanol dros y chwe blynedd diwethaf.

# Nifer yr ysgolion yr oedd angen gweithgarwch dilynol ynddynt

**Ffigur 3.22:**
Nifer yr ysgolion a gynhelir a aeth i gategori gweithgarwch dilynol adeg eu harolygiad craidd

| Blwyddyn | Mesurau arbennig | Angen gwelliant sylweddol | Monitro gan Estyn | Monitro gan yr ALI | **Cyfanswm mewn gweithgarwch dilynol** | **Cyfanswm nifer yr arolygiadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2010-2011 | 4 | 10 | 51 | 40 | **105** | **279** |
| 2011-2012 | 7 | 14 | 75 | 37 | **133** | **266** |
| 2012-2013 | 11 | 14 | 75 | 34 | **134** | **265** |
| 2013-2014 | 8 | 14 | 98 | 62 | **182** | **279** |
| 2014-2015 | 12 | 20 | 71 | 68 | **171** | **274** |
| 2015-2016 | 9 | 9 | 61 | 61 | **140** | **223** |

Yn 2015-2016, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol mewn bron i ddwy ran o dair (140) o'r ysgolion y gwnaethom eu harolygu.  Fe wnaeth cyfran yr ysgolion yr oedd angen gwelliant sylweddol arnynt yn dilyn eu harolygiad craidd ostwng ychydig o gymharu â 2014-2015, ac arhosodd y gyfran o ysgolion yr oedd angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt yr un fath.

# Ysgolion yn dod allan o gategori gweithgarwch dilynol

Nid oes angen gweithgarwch dilynol ar ysgolion mwyach pan fyddant yn gallu dangos eu bod wedi gwneud gwelliannau addas yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd.  Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn gyffredinol yn addasu ac yn datblygu'u medrau yn gyflym er mwyn cryfhau trefniadau rheoli a gwella deilliannau a'r ddarpariaeth.  Yn aml, caiff uwch arweinwyr eu cynorthwyo gan gymheiriaid o ysgolion eraill neu gynghorwyr allanol.  Maent yn helpu arweinwyr i wneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion er mwyn llywio hunanarfarnu cywir.  O ganlyniad, mae arweinwyr wedyn yn nodi ac yn cynllunio blaenoriaethau gwella ysgol realistig, gan gynnwys sut i gymryd camau amserol i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, lle bo angen.

Mae'r amser a gymer i ysgol fod wedi gwneud digon o gynnydd i gael ei thynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn dibynnu ar nifer a difrifoldeb y diffygion a nodwyd adeg yr arolygiad craidd. Bydd ysgolion sydd â nifer o ddiffygion pwysig mewn categori gweithgarwch dilynol mwy difrifol, ac maent yn debygol o gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu.

Mae'r siart isod yn dangos nifer a chyfran yr ysgolion sydd wedi'u tynnu o gategori gweithgarwch dilynol ar gyfer pob blwyddyn er 2010.

**Ffigur 3.23:**
Nifer yr ysgolion a gynhelir yr oedd angen gweithgarwch dilynol ynddynt adeg eu harolygiad craidd, a'r niferoedd sydd bellach allan o'r categori erbyn 1 Medi 2016

| Blwyddyn | Nifer yr ysgolion a gynhelir yn mynd i mewn i gategori gweithgarwch dilynol adeg arolygiad craidd | Nifer yr ysgolion hyn a gynhelir yn dod allan o gategori gweithgarwch dilynol, erbyn 1 Medi 2016 (a) | |
|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | % |
| 2010-2011 | 105 | 105 | 100% |
| 2011-2012 | 133 | 130 | 98% |
| 2012-2013 | 134 | 130 | 97% |
| 2013-2014 | 182 | 159 | 87% |
| 2014-2015 | 171 | 89 | 52% |
| 2015-2016 | 140 | 0 | 0% |

(a) Mae hyn yn cynnwys ysgolion a allai fod wedi cau neu uno ag ysgolion eraill, yn ogystal ag ysgolion sydd wedi'u tynnu o gategori gweithgarwch dilynol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn gwneud cynnydd cyson mewn perthynas â'r argymhellion a gyhoeddwyd mewn adroddiadau arolygu. Caiff tua dwy ran o dair o ysgolion eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol ar ôl blwyddyn. Ar ôl dwy neu dair blynedd, mae cyfran yr ysgolion sy'n dal mewn categori gweithgarwch dilynol yn isel. Yr ysgolion sy'n parhau mewn categori gweithgarwch dilynol yn bennaf yw'r rheiny a roddwyd yn y categori mesurau arbennig yn wreiddiol, neu a gafodd eu symud i mewn i gategori statudol am nad oeddent wedi gwneud digon o gynnydd mewn categorïau gweithgarwch dilynol eraill.

Mae nifer o nodweddion tebyg gan ysgolion sydd mewn categorïau gweithgarwch dilynol statudol. Mae gan bob un ohonynt wendidau yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, mae arolygwyr yn gwneud argymhellion naill ai i sefydlu arweinyddiaeth sefydlog, neu i gryfhau ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel. Yn rhy aml, nid yw'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol yn nodi'r diffygion hyn ac yn ymyrryd yn ddigon cyflym i wella arweinyddiaeth wan.

Pan fydd angen gweithgarwch dilynol dwys ar ysgolion am gyfnodau amser estynedig, y rheswm am hyn yn bennaf yw bod eu harweinwyr yn methu mynd i'r afael â diffygion yn ansawdd yr addysgu ac nid ydynt yn dwyn athrawon i gyfrif yn gadarn am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion. Er bod yna bocedi o arfer da yn yr ystafell ddosbarth yn aml ym mhob un o'r ysgolion hyn, nid yw'r addysgu yn ddigon da yn gyson i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud. Nid yw arfer dda yn cael ei rhannu'n rheolaidd ac mae hyn yn golygu nad oes dealltwriaeth glir gan lawer o staff o'r hyn sy'n gwneud addysgu a dysgu effeithiol.

# Atodiad 1



# Arolwg

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- adysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Nod uniongyrchol ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Yn nifer o'r sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda chyrff rheoleiddio ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGGCC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, o dimau troseddau ieuenctid (TTI) yng Nghymru. Rydyn ni'n ymuno ag Arolygiaeth Carchardai EM ac Ofsted i arolygu sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o bobl ifanc o Gymru. Rydyn ni hefyd yn cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol mae'r Gweinidog Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Gallwn ni edrych o safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant sydd wedi'u cyflwyno ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma: **www.estyn.llyw.cymru**

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a disgrifwyr barn

Pan fyddwn ni'n arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru, rydyn ni'n defnyddioein Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r fframwaith yma'n cynnwys tri chwestiwn allweddol a deg o ddangosyddion ansawdd, ac maen nhw wedi'u trefnu dan y penawdau sy'n dilyn:

Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.1 Safonau
1.2 Lles

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Profiadau dysgu
2.2 Addysgu
2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
2.4 Yr amgylchedd dysgu

Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth
3.2 Gwella ansawdd
3.3 Gweithio mewn partneriaethau
3.4 Rheoli adnoddau

Mewn arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, rydyn ni'n creu adroddiadau ar y ddarpariaeth dan bedwar pennawd:

2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

2.2 Cymorth argyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol

2.3 Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles

2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

Rydyn ni hefyd yn rhoi dwy farn gyffredinol ary perfformiad presennol ac ar y rhagolygon ar gyfer gwella.

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu.

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau y maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau na cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | ✓ | | | ✓ | | |
| Monitro gan Estyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| Arfer ragorol | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol ac y nodir felly bod ganddo arfer sy'n arwain y sector mewn un maes neu fwy, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achosi'wrhannugydadarparwyreraill. Gellircyhoeddi'rastudiaethachosarwefanEstyn. |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r darparwr i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwydynyradroddiad. Byddswyddogionyrawdurdodlleolyntrafodcynnydd gydag arolygydd cyswllt Estyn ar gyfer yr awdurdod lleol. Tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu adroddiad i Estyn, yn esbonio'r modd y mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd. |
| Monitro gan Estyn | Gan amlaf, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. |
| Gwelliant â ffocws | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| Angen gwelliant sylweddol | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| Mesurau arbennig | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |
| Monitro gan Estyn: ôl-16 | Os nodir bod angen i ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon gael ei fonitro gan dîm Estyn, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os yw arolygwyr yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud, gallai hyn arwain at ailarolygiad llawn. Yn dilyn monitro gan Estyn, bydd llythyr yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn, yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymweliad monitro. |
| Ailarolygiad | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |

# Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau

Y geiriau a'r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl sy'n dilyn yw'r rheini'r ydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl-gywir.

| | |
|---|---|
| bron bob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | agos at 50% |
| lleiafrif | o dan 40% |
| ychydig | o dan 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

# Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad hwn yn dod o gronfa ddata deilliannau arolygu Estyn yn bennaf. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o adrannau Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae'n bosibl na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.

Wrth ddadansoddi deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn arolygu cyfran o ddarparwyr ym mhob sector. Er enghraifft, yn ystod 2015-2016, arolygom 178 (14%) o ysgolion cynradd a 33 (16%) o ysgolion uwchradd. Gall ymddangos bod newidiadau mawr wrth gymharu'r deilliannau arolygu rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, ers i ni gyflwyno'r Fframwaith Arolygu Cyffredin presennol ym Medi 2010, nid yw unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn wedi bod yn arwyddocaol yn ystadegol.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod angen cymryd cryn ofal wrth gymharu deilliannau arolygu, a data arall, rhwng sectorau ac o fewn sectorau pan fydd nifer y darparwyr yn fach.

Cyhoeddom ein deilliannau arolygu ar gyfer 2015-2016 fel **ystadegau swyddogol** am y tro cyntaf eleni. Cafodd yr ystadegau eu datgan ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar wefan Estyn, ac fe'u paratowyd yn unol ag egwyddorion a phrotocolau'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol**.

Mae ein **gwefan ddata ryngweithiol** yn rhoi crynodebau o'n deilliannau arolygu ac ymatebion i holiaduron gan ddisgyblion a rhieni. Gall defnyddwyr weithredu hidlwyr i addasu eu golygon data a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'r wefan yn cynnwys data ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 a 31 Awst 2016.

I gael mwy o wybodaeth am yr adroddiadau arolygu ar gyfer darparwyr unigol, ewch i: **estyn.llyw.cymru/arolygu/chwilio**

# Cyfeiriadau:

Coates, S. (2016). *Unlocking Potential: A review of education in prison*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/524013/education-review-report.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2013) *Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Teithiau%20gwella%20deuddeg%20ysgol%20uwchradd%20-%20Rhagfyr%202013.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2015a) *Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Arfer_orau_o_ran_datblygu_arweinyddiaeth_mewn_ysgolion_-_Mehefin_2015.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2015b) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Learner%20support%20services%20in%20further%20education%20colleges%20for%20learners%20aged%2016-19%20-%20CY.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2015c) *Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Breaking%20down%20barriers%20to%20apprenticeship%20cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016a) *Deilliannau arolygu darparwyr addysg yng Nghymru a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2015-2016* [Ar-lein]. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/Estyn_OfficialStatsPublication_Oct2016%20-%20PDF.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014 – 2015*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accesible_WEB.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016c) *Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Leadership%20and%20primary%20school%20improvement%20cy%20%20-%20new%20links.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016d) *Addysg heblaw yn yr ysgol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/EOTAS%20cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016e) *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal - adroddiad arfer orau*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/LAC%20Remit%20report%20cy_0.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016f) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn colegau arbenigol annibynnol:* Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Learner%20progress%20and%20destinations%20in%20independent%20specialist%20colleges%20cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016g) *Arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Effective%20teaching%20and%20learning%20observation%20in%20further%20education%20colleges%20cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016h) *Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/The%20quality%20of%20education%20and%20training%20in%20adult%20health%20and%20social%20care%20%28Cy%29.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016i) *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Local%20authority%20Welsh%20in%20Education%20Strategic%20Plans%20CY%20-%20final.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016j) *Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Adult%20Community%20Learning%20in%20Wales%20cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Jerrim, J. a Shure, N. (2016) *Cyflawniad Pobl Ifanc 15 Oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2015*. Llundain: Athrofa Addysg Coleg Prifysgol Llundain. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/161206-pisa-2015-cy.pdf [Darllenwyd 6 Rhagfyr 2016]

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2016) *Review of the Youth Justice System in England and Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577103/youth-justice-review-final-report.pdf [[Darllenwyd 14 Rhagfyr 2016]

OECD (2016) *What makes a school a learning organisation? A guide for policy makers, school leaders and teachers*. Paris: Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/education/school/school-learning-organisation.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2012) *Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2012/120814s-dr1292012cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2013) *Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2013/130814-end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-2013-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2014a) *Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 - Wedi'i diwygio* Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/140828-end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-revised-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2014b) *Mesurau Deilliannau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned: 2012/13*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/140403-learner-outcome-measure-fe-wbl-cl-2012-13-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2015a) *Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/140217-national-model-for-regional-working-cy-v2.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2015b). *Datganiad Ysgrifenedig – Cyflwyno Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/digitalcompetenceframework/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2015c) *Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150818-end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-2015-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2015d) *Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned: 2013/14*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150331-learner-outcome-measures-further-education-work-based-adult-community-learning-2013-14-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Datblygu'r gweithlu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/resources/improvementareas/workforce-development/?skip=1&lang=cy [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016b) *Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, 2014/15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/161027-initial-teacher-training-2014-15-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016c) *Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon o Bynciau Craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, 2016*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160810-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-2016-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016d) *Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, 2015/16 [Terfynol]*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/161207-examination-results-2015-16-cy.pdf [Darllenwyd 7 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016e) *Cyflawniad a hawl i brydau ysgol am ddim*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?lang=cy [Darllenwyd 15 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016f) *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?lang=cy [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016g) *Absenoldeb o ysgolion cynradd, 2015/16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/absenteeism-primary-schools/?lang=cy [Darllenwyd 15 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016h) *Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd, 2015/16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160831-absenteeism-secondary-schools-2015-16-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016i) *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2014/15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160928-permanent-fixed-term-exclusions-from-schools-2014-15-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016j) *Lefelau'r Cymhwyster Uchaf oedd gan Oedolion o Oedran Gweithio, 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160420-levels-highest-qualification-held-working-age-adults-2015-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016k) *Mesurau Deilliannau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned: 2014/15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160407-learner-outcome-measures-further-education-work-based-adult-community-learning-2014-15-cy.pdf [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016l) *Ysgolion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ysgol.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-type [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

Llywodraeth Cymru (2016m) *Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a grŵp oedran*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-agegroup [Darllenwyd 1 Rhagfyr 2016]

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Estyn